Myfi yw 'r winwydden, chwithau yw 'r canghennau; yr hwn fydd yn aros ynnofi a minnau ynddo yntau, hwnnw fydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid hebofi ni ellwch chwi wneuthur dim. 130

PREGETH X.

Coloss. ii. 3.

Yn yr hwn i mae holl dryforau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig. 155

PREGETH XI.

Math. xx. 6.

Ag efe a aeth allan ynghylch yr unfed awr ar ddeg, ag a gafas eraill yn fefyll yn fegur, ag a ddywedodd wrthynt, pa ham i fefwch chwi yma ar hyd y dydd yn fegur? 174

PREGETH XII.

2 Cor. xiii. 5.

Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, fef, bod Iefu Grift ynnoch, oddieithr i chwi fod yn anghymmeradwy? 191

PREG-

PREGETH XIII.

MATH. vi. 13, rhan gyntaf.

Ag nag arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg. 209

PREGETH XIV.

IOAN iii. 36.

Yr hwn ſydd yn credu yn y Mab, i mae gwaddo fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr i mae digoſaint Duw yn aros arno ef. 229

PREGETH XV.

IOAN iii. 19.

A hon yw 'r ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni; canys ir oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg. 245

PREGETH XVI.

DIARHEBION i. 10.

Fy Mab, os pechaduriaid a'th ddenant, na chytuna. 264

PREG-

PREGETH I.

Math. xvi. 26.

Canys pa leſad i ddyn, os ynill ef yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?

PED faem ni i farnu ynghylch gwerthfawrogrwydd ac anian eneidiau dynion yn ol eu buchedd a'u hymarweddiad, naill ai ni a wadem eu hanfarwoldeb gyda 'r Saduceaid, ac a'u cymmerem megis rhyw bethau ſeilion a gwael, na thalent edrych ar eu hol, neu yntau ni a fwriem eu bod yn ffol ac anſynhwyrol tros ben, am beidio rhagddarbod yn well dros y fath hanfodau anfarwol. Ond byddwn ni mor ddiofal ac i mynnom ynghylch matter mor bwyſfawr, efe yr hwn a'u creodd ac a'u prynodd, ac am hynny a wyr yn ddichlyn eu hiawn werth; efe meddaf ſydd yn rhoddi un enaid i gyd-bwyſo a'r holl fyd, ac yn mynegi ei bod

hi mewn godidowgrwydd a theilyngdod yn rhagori ac yn talu mwy nâ 'r holl greadigaeth. Ac am hynny pe 's gallem gyrraedd holl ogoniant, cyfoeth, a phleſerau 'r byd yn gyfnewid am ein heneidiau, i mae Criſt yn mynegi i byddem ar golled; *canys pa leſad i ddyn, os ynnill ef yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?*

Meddwl y geiriau yma yw hyn, mai pan goller yr enaid unwaith, nid oes dim yn yr holl fyd o gymmaint pris a gwerth ag i dichon ei gwared a'i atbrynu. Nad oes gennym ni ddim yn ein gallu, ac o fewn ein cyrraedd ein hunain, ddigonol er prynu yn ol drachefn enaid colledig, a ymddengys yn ebrwydd, os yſtyriwn y mawr wahaniaeth a rhagoriaeth ſydd rhwng y creadur darfodedig ac enaid anfarwol dyn.

Pa mwyaf fo o ddelw Duw ar un creadur, mwyaf oll fydd ei bris a'i werth. Yr awron i mae mwy o ddelw Duw yn enaid dyn, nac mewn un creadur arall, canys ef a luniwyd yn ol dull a delw Duw. Anrhydedd yw hwn ac ſydd yn perthyn i ddyn yn unig. Duw yſpryd yw, ac am hynny i mae yn rhaid iw ddelw ef fod yn yſprydol, nid yn gorphorol.

gorphorol. Enaid dyn ſydd greadur o dechreuad ardderchog; anadl Duw ei hun ydyw, yr hwn a chwythodd yn nhelpyn o bridd anadl einioes, ac felly dyn a ddaeth yn enaid byw. Ef a'i crewyd er mwyn dibennion mawr ac ardderchog, er mwyn tragywyddoldeb o ddedwyddwch a gogoniant. I mae yn rhaid iddi breswylio yma dros ennyd, a thros oes oeſoedd yn y byd neſſaf. Oddiyma gan hynny, i mai yr ymofynniad yn tarddu, A oes un creadur yn y byd a ddichon roddi cyflawn daledigaeth am golledigaeth enaid mor werthfawr, enaid o ddechreuad mor uchel, o ddelw mor gyſſegredig, ac o hanfod mor anfarwol? Cynneddfau yw'r rhain ac ſydd yn chwanegu ei phris a'i gwerth, ac yn peri iddi fod o werthfawrogrwydd anfeidrol; ond nid yw 'r creaduriaid eraill oll ond gwag ag ofer, gwael a darfodedig; pethau o natur rhy ſalw iw rhoddi yn y glorian i bwyſo ac enaid dyn.

Os mynnwch chwi ddeall yn iawn werth eich eneidiau, edrychwch yn ol ar groes Criſt; gwelwch mor reſynus oedd ei farwolaeth, ac yſtyriwch yn dda y pridwerth a roddwyd i lawr tuac at eu

prynedigaeth; i mae 'r apoſtol yn dywedyd wrthych, *na phrynwyd mo honoch a phethau llygredig, megis arian ag aur*, y pethau gwerthfawroccaf o'r creaduriaid, a'r pethau mwyaf ſydd yn ein gallu ni roddi tuac at brynedigaeth ein ceraint anwylaf. Ond ni thâl y pethau hyn ddim tuac at brynedigaeth eneidiau; canys gorchwyl ydyw o natur uwch; na thâl; canys i mae 'r enaid wedi rhedeg mewn dyled anfeidrol, i mae wedi troſeddu cyfraith anfeidrol, ac i mae gwedi pechu yn erbyn Duw anfeidrol; ac am hynny pa beth bynnag a haeddo iddi rydd did a gollyngdod, ſydd raid ei fod o gymmaint pris a gwerth ag ydyw 'r ddyled: yr hyn ni ddichon dim ei wneuthur, ond gwerthfawr waed Mab Duw, yr Oen difrycheulyd hwnnw, ac ſydd yn tynnu ymmaith bechodau 'r byd. A phed fai ein heneidiau mor wael a dibris, ac i mae rhai yn eu gwneuthur, y rhai, gyda rheini yn y prophwyd, ac ſydd yn gwerthu eu hunain am ddim, ac yn fodlon yn ymado a hwynt am fwyniant darfodedig, am bechod gwael, neu drachwant ffiaidd; ped na bai ein heneidiau meddaf, o fwy pris, nac i mae 'r fath bechaduriaid yn gyffredinol

dinol yn eu gwerthu am dano, diau fod ein Iachawdwr Criſt yn ddirfawr yn y golled, yr hwn ni rufodd er mwyn eu hachub, fyned trwy yrfa o watwar a dirmyg anhaeddol yn y byd, yr hwn a ddiweddodd ei fywyd cyſtuddiedig mewn angau gwarthus a chywilyddus, yr hwn a dywalldodd ei werthfawroccaf waed, ac a aberthodd ei einioes ei hun yn gyfnewid am ein heneidiau; ac yn ddiaunmau, na wnaethai Criſt mo hyn oll, oni buaſai fod y gwerth yn gyfattebol i'r prynniad: diammau yw, nad oedd gan yr Iuddewon ond tyb iſel am waed Criſt, ac nad oeddent ddim teimladwy o'u heuogrwydd, pan ddywedaſant, *bid ei waed ef arnom ni ac ar ein plant.* Ond na atto Duw i'r ſawl ac ſydd yn galw eu hunain yn griſtianogion, ddibriſio gwaed gwirion Mab Duw; yr hwn oedd o ddigon gwerth er talu anfeidrol ddyled, ac er achub byd o bechaduriaid.

Gadewch i ni gyda chalonnau difrifol yſtyried, faint a oddefodd ef er prynu ein heneidiau; ac oddiyno gadewch ini ddyſcu oſod pris arnynt, cyfattebol i'r pridwerth mawr a dalwyd i lawr droſtynt. Ond fel i galloch oſod iawn werth ar eich heneidiau,

a thybied eu bod yn haeddu eich pryder a'ch gofal mwyaf i barattoi troſtynt erbyn y byd neſſaf, gadewch imi roddi rhai pethau o'ch blaen a dâl, os tâl dim, eu hyſtyried.

Ped na buaſai y mab afradlon, yn anwyl ac yn werthfawr yngolwg ei dad, ni buaſai ddim yn ei gyfarfod ac yn ei dderbyn a chymmaint o ſerch a chariad, ac ni buaſai ddim mo 'i geraint a'i gyfeillion yn ei groeſawu a chymmaint o lawenydd a gorfoledd: felly ped fai ein heneidiau mor wael a diyſtyr yngolwg Duw, ac i maent gan ddynion, pa ham i mae 'r nef yn llawenychu, a chôr yr angylion yn gorfoleddu, am eu troedigaeth? Gofal a phryder y gwr a oedd yn chwilio am y ddafad golledig, a diwydrwydd y wraig yn ymofyn am ei harian a gollodd, a mawr lawenydd y ddau pan gawſant yr hyn a gollaſant; beth ydyw 'r dammegion hyn ar cyffelyb, ond arwyddion eglur a hawdd o'r mawr werth a'r pris mae Duw yn eu goſod ar eneidiau dynion, megis na choller yr un o honynt, ond dyſod o honynt i edifeirwch a chael eu hachub. O'r achos hwn i darfu i Dduw adnewyddu ei gyfammod a'i addewidion a dynol ryw. Oni buaſai gan Dduw gariad tuac

tuac at eneidiau dynion, fo fuaſai fyth yn ſefyll ar y cyfammod cyntaf o weithredoedd, ac fo fuaſai yn ein gadael mewn cyflwr anobeithiol o golledigaeth; ni buaſai raid iddo ddim ond ein gadael ini ein hunain, heb edrych ar ein cyflwr, i orwedd yn ein trueni ac yn ein ffordd annedwydd i ddeſtryw. Ond ni adawai trugaredd na chariad Duw i hymmy fod, ac am hynny unwaith drachefn i mae ef yn adnewyddu cyfammod graſlon, ac yn cynnyg iechydwriaeth ar ammodau eſmwyth. Efe a roddes ei garedig fab i'n prynu, ei air a'i yſpryd i'n ſancteiddio, a'r cwbl er mwyn y diben mawr a graſlon hwn yn unig, ſef, iechydwriaeth ein heneidiau. Efe a roddodd ini linyn ar linyn, gorchymmyn ar orchymmyn; ac i mae ef etto a mawr ammynedd a hirymaros, yn cynnal gweinidogaeth yr efengyl gan attolwg i ni atgymmodi. I ba ddiben i mae Duw yn cynnal i fyny y byd a'i golofnau, cyhyd? Ai ydyw ef yn gwneuthur felly debygwch chwi, i ddynion dorri ei gyfreithiau, camarferu ei drugareddau, ac i ſarhau ei lywodraeth? Onid yw ef yn gwneuthur felly yn hytrach er mwyn ei

etholе-

etholedigion, a thuac at ddwyn eneidiau i ogoniant?

Drachefn; ped na byddent yn werthfawr ac anwyl yn ei olwg ef, ni wnai ef ddim mor fath ddirfawr barattoad o ras iddynt yma, nag o ogoniant rhagllaw.

Unwaith etto; chwi a ellwch yn hawdd ddeall gwerthfawrogrwydd eich eneidiau, oddiwrth ddychymmygion a chyfrwyſdra eu gelyn y diafol. Ef a wyr eu gwerth yn rhy dda, ac am hynny, yn ei brofedigaethau ni eſgeuluſa un odfa, yn ei addewidion ni ſaif wrth ddim cynnygion, ond *hyn oll a roddaf iti, os ſyrthi i lawr a'm haddoli i.* Pa droadau, pa ddwfn ddichellion, pa gyfrwyſtra i mae Satan yn eu harferu, i fradychu un enaid truan i ddeſtryw a cholledigaeth dragywyddol? Os yw colledigaeth enaid yn beth mor diyſtyr ac i mae rhai yn meddwl, pa ham ir oedd y lleng yn yr eſengyl yn ymgynddeiriogi cymmaint, pan orfu arni ymado a gollwng yn rhydd ddeiliad a chaethwas iddi? I mae yn rhaid i'r dyn hwnnw gan hynny, fod yn ffol a gwallgofus tros benn, yr hwn, oddiwrth yr yſtyriaethau yma, y rhai i mae crefydd yn eu cynnyg i ni, ni wyr roddi iawn bris a gwerth

gwerth ar ei enaid a'i hiechydwriaeth, o flaen yr holl bethau eraill ac ſydd yn y byd.

Yr hyn ſydd yn fy arwain i at yſtyriaeth, ac ſydd yn deillio yn naturiol oddiwrth y teſtun, ſef, nad oes dim ymyſc y creaduriaid o gymmaint gwerth ac i dichon brynu ac achub enaid. *Beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?*

Ped fae gennym ni gymmaint o lywodraeth ar y creaduriaid ac oedd gan y Canwriad ar ei weiſion; ped fae gennym ni yr holl fwyniant a ddichon y byd ei roddi, neu ninnau ddymuno; beth a dalai hynny ini, pan na ddichon dim ond gwaed Criſt, ag ufuddod i gyfreithiau yr efengyl, roi heddwch i'n cydwybodau, ac ennill iechydwriaeth i'n heneidiau. Pethau oddiallan a ddichon beri i'r byd debyg fod dyn yn ddedwydd, ond yn ddiau ag mewn gwirionedd, ni allant na 'i wneuthur yn ddedwydd yma na rhagllaw; ni allant yma, o herwydd beth er fod ein tai a'n byrddau yn llawnion, ein tiroedd a'n meddiannau yn llydain, beth a dal y pethau yma, os yw euogrwydd a chywilydd, anfodlondeb a thriſtwch, yn cnoi ei gydwybod. Gadewch i'r dyn hwnnw gofleidio

gofleidio yr holl ddedwyddwch ac a ddichon y byd ei roddi, etto i mae y dyn fyth yn druenus, tra fo ei ran orau yn y modd yma yn nychu ac yn curio ymmaith. Canys enaid dyn ydyw dyn ei hunan, ag os bydd ei enaid yn druenus, i mae yn rhaid ei fod yntau felly hefyd. Felly nid oes dim yn gallu yr holl greaduriaid achub enaid dyn rhag trueni, nac yma na rhagllaw. A ddichon dyn ddwyn ei gyfoeth a'i feddiannau i ddyhuddo 'r fflammau, ag i freibio ei ddihenyddwyr? Na ddichon medd y Pſalmydd; *nid â cyfoeth y gwr goludog gydag ef.* Ond a ddichon ef brynu ei rydd did a hwynt cyn i delo yno? Na ddichon; canys ef a dalodd fwy prynu enaid, ac mae 'n rhaid gadael hynny hebio dros byth. Beth a dal gan hynny yn y byd neſſaf, fod dynion yn ffynnadwy ac yn llwyddiannus yn y byd yma? Pa fodlondeb gwael a fyddhi i un o honom ni, fod ein meddiannau yn fawr ag yn llydain, a'n cyflwr yn ddedwydd ac yn dycciannus, pan ymyſc ein holl bleſerau a'n diddanwch, i cymmer angau ei afael arnom, ac a'n gwthia ni yn ddiſymmwth ymmaith oddiwrth ein holl fwyniant, ac a'n geſyd mewn rhyw fro an-

anghyſbell yn ddiymgeledd, lle i gadewir ein heneidiau, y cwbl ac a fydd gennym y pryd hynny, yn noeth, ac yn dlawd, heb geraint na chyfeillion, heb gymmorth, heb obaith. Ni thal y cwbl ac ir ym ni yn ei feddiannu yma ronyn ini yno; lle i bydd euogrwydd ag anobaith, cywilydd a chynddaredd, blinder a chyſtudd, ein rhann dros byth. Pa beth a rown ni y pryd hynny, ie pa beth na roddem ni, yn gyfnewid am ein heneidiau? A wna aur ac arian iawn? Na wnant; bid dy arian gyda thi i golledigaeth. A wna tiroedd a meddiannau ddim gyda Duw? Na wnant; i mae ef yn Arglwydd ar yr holl greaduriaid. A wna gallu ac awdurdod, anrhydedd a mawredd ddim yn dy blaid gydac ef? Na wnant ronyn; i mae ef yn oruchaf eiſoes, ac ni ddichon dderbyn un gradd uwch nac ſydd ganddo. *I mae ei orſeddfainc ef yn y nefoedd, a'i deyrnas yn llywodraethu dros oll.* I mae tymmor gras a thrugaredd y pryd hwnnw droſſodd; ac i mae tymmor trom ddigofaint Duw a'i doſt gyfiawnder, wedi dyfod ar y gwrthodedig; ac am hynny ni chymmerir dim yn gyfnewid am ei enaid. I mae gagendor anhy-

anhygyrch rhwng nef ag uffern; ac i mae anghyfnewidiol farn Duw wedi ei datcan, ac ni ddichon neb ei dattroi na'i dadymchwel yn y cyflwr hwnnw, *nid oes un ffordd nag enw arall dan y nef, trwy ba un i gallwn fod yn gadwedig, ond yn unig enw ein Harglwydd Iesu Grift.* Ond och finnau! mae amſer hwnnw gwedi darfod yno; gwaed y cyfammod, yr hwn a ſangodd y gwrthodedig diras tan ei draed, ni wna iddo ronyn lles, ond yn hytrach fel gwaed Abel, a eilw am ddial, ag a chwanega fwy o fflammau iw dân, a mwy o boenau iw uffern. I mae cyflwr yr enaid y pryd hynny yn anghyfnewidiol dros byth, ac am hynny ni ellir rhoddi dim, ac ni chymmerir dim yn gyfnewid am dani.

Pa ham yntau ir ym ni yn anturio tragywyddoldeb ac anfarwoldeb ein heneidiau ar y fath anſiccrwydd ac enbydrwydd? Pa fodd i mae yn digwydd ein bod ni yn fwy gofalus am ein rhann farwol na'n rhann anfarwol? Dyma ffolineb y gwr goludog yn yr efengyl; ir oedd ganddo dda wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flynyddoedd, ac a ddywedodd wrth ei enaid,

Fy

Fy enaid, i mae gennyt dda lawer, gorphwys, bywtta, yf, bydd lawen. Ond am ei enaid anfarwol, nid oedd dim gwedi ei roi i gadwer mwyn hwnnw; ni feddyliodd ef unwaith am dano, er na wyddai pa bryd i cymmerid oddiwrtho. Ac am hynny i mae'r yſcrythur lan yn ei alw yn ynfyd. *O ynfyd, y nos hon i gofynnant dy enaid oddiwrthyt; ac eiddo pwy a fydd y pethau a barattoaiſt?* Ac yn ddiammau, eſgeuluſo dedwyddwch ein henei-diau yw y ffolineb a'r ynfydrwydd mwyaf ac a ddichon fod; canys ein heneidiau ydynt nyni ein hunain, a'r hwn a'i gwnelo ei hun yn druenus, a hynny dros byth, ſydd euog o'r ynfydrwydd a'r gwallcof mwyaf ac a ddichon fod. Os yw yr hwn ac ſydd yn eſgeuluſo ei gorph, ac yn naccau rhagddarbod drofto, yr hwn a ddenfydd yn llwch ac yn lludw; os yw ef meddaf, yn cael ei gyfrif yn anfynhwyrol ac yn annaturiol tros benn; pa beth a allwn ni ddywedyd am yr rheini ac ſydd yn eſgeuluſo parattoi iw heneidiau anfarwol, y rhai ſydd raid iddynt fyw dros dragwyddoldeb yn y byd nefaf? Os yw yr hwn nid yw yn rhagddarbod tros ei deulu yn waeth na'r diffydd, i mae'n rhaid fod yr hwn nid yw yn rhagddarbod

tros ei enaid yn adyn mwyaf truenus ag ellir ei ddychymmyg.

Gadewch i'r yſtyriaeth o'r hyn a ddywedais ein tywys i'r cyfryw feddyliau a'r rhain.

Er bod rhai dynion yn poeni ac ymlafurio i ennill mawredd a golud, eraill i ymdrybaeddu mewn trachwantau a thryth-yllwch, nid oes gennyf i ond dau beth iw gwneuthur, ſef Duw iw addoli, ac enaid iw achub. Gadewch i bwy bynnac a fynno gael y gair o fod yn wr doeth a ſynhwyrol yn trin matterion bydol; mi a debygaf fi fy hunan yn ddoeth ddigon, os gallaf fod yn gadwedig, ac yn ddigon mawr, os gallaf gyrraedd teyrnas nef.—Gadewch i'r ſawl a fynno fod yn ofalus, gyda 'r ynfyd yn yr eſengyl, i roddi i gadw dda lawer erbyn yr amſer ſydd i ddyfod; gadewch i mi yn unig roddi i fyny ſail dda, erbyn y dydd diweddaf; modd i gallwyf gael gafael ar fywyd tragywyddol. I mae gennyf enaid anwyl oddi fewn i'm o anfeidrol werth, ac o natur anfarwol; ef a ddichon gael ei wneuthur yn ddedwydd dros dragywyddoldeb, yn gyſtal ac yn druenus. I mae iechydwriaeth wedi ei chynnyg i mi ar ammodau eſmwyth, a dyn diriaid, drwg, yſgeler

fyddwn,

fyddwn, pei gwrthodwn y fath gynnyg, a gollwng fy enaid truan, hynny yw, fy hunan, i drueni tragywyddol. Pa ham i cymmerwn ni y peth hwnnw yn gyfnewidiad am fy enaid, yr hwn ni chymmer Duw drachefn gennyf? Canys myfi a wn yn dda pei 'r ennillwn yr holl fyd, ni byddai ddim iawn am golledigaeth yr enaid. Os collaf fy hunan, pa beth a ddichon fod yn ennill imi? Canys yr holl deganau a phleſerau hynny, ſef, tiroedd a meddiannau, anrhydedd a pharch, yr holl ofregedd gwag yma i mae dynion yn cyfnewid eu heneidiau am danynt, ſydd raid eu gadael yma lle i cawſom hwy, y tu yma i'r bedd. Pan ymddangoſo yr enaid yn noeth ac yn ddiymgeledd o flaen gorſedd-fainc Duw; pan na bo dim gwahaniaeth rhwng coronau brenhinoedd a gefynnau carcharorion; pan na pherchir porphorwiſcoedd tywyſogion mwy na brattiau cardotteion; pan ddyger pawb i'r un radd; pan na dichon dim anrhydedd nac ardderchowgrwydd galwad, ganlyn dyn i breſennoldeb yr hwn ſydd yn eiſtedd ar yr orſedd-fainc, ac aros rhyngddo a'r farn a roddir arno yn y diwrnod mawr hwnnw;

pa flas a fydd gan y goludog y pryd hwnnw yn ei ddanteithion? pa ddifyrrwch a gaiff yr ynfyd goludog yn ei yſcuboriau llawnion, neu y gwr ieuanc yn ei fawr feddiannau? Yna ir ymddengys ffolineb y gwr bydol, pan na bydd ganddo ddim wedi ei adel onid ei enaid truan, a hwnnw yn druenus ag anobrithiol dros byth; pan na bo dim ond ei euogrwydd a'i bechod yn ei edrych yn ei wyneb, er gwarth a chywilydd iddo. Yna i cenfydd ef ei ynfydrwydd yn gwerthu ei enaid am bob cynnyg ofer ac a wnaeth y byd iddo, ac i mae yn rhy ddiweddar yrawron ei phrynu yn ol na'i hachub. I mae y farn wedi ei datcan, ag hi a gyflawnir arno yn ebrwydd; canys pan gollir yr enaid yno unwaith, hi a gollir tros byth: i mae 'r cyflwr yn anghyfnewidiol: i mae yn rhy ddiweddar adnewyddu ein cyfammodau a Duw, canys amſer gwaſanaeth ac ufudd-dod a aeth droſodd, ac amſer gwobrwyad a ddaeth; ag fo fydd pob dyn ſiccr o dderbyn yn ol ei weithredoedd.

Gan hynny, i ddiweddu ar y cwbl, os yw ſerch tuac at Dduw, os yw ſerch tuac at eich eneidiau, os yw ſerch tuac at ennill y nef o ddim pwys gyda chwi, neu

yn

yn gweithio gronyn ynnoch; yna, cenwch yn iach i'r byd a'i holl dwyll a'i wagedd, a goſodwch bris ar eich eneidiau gwerthfawr uwchlaw pob dim ac ſydd yn y byd iſſod yma, a bwriedwch yn ddiyſcog na chymmeroch ddim yn gyfnewid am dan y ſath hanfodau anfarwol. Goſodwch eich ſail yma, chwannegwch eich hawl yngwaed Criſt, iawn ddefnyddiwch ſoddion gras ac ſydd gennych yn eich dwylo, megis i bo gennych yr hyn a'ch diddano ag a'ch cymhortho, ag a gadwo eich eneidiau yn nydd yr Arglwydd Ieſu. I'r hwn fendigedig Ieſu, gyda'r Tad a'r Glan Yſpryd, i bo pob mawl, anrhydedd, gogoniant a gallu, yrawrhon ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

PREGETH II.

Datguddiad xx. 12.

Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn ſefyll gar bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd; a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd: a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hyſgrifennu yn y llyfrau, yn ol eu gweithredoedd.

PAN yw drygioni a ffolineb yn llwyddo yn y byd, ef a feddyliir fod Duw yn arddelw y cyfryw bethau ag a oddefodd ef i ddigwydd, am reſymmau ag achoſion anwybodol ini, a chaniattau o hono yr hyn a ddioddefodd ef i ddamwain mewn barn. O'r tu arall, ef a feddyliir fod y bwriadau gorau yn ddrwg pan font yn aflwyddiannus, ag i mae y diniweidrwydd mwyaf yn cael ei goganu pan fo hi tan gwmmwl. Yn y modd hyn i darfu i *Simei* gyhuddo *Dafydd*, o herwydd drygau ei dy ef: ag ef a feddyliwyd fod *Job* mor hynod am ei bechodau, ag ir oedd am ei drueni. Ef a fynnai y

Bar-

Barbariaid mai un llawruddiog oedd St. *Paul*, o herwydd y wiber a lynodd wrth ei law; a'r rhai anghred oddiwrth groes Criſt, a dybiaſant mai drwg-weithredwr oedd yr Ieſu bendigedig. Yn y modd hyn i mae dynion yn y bywyd yma yn camfarnu, ac felly yn goganu ag yn cablu rhagluniaeth yn ol eu meddyliau gwyrgeimion eu hunain, a'u malais a'u ſerch attynt eu hunain.

Gan fod pethau felly yn y byd yma, cymmwys yw amlygu o'r diwedd fod ffyrdd rhagluniaeth yn gywir, a bod yr hyn oll ag ſydd yn edrych yn anghywir, yn dyfod ac yn tarddu yn llwyr oddiwrth ein hanwybodaeth ni, a bod y pethau mwyaf rhyfedd yn ein golwg ni, wedi deillio oddiwrth anfeidrol ddoethineb, yr hon ſydd yn cyrraedd dros oll. Ac megis i gallom ni wneuthur gwahaniaeth rhwng yr hyn ſydd dda a'r hyn ſydd lwyddiannus, a rhagoriaeth rhwng rhinwedd dda a thycciant; pa ham i mae tân allan o'r fwyaren yn difa y cedrwydd; a pha ham i mae y drygionus yn fynych yn cael y llwyddiant ac a debygid ei fod yn ddyledus i'r cyfiawn: i mae meddaf, yn llwyr angenrheidiol a chymmwys, fod y cyfryw ddydd, megis y galler cy-

hoeddi

hoeddi dirgelion mwyaf cuddiedig dynion, a llais uwch na tharan; ac fel na allo y pechodau a wnaethpwyd mewn cilfachau, ddianc yn ddigoſb, mwy na'r rhai a wnaethpwyd mewn lleodd cyhoedd. Canys i mae calon dyn fel dyfroedd dyfnion, yn llyfn ar ei harwyneb, ond yn ei gwaelod i mae hi yn llawn o greigiau a ſugndraethau.

I mae dynion mewn cymdeithas yn edrych yn ſiriol, ag yn llaes eu gwên, ac yn cymmeryd arnynt yr agwedd fod yn ddoeth, yn ſanctaidd, ag yn bwyllog; ond wrthynt eu hunain, neu mewn cyfeilliach neillduol, i maent yn fwy rhydd yn eu geiriau a'u gweithredoedd, i maent yn ffol, yn aflan, ag yn ddrygnaws, ag yn yſtafelloedd dirgel eu heneidiau i maent etto yn waeth. I maent yrawron am orchuddio eu gwarth a lliwiau ag enwau teg; ag yn eſcuſodi eu pechodau o herwydd grym profedigaeth, neu wall drwg, a'r cyffelyb eſcuſion. Canys er ein bod yn canfod digonedd o ddrygioni ag aflendyd pan agorom ein llygaid, ag edrych o'n deutu; etto i mae byd arall gwaeth o ddrygioni, wedi ei gau allan o'n golwg, wedi ei guddio mewn tywyllwch, mewn bwriadau a gweithredoedd

redoedd dirgel, ynghilfachau a chonglau y galon a'r meddwl. I mae 'r rhain yn llenwi goror ag ſydd wedi ei gorchuddio ag ofn a chywilydd, ag yn ddarguddiedig, ag yn amlwg yn unig iddo ef, i'r hwn i mae pob peth yn noeth ag yn agored, a thywyllwch mor olau a hanner dydd. Ond y dydd mawr a ddaw a eſyd bob peth yn uniawn; a'r camweddau cuddiedig a ddiangafant hyd yn hyn yn ddigoſp, a ffiangellir a ſcorpiynau euogrwydd a gwaradwydd; a phurdeb y mawredd nefol a ymddengys yn ei llewyrch gogoneddus priodol iddi ei hunan. Mewn gair, mae cred o farn i ddyfod, yn llwyr gyttunol a rheſwm a thaeſn pethau.

Mi a yſtyriaf gan hynny, y teſtun yma mewn dau berthynas arbennig; ſef, *y dyfyniad cyffredin*, a'r *atcyfodiad*; y rhai a grybwyllir gan St. *Paul*; *Yr atgorn a gân a'r meirw a gyfodir.* Ef a'i clywir ymhob lle, yn y ddaear, y moroedd, a'r wybrennau, gan ddywedyd, Gwrandewch, chwi feibion *Addaf*, gwrandewch, bawb oll o bell ag agos, yn gyſtal y ſawl a fu fyw yn y cynfyd, a'r rhai fucheddafant yn yr oeſoedd diweddaf; o bob cwrr, ag o bob bro, iaith, a chenedl; yn gyſtal y ſawl ſydd yn gorwedd

wedd yn eu beddau, a'r ſawl ſydd yrawr-on yn fyw. Gwrandewch ddatganiad y brenin mawr, tywyſog gogoniant, barnwr dynion ag angylion. Dydd dial a thale-digaeth a ddaeth, dydd dychryn a gorfo-ledd. Y nos a aeth heibio: chwi feirwon, gadewch huno yn eich beddau, gwiſcwch eich cyrph, cynnallwch y darnau gwaſcare-dig, gelwch eich meddyliau i gof, a gwne-wch eich cyfrifon. I mae'r orſedd wedi ei pharattoi, ag i mae'r barnwr yn dyfod. Chwi drigolion ſydd yrawron byw, gade-wch heibio eich amcanion, ymadewch a'ch maſnach, ymmaith a'ch pleſerau, amſer y rheini a ddarfu, a ddarfu dros byth; I mae tragywyddoldeb mewn golwg, trw-ſiwch eich lampau, i mae y priodasfab wrth y drws.

A chwedi hyn i mae yn canlyn yr adcyfodiad cyffredinol; ag wele i mae y lleoedd dirgelaf yn taflu ymmaith eu gorchguddiau, ag yn datguddio y teu-luoedd oedd yn gorwedd yn guddiedig tanynt. I mae'r ddaear rydd yn ymſym-mud ynghylch y meirw, a'r beddau yn agoryd eu dorau i ryddhau eu carcharo-rion: ag wele! liaws aneirif o ddynion yn

derchafu

derchafu o'r llwch, i ddyfod o flaen yr orſeddfainc. Yna i dychryn y cedyrn a'r trawſion; y rhagrithiwr a frawycha pan luſcer i oleuni, ag o ddiſtawrydd y bedd, ei guddiedig ddrygioni; yr aflan a'r annuwiol a alarant am eu bod yn cymmeryd i fyny eu cyrph, i farw marwolaeth a ſo gwaeth; y rhai moethus ag eſmwyth a ochneidiant, gan ewyllyſio dychwelyd drachefn i bydrni a llygredigaeth, yn hytrach nag i'r olwg ryfeddol hon, a ddatguddia fuchedd llawn o wagedd, pechod, a ffolineb. Yn y modd hyn ir ymddengys y byd drygionus, mewn braw a ſyndod anrhaethadwy, gar bron yr orſeddfainc. — Y cyfiawn hefyd a gyfodant; hwy a ddeffroant a bywiogrwydd yn eu heneidiau, a llawenydd a gorfoledd yn eu hwyneb-pryd; hwy a gyfarfyddant a'u cyrph yn hyfryd, y rhai oeddynt hen gymdeithion eu diddanwch a'u trueni, gan lawenychu cael eu gwaredu oddiwrth lygredigaeth, a'u bod yn barod i fyned i feddiannu y gogoniant a addawyd iddynt, ag a hir ddiſgwyliaſant am dano.

Yn y modd yn ir ymddengys y byd o rai drwg a da, ar y dyfyn mawr,

arbennig

arbennig hwnnw. Y ddaear, y moroedd, angau ag uffern, a roddant i fyny eu meirw. Ag felly *Addaf* a'r Patriarchiaid, a'u holl hiliogaeth hyd yr oeſoedd diweddaf, a ſafant i fyny o flaen yr orſeddfainc; canys i mae pawb oll yn ddeiliaid i'r un llywodraeth gyffredinol, a phawb i roddi cyfrif i'r un goruchel farnwr. A'r barnwr mawr yma yw Criſt Jeſu; yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw i'r diben hwnnw. Ac yma mi a ddangoſaf, pa mor gymmwys yw ef i'r ſwydd arbennig, dramawr hon. I mae ef yn gymmwys i fod yn farnwr megis dyn, o herwydd iddo ymddaroſtwng, a chymmeryd gwaeledd ein cyflwr arno. I mae yn iawn iddo ef, yr hwn unwaith a ddioſgodd ei ardderchowgrwydd, gymmeryd drachefn ei gynnefin fawredd a'i ogoniant yngwydd holl ddynol ryw. Iddo ef, yr hwn a fu mor iſel ag ymoſtwng oddiwrth deyrngadair gogoniant i breſeb, ag oddiwrth lywodraeth y byd, i fuchedd deiliad gwael; iddo ef meddaf, gael ei ardderchog dderchafu gymmaint goruwch mawredd dynol, ag ir oedd ef y pryd hynny yn îs na hi. I mae yn gymmwys i'r un Santaidd nefol hwnnw,

hwnnw, yr hwn a gernodiwyd, a ddirmygwyd, a farnwyd, ag a groeſhoeliwyd gan fyd trahaus, gael o'r diwedd yn gyfiawn farnu ei farnwyr.

Megis i gwelo *Herod* na ddarfu iddo ef erlid brenin rhyw dalaith fechan, ond penllywydd dynion ag angylion, ac i caffo *Pontius Pilatus* wybod, fod yr hwn ir oeddynt yn ei alw yn frenin drwg-watwor, yn ddiau yn oruwch ymmerodr na *Cæſar*. I mae hefyd yn iawn iddo ef fod yn farnwr, o herwydd iddo gymmeryd carennydd a'n hanian, a'i fod trwy brawf yn gwybod gwendyd dynol ryw. Ped fai goruchaf fawredd y Duwdod ei hunan yn ein barnu, pwy a allai ddioddef y fath oleuni a gogoniant anhygyrch, ac fai yn amgylchu gorſeddfainc mor ddiſclair? Ond i mae y gogoniant yma yn cael ei thymheru a chyfryngdod y natur ddynol; ac i mae y goleuni yma yn gwiſco llenn i'n hannog ni ddyneſhau. Ein brawd, ein cyfaill a'n carodd, ag a fu farw droſom, ſydd i eiſtedd yngorſedd barn. I mae ganddo ef yr un toſturi a phan wylodd dros y ddinas wrthnyſig, a'r un tynerwch a phan roddodd ei einioes yn bridwerth dros ddynol ryw; yn gymmaint

ag i gall y ffyddloniaid ddyfod yn llawen atto, a hyderu ar ei gariad; canys ef, yr hwn a'n prynodd, ſydd i'n barnu; *Ag ef a farn y byd mewn cyfiawnder.* Y llyfrau a agorir, a'r llyfrau hynny yw y gyfraith a'r efengyl. I mae 'r gyfraith yn ddiau yn gofyn diball ufudd-dod; ond pan agorir y llall, ſef yr efengyl, i mae yn datgan maddeuant, heddwch, a gollyngdod i bawb o ddilynwyr yr Oen; y rhai a dyſtiolaetha ſant eu ffydd yn Ghriſt trwy edifeirwch a diffuant ufudd-dod. Ond gwaradwydd, marwolaeth, a diniſtr tragywyddol, i wrthodwyr cildynnus ei ras, y rhai a fuant elynion mor doſt iddynt eu hunain a gwrthod yr iechydwriaeth a gynnygiodd ef iddynt.

Ni a welwn gan hynny fod ffyddloniaid edifeiriol, y rhai nad ydynt yn berffaith yn ol cyfraith gweithredoedd, yn cael eu derbyn yn gymmeradwy, o herwydd eu gwir edifeirwch a'u diffuant ufudd-dod, yr hon yw eu perffeithrwydd hwy, yn ol deddf neu gyfraith yr efengyl. A hyn a dderbynnir gan y barnwr gyda 'r geiriau cyſſurlawn hynny, *Da weiſion, da o ffyddlon, ewch i mewn i lawenydd eich Arglwydd.*

Mi

Mi a dynnaf weithiau rai yſtyriaethau, oddiwrth yr hyn a ddywedpwyd, a ſo buddiol i weithio ar ein buchedd a'n hymarweddiad ni yma.

Os oes gan hynny, ddiwrnod wedi ei oſod tuac at y farn gyfiawn a chyffredinol hon, gan farnwr mor fawr ag ardderchog; gadewch i ni feddwl, pa for frawychus i bydd y byd diofal, annuwiol, ar y dyfyn diſymmwth, arbennig hwnnw. Pa fodd i bydd yr anffyddloniaid a'r dirâs, y rhai a glywſant ag a gredaſant y pethau hyn, ond nid yſtyriaſant hwynt, ac ni wnaethant ar eu hol, yn arſwydo ac yn dychrynnu wrth ddyfodiad ofnadwy y dydd hwnnw! Pa fodd y bydd y cedyrn traws, y rhai ſydd yn gorthrymmu y gweiniaid yma, *yn gwaeddi ar y mynyddoedd iw gorchuddio rhag preſennoldeb y barnwr!* Ond nid oes dim a ddichon eu diogelu; dim cilfachau, na chonglau, na mynyddoedd, na gogofau iw cuddio. I ba le i diangant o'i wydd? *Ni chuddia y tywyllwch rhagddo.* — Yn y modd hyn i bydd y drygionus mewn braw a ſyndod ar y dydd hwnnw.

O'r tu arall, llawenydd a gorfoledd y ffyddloniaid a fydd annhraethadwy; o her-

wydd i mae eu hymwared tragywyddol wedi neſhau. Yna i dywaid yr enaid cyſſawn, Pa mor rheſymmol oedd fy ffydd, pa mor afreſymmol fy ofn! Pa mor ſychain a byrrion oedd blinderau y nos aeth heibio, wrth hyfrydwch a diddanwch y dydd tragywyddol hwn! Ai dyma yr amſer a ddarfu i mi ei ddiſgwyl mor oeraidd, ac i bum mor ddifraw yn ei gylch? Ai dyma yr iachawdwr a ddarfu i mi ei garu cyn lleied, a'r Arglwydd a ddarfu i mi ei ufuddhau mor ddiofal? Ai dyma yr hwn a ddarfu i'r byd a'i cnawd fy nenu i mor fynych i'w wadu? O pa mor anheilwng wyf o'r olwg ogoneddus hon! — Cymmaint, a mwy na hyn, fydd llawenydd buddugoliaethus y ffyddloniaid, pan ymddangoso 'r barnwr.

Gadewch i bawb o honom gan hynny, ei wneuthur yn brif orchwyl a gofal ini barattoi ein hunain erbyn i delo. Ir ym ni mewn cyflwr o brawf yma, erbyn byd arall; a dydd y farn yw 'r amſer mawr i dreio am dano. Megis i'n caffer ni y pryd hynny, i bydd ein cyflwr dros oes oeſoedd; ac yn ol fel i bu ein gweithredoedd, y farn ddatgenir arnom, naill ai i ddedwyddwch neu drueni annherfynol. Beth yntau ſydd

gennym

gennym ni iw wneuthur, ond edrych ar y gorchwyl mawr hwn, megis yr unig beth angenrheidiol; bod y farn ſydd i ddyfod yn waſtad o flaen ein llygaid, ag yn ein meddyliau; ini fyfyrio ar y cyfreithiau hynny, trwy ba rai i mae ini gael ein barnu. ini farnu ein hunain yn fynych, ag ymddwyn ein hunain yn ein gweithredoedd yn ol cyfarwyddyd a gorchymynnion y barnwr. Ac os ymbarattown ni yn y modd hyn, y dydd hwnnw, yr hwn a fydd mor ofnadwy i'r drygionus, a fydd ini yn ddydd o lawenydd tragywyddol; yr hwn ni bydd un noſwaith o driſtwch yn ei ganlyn. Canys ar ol rhoddi 'r farn, nyni a gawn fyned gyda 'n barnwr gogoneddus ac anfarwol, i breſwylfeydd nefol, lle na bydd dim ond canu mawl a gogoniant i Dduw ac i'r Oen, dros oeſoedd, mewn gwynfyd a dedwyddwch annhraethadwy. I'r hwn gyflwr daionus, Duw mawr a roddo i ni bawb ras i ymbarattoi yma, tra i bo gennym ddydd iechydwriaeth o'n blaen, er mwyn ein iachawdwr bendigedig, Ieſu Griſt, ein cyfryngwr a'n pryniawdr. *Amen.*

PREGETH III.

Salm cxix. 59, 60.

Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.—Bryſiais, ag nid oedais gadw dy orchymynnion.

YSTYRIAETH ddifrifol o'n ffyrdd a'n cyflwr yſprydol, ſydd fodd rhagorol, nid yn unig i'n cynnal ni yn y ffordd uniawn; ond hefyd, os digwydd ini fyned ar gyfeiliorn (yr hyn ſydd yſywaeth yn rhy fynych yn digwydd i'r gorau o blant dynion, ag i'r hyn ir ydym ni oll drwy lygredigaeth naturiol yn dra chwannog) i'n dwyn ni i'r iawn ffordd; canys os meddyliwn, ag os yſtyriwn ni yn ddarbodus, i ba le i mae'r ffordd ir ydym ni mor ddiyſtyr yn ei cherdded, yn arwain; pa un ai i fywyd, ai i farwolaeth; ag os wrth feddylio ag yſtyried, i deallwn fod ein llwybrau yn arwain i farwolaeth, yn y mann, yn ddiymdro, os bydd gennym ddimgofal am ein heneidiau, ni a giliwn yn bryſur

bryſur oddiwrth ein ffyrdd cyfeiliornus, ag a drown i'r ffordd uniawn, rhag ini drwy fyned rhagom, ſyrthio i bwll deſtryw tragywyddol.

Meddwl am ei ffyrdd, a ddygodd y Prophwyd i ddeall ag i weled ei fod ar gyfeiliorn, ag a'i cyffrôdd i droi ei draed at dyſtiolaethau Duw; *Meddyliais* (medd ef) *am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.* Megis ped fuaſai yn dywedyd; Pan oeddwn i yn myned yn ddiarſwyd rhag fy mlaen yn llwybrau fy nghalon fy hun, y rhai nis gwyddwn i ba le ir oeddynt yn arwain, a pha le i diweddynt, ai mewn eſmwythdra a bywyd, ai mewn marwolaeth a deſtryw tragywyddol: *Mi a feddyliais am fy ffyrdd,* ag a ddechreuais yſtyried a holi, i ba le ir oeddwn yn cyfeirio fy ngherddediad, a pha ddiwedd a ddigwydda i'r fuchedd ir oeddwn i yn byw ynddi; ag wrth feddwl yn llynn, myfi a ddeallais fy mod i ar ffordd nid oedd dda, ag yn rhodio mewn llwybrau cyfeiliornus, y rhai oeddynt yn arwain i farwolaeth. *Mi a bryſurais, a throais fy-nhraed at dy dyſtiolaethau di.*

I mae

I mae yn y geiriau yma,

Yn I. Ragfyfyrdod, neu 'r peth i mae 'r Prophwyd yn ei wneuthur yn gyntaf, ſef yw hynny, meddwl. *Meddyliais am fy ffyrdd.*

Yn II. I mae'r peth ſydd yn canlyn y fyfyrdod honno ym mlaen llaw, neu yr hyn a wnaeth ef ar ol iddo feddwl, a hynny yw troi, a dychwelyd at ei ddyledſwydd: *troais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.*

Yn III. Yr amſer allan o law, *Bryſiais, ag nid oedais gadw dy orchymynnion.*

Yn I. Ni a yſtyriwn yma, Ragfyfyrdod y gwr duwiol hwn.

I mae anyſtyriaeth a diofalwch yn wall mawr mewn pethau bydol ag ſydd yn perthyn i'r corph; pa faint mwy mewn pethau yſprydol ag ſydd yn perthyn i'r enaid! y rhai a ddylem ni feddwl am danynt ag yſtyrio yn eu cylch, o flaen ag uwchlaw dim arall; oblegid fod yr enaid yn fwy gwerthfawr na dim arall yn y byd, ie, na'r byd a'r holl bethau ſydd ynddo. Nid ydyw dyn anyſtyriol gymmwys i drin pethau bydol, o rann na chyfrifir mo hono ddim gwell na dyn gwallgofus, yr hwn ſydd yn rhuthro rhagddo yn ddifeddwl, yn ddiyſtyr, ag yn ddiarſwyd, iw ddeſtryw ei hun. Felly

i mae

i mae pob pechadur diofal, byrbwyll, anyſtyriol, ag ſydd yn dilyn llygredig amcanion a chwantau ei galon ei hun, heb feddwl nag yſtyried diwedd ei ymarweddiad, mai *chwerw fydd fel y wermod, a llym fel cleddyf dau-finiog.* Diar. v. 4.

Mi allaf ddywedyd am bechadur edifeiriol, ei fod ef wedi dychwelyd iw iawn bwyll, ag iw iawn ddeall; a hynny i mae'r gair *edifarhau* yn ei arwyddoccau yn yr iaith wreiddiol. Ond am y dyn diofal, anyſtyriol, nid eill ef feddwl na barnu dim llai nad ydyw ef mewn gwallcof; canys nid yw yn meddwl pa beth i mae yn ei wneuthur; a thra i parhao ef felly, ef a â rhagddo yn ei ddrygioni a'i ynfydrwydd, oddieithr i Dduw o'i fawr drugaredd, weled yn dda drwy ryw fodd ei gyffroi ef, fel i bo iddo ddychrynnu a deffroi o drymgwſc ei ddiofalwch a'i ſyfrdandod, a ddychwelyd iw bwyll, modd i gallo yn yſtyriol feddwl, pa beth i mae yn ei wneuthur, pa le i mae ef yn ſefyll, pa ffordd i mae yn ei cherdded, pa fuchedd i mae yn byw. Dyma'r moddion drwy ba rai i dichon ef ddeall ei gyflwr ag yſtâd ei enaid; ag oni bydd iddo yn fyfyriol yſtyried a meddwl

fal

fal hyn, nid gwiw diſgwyl ganddo droi oddiwrth, ag ymadael a'i ffyrdd cyfeiliornus, a dychwelyd i'r ffordd uniawn: Canys cyn i bechadur ddeall a gwybod ei fod ef ar gyfeiliorn, pa obaith a ddichon fod ir ymedy ef a'i bechodau, ac i trŷ ef ei draed at dyſtiolaethau Duw?

Cymmerwch wr claf, os bydd heb ddeall a ſynied ei fod yn glaf, ni pherſwedir fyth mo hono i gymmeryd na chyngor gan Phyſygwr, na dim phyſygwriaeth a drefno ef iddo: felly am y pechadur diſynniad, diyſtyr, yr hwn ſydd wr claf ar drancedigaeth dragywyddol, nes iddo ddeall a gwybod ei fod yn bechadur, pa obaith a ddichon fod ir ymedy ef a'i bechod?

Chwi a welwch gan hynny mor angenrhaid ydyw ini feddwl ag yſtyried ein ffyrdd, ac mai hyn a ddygodd y Prophwyd i droi ei draed at dyſtiolaethau Duw: *Meddyliais am fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di.*

Meddwl am ein ffyrdd yw 'r peth cyntaf. I mae'r gair yn yr iaith wreiddiol yn arwyddoccau, nid yn unig meddylio, ond hefyd yſtyried, ymreſymmu, ymddadleu ag ymddiddan o ddyn ag ef ei hun. Yn gyntaf,

i mae

i mae 'r Prophwyd yn meddwl am, ag yn galw ei ffyrdd i gof, wedi hyn i mae ef yn yſtyrio, yn ymddadleu, yn ymreſymmu, ag yn ymddiddan a'i galon ei hun, ynghylch ei ffyrdd, neu helynt ei fuchedd, a'i ymarweddiad, pa fath ydynt; a ydynt yn addas i'r broffes griſtianogol, y fath a weddai i ddiſcybl yr Arglwydd Ieſu rodio ynddynt? a ydynt hwy y cyfryw ac a'u harwaenant ef i'r etifeddiaeth dragywyddol yn nheyrnas nefoedd? — Rhaid i ni gan hynny, ymreſymmu ag ymddiddan a'r galon a'r gydwybod, a'u holi a'u chwilio yn ddyfal ynghylch ein meddyliau, ein geirieu, a'n gweithredoedd; canys ir ydym yn cyfeiliorni ag yn troſeddu pob un o'r rhain bob dydd, bob awr, bob ennyd: ag o rann hynny i mae 'r ddyledſwydd hon yn angenrheidiol iw chyflawnu; canys drwy feddylio ag yſtyried ein ffyrdd, i gallwn ni gael gwybodaeth ag yſpyſrwydd o'n cyflwr yſprydol, a ydym ni yn y ffydd. Ag fel i gallom ni yn hollol ddeall ein cyflwr, rhaid ini edrych yn ol, a dwyn ar gof ini ein hunain, a meddwl am, ein holl ffyrdd hyd yn hyn o'n bywyd, a'u hyſtyried hwynt yn ddyfal. Ni wafanaetha gwneuthur y gorchwyl

chwyl hwn yn ddiofal, ag yſmala, ag yn eſceulus; rhaid ini feddwl a chraff-ſynnied; rhaid ini ddyfal chwilio ein hunain, rhag fod un pechod, ie na 'r bai lleiaf, yn ymguddio yn ddirgel yn ein calonnau, heb eu dwyn i'r goleuni a'u argyhoeddi: rhaid holi y galon dwyllodrus, a phob congl o honi.

Eiſiau yſtyried yn ddyfal, yn graff, ag yn ddoeth, a meddwl yn llynn am ein ffyrdd, a'n buchedd, a'n hymarweddiad, yw un o'r achoſion mwyaf fod cymmaint drygioni yn y byd, fod cynnifer o bechaduriaid anyſtyriol yn myned rhag eu blaen yn ddiarſwyd ar hyd y ffordd lydan ſydd yn arwain i ddeſtryw tragywyddol; a hynny yn ddiarwybod iddynt eu hunain, o eiſiau meddwl am eu ffyrdd: *Canys ni wyddant eu bod yn gwneuthur drwg.* Preg. v. 1.

Ped fai y pechadur gwargalettaf yn deall, ag yn gweled yn eglur o flaen ei lygaid, y deſtryw i mae efe mor ehud yn rhedeg iddo; ped fai yn gweled uffern yn lledu ei ſafn iw dderbyn ef, os efe a barhâ i fyned rhagddo yn ei ffyrdd drygionus, heb gymmaint a meddwl i ba le i mae y ffordd i mae ef yn ei dilyn yn arwain, diammau fo dorrai ar ei yrfa. Ond pa fodd i dichon

ef

ef ddeall, a gweled ei fawr berygl, tra bo heb edrych o'i flaen, na than ei draed, ond fel plentyn diriaid, ynfyd, yn rhedeg a'i ffriw yn yr awyr, yn ddiofal pa lwybrau i mae efe yn eu troedio, heb edrych pa le i mae yn myned, nes iddo fyrthio i ryw ddryglam aneſcorol. Felly i mae pob pechadur difraw, anyſtyriol, yn erlid ag yn canlyn, un ar ol meddiannau a chyfoeth, un arall ar ol anrhydedd a goruchafiaeth, y trydydd yn dilyn pleſerau ag aflan, halogedig drachwantau 'r cnawd; pawb gan mwyaf yn dilyn rhyw oferedd mor chwannog ag awyddus nad yw efe un amſer yn cymmeryd odfa i feddwl am ei ffyrdd, ei fuchedd, a'i ymarweddiad yn y byd, na 'i gyflwr yſprydol, na pha beth a ddaw o hono dros dragywyddoldeb. I mae Satan yntau, a chwantau cnawdol, yn lluddias y pechadur rhag meddwl am ei ffyrdd, canys ef a wyr y gelyn dichellgar, os rhydd efe iddo amſer i feddwl ag yſtyried, i bydd ef tebyg o ddianc allan o'i rwydau ef; ag am hynny, i mae efe yn ei ddal yn waſdadol ar waith, ag yn arwain y dyn drygionus o'r naill ddrwg, ag o'r naill bechod i'r llall, nad yw efe yn cael ennyd, gan ganlyn

drygioni, i feddwl pa beth i mae yn ei wneuthur.

Gan fod y gelyn mor gyfrwys, ni a ddylem ni fod yn ofalus na fyrthiom ni i'r fath ddifrawch, ag anghofio o honom feddwl am ein ffyrdd, a mynych holi ein bucheddau; ond o'r gwrthwyneb, byddwn ddiwyd yn y ddyledſwydd bwysfawr hon o fynych holi ein hunain beunydd. Peth yw hyn ag ir oedd rhai ymmyſc y Paganiaid digred yn ei arferu? Nid oedd *Pythagoras* y Philoſophydd, un nos yn rhoi ei hun iw amrantau, nes iddo deirgwaith gofio a meddwl beth a wnaethai ef y dwthwn a aethai heibio, a holi o hono ei hun am ei feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd.

Onid ydyw hyn yn gywilydd ini, y rhai ydym yn proffeſu ein bod yn griſtianogion, fod Paganiaid digred yn byw yn fwy defoſionol yn eu gau grefydd, na nyni, ar ba rai i tywynnodd bendigedig oleuni yr efengyl arnom. Yn lle gwneuthur hyn bob dydd, mae yn rhy aml rai nad ydynt yn gwneuthur felly unwaith yn y flwyddyn, ag ond odid, unwaith yn eu hoes.

Megis

Megis i mae yn rhaid ini feddwl am ein ffyrdd, a'r modd a ddarfu ini fucheddu hyd yn hyn o'n hoes; pa bechodau ydym ni euog o honynt heb edifarhau am danynt, nag ymadael a hwynt, felly rhaid ini fod yn ofalus rhagllaw tra fyddom ni yma ar y ddaear, *i gadw ein ffyrdd rhag pechu.* Salm xxxix. 1.

Rhaid ini yſtyried ym mlaenllaw y peth ydym ni ar fedr ei wneuthur, fel na bo ini yn ammyfus, ag o eiſiau yſtyried a meddwl, ſyrthio i ddrygioni, yr hyn beth nid eill amgen na digwydd i'r anyſtyriol ag angall. Ond y gwr pwyllog ag yſtyriol, cyn cymmeryd dim yn llaw, a ddyfal yſtyria ag a ymreſymma ag ef ei hun yn y modd yma. Pa beth a wnâf i? A wnâf y peth yma a wyf yn ei fwriadu ei wneuthur? A fydd ef er gogoniant Duw a'i anrhydedd? y nod at ba un i dylem ni gyfeirio yn ein holl weithredoedd. A ydyw'r peth yn gyfreithlon imi iw wneuthur? A ydyw ef wrth fodd cydwybod dda? A fydd efe fuddiol i'm henaid? yn eſampl dda i'm cymmydogion? ag heb roddi achos o dramcwydd i neb? Os felly, aed rhagddo, a'r Arglwydd a'i llwydda ag a drefna waith ei ddwylo.

Ond os amgen efe a attal ei ddwylo, efe a drŷ ei gefn, ag nid â ddim pellach. I mae diofalwch ag eſceuluſdra yn cyflawnu y ddyledſwydd yma, yn taflu y gwr angall, anyſtyriol, yn wyſc ei benn i anneirif a thrymmion bechodau, ag megis yn ei ſuo ef i barhau ag i fyw ynddynt. Ir oedd y Prophwyd ei hun yn euog o hyn. Canys o eiſiau meddwl ag yſtyried ymmlaen llaw, i digwyddodd iddo, nid yn unig ſyrthio i'r ddau bechod mawr hynny, ſef, godineb a llofruddiaeth, ond hefyd o fyw o hono ynddynt, nes i'r Prophwyd *Nathan* drwy ddammeg ei argyhoeddi ef, a'i ddeffroi i feddwl am ei ffyrdd, yr hyn beth pan wnaeth ef, efe a droes ei draed at dyſtiolaethau Duw. I mae gan lawer o ddynion amryw droeau, heb un tro da nag uniawn. Fo feidr y pechadur mwyaf diffaith droi oddiwrth ddaioni at ddrygioni yn hwylus ag yn ewyllyſcar, ag oddiwrth y naill ddrwg at y llall, drwy ymadael a'r naill ffordd gyfeiliornus a chymmeryd y llall, ag heb droi at Dduw a'i dyſtiolaethau. Y ſawl a ddilynant chwant y cnawd, os ymadawant a hynny, i maent hwy yn *troi*, ond os byddant mor *fydol* yrawron ag ir oeddynt

gnawdol

gnawdol o'r blaen, nid ydynt yn troi at dyſtiolaethau Duw. Yr hwn a dry o fod yn goel gnefyddol i fod yn amlwg ddrygionus, i mae ef yn *troi*, ond nid at Dduw, yr hwn ſydd yn caſhau eulunnod: os try ef yn gyffegr yſpeiliwr, i mae efe yn *troi*, ond nid at Dduw. Ond i mae y Prophwyd yn troi, nid o'r naill ddrwg at y llall, ond oddiwrth ffyrdd drwg, cyfeiliornus, u'r ffordd uniawn, ſef, at dyſtiolaethau Duw.

Mi a ddangoſaf weithian, pa beth ſydd ini ddeall wrth *droi ein traed at dyſtiolaethau Duw.*

Wrth *draed* i mae 'r Prophwyd yn y fann yma, drwy gyffelybiaeth, yn deall yr ewyllys, y tueddiad, a'r ſerch a fydd gan ddynion, y rhai ydynt ddechreuad a chychwynniad eu holl weithredoedd. Canys, megis mae y traed yw 'r offerynnau o'n ſymmudiad ni a'n cerddediad, felly i mae ein ewyllys, ein ſerch a'n tueddiad, yn arwain ein meddyliau yr un wedd ag i mae y traed yn arwain ag yn dwyn y corph wrth ſymmud; felly *troi ein traed at dyſtiolaethau Duw*, ydyw troi ein ewyllys, ein tueddiad, a'n ſerch at dyſtiolaethau Duw; hynny yw, bod gennym awydd attynt, ag ewyllys yn-

ddynt, a bod ein tueddiad yn hollol tuac attynt, a'n ſerch ni yn gwbl arnynt. *Troi ein traed at dyſtiolaethau Duw*, ydyw ymwrthod a phob drygioni a phechod, ag ymroi i ddilyn buchedd newydd. Ag yn hyn i mae i ni ddau beth iw hyſtyried; yn *gyntaf*, y peth ir ydym ni yn ymwrthod ag ef, ag yn troi oddiwrtho. Yn *ail*, y peth ir ydym ni yn troi atto.

Y peth ir ydym ni yn ymwrthod ag ef, yw pechod; y peth ir ydym ni yn troi atto, yw tyſtiolaethau Duw. Ag yn *gyntaf*, y peth ir ydym ni yn ymwrthod ag ef, ſef pechod, yr hyn nid yw beth iw ddilyn, ond ini droi oddiwrtho, a hynny yn ebrwydd, yn ol eſampl y Prophwyd, *Bryſſiais, ag nid oedais gadw dy orchymmynnion.* A hyn yn gyntaf, o ran fod pechod yn yſcar rhyngom ni a Duw. *Eich anwireddau chwi a yſcarodd rhyngoch chwi a'ch Duw.* Eſ. lix. 2. I mae Duw yn dywedyd wrth yr *Iſraeliaid* drwy 'r Prophwyd *Jeremi*, *Trowch chwi blant gwrthnyſſig, medd yr Arglwydd: canys myfi a'ch priodais chwi.* Jer. iii. 14. Felly i mae efe yn priodi pob cenedl a wnaeth ef gyfammod a hwynt; ag i mae y briodas yma yn dâl tra ir arhoſant yn ei gyfammod; ag

i mae

i mae efe yn agos attynt, os rhodiant yn ei orchymmynion ef, ag *os galwant ar ei enw ef mewn gwirionedd.* Salm cxlv. 18. Agos yw Duw at y ſawl a alwant arno: i mae ef yn agos attynt yn ei drugareddau iw hamddiffyn rhag, ag iw gwared allan o bob drwg a ddichon ddigwydd iddynt: ond os y wraig a butteinia oddiwrth ei gwr, i mae yn gyfreithlon i'r gwr ymyſcar a hi: Felly i mae Duw yn ymddwyn tuac at y genedl a odinebant oddiwrtho, drwy dorri ei gyfammod ef; i mae ef yn yſcar a hwynt, yn ymbellau oddiwrthynt; a chan na chymmerant hwy mo hono ef yn Dduw iddynt hwy, ni chymmer yntau mo honynt hwy yn bobl iddo ef. Efe a ymddieithra ag ymbellha oddiwrthynt. *Pell yw yr Arglwydd oddiwrth yr annuwiol.* Diar. xv. 29. Ag os ymbellha efe oddiwrthym ni, o ba le, neu oddiwrth bwy, i diſgwyliwn ni nawdd, gymmorth, a thrugaredd? I ba le i ffown ni mewn amſer adfyd?

Yn *ail.* Nid ydyw ein pechodau yn unig yn yſcar rhyngom ni a Duw, ond i maent hwy hefyd *yn cuddio ei wyneb oddiwrthym, fel na chlywo mo honom.* Eſ. lix. 2. Er ei fod ef yn dywedyd fel hyn; *galw*

arnaf

arnaf yn nydd trallod, mi a'th waredaf a thi a'm gogoneddi. Salm l. 15. Etto, *as edryehi ar anwiredd yn dy galon, ni wrendy yr Arglwydd arnat.* Salm lxvi. 18. Yn gymmaint a phed fuaſai yn dywedyd, Os bwriedi, ag os ameeni wneuthur anwiredd, ni chlyw yr Arglwydd mo honot, efe a fydd mor belled oddiwrth dy wared di, *ag i chwardd yn dy ddialedd di.* Diar. i. 26.

I mae pechod yn annog Duw i lwyr ddiniſtrio pechaduriaid. *Yr Arglwydd ſydd yn cadw pawb a'i carant ef, ond yr holl rai annuwiol a ddifetha efe.* Salm cxlv. 20. *Yn forau i torraf holl annuwiolion y tir; i ddiwreiddio holl weithredwyr anwiredd o ddinas yr Arglwydd.* Salm ci. 8. Darllenwch yr wythfed bennod ar ugain o'r *Deuteronomium*, o'r unfed adnod ar bymtheg hyd ddiwedd y bennod, a chwi a. ellwch ddeall, y deſtryw ag a oedd Duw yn bygwth ei ddwyn ar yr Iſraeliaid, os hwy ni chadwent ei gyfammod, ag ni rodient yn ei orchymmynnion. Ag yn ddiau, efe a ddaeth digofaint Duw arnynt hwy hyd yr eithaf, am ei hanufudd-dod a'u anghrediniaeth. Ir ym ni griſtianogion, y rhai ydym yn mwynhau

hau bendigedig oleuni yr efengyl, mewn cymmaint perygl a hwythau o gael ein diniſtrio, oni ddygwn ffrwythau addas o efengyl Griſt. Felly i mae St. *Paul* yn dywedyd; *trwy anghrediniaeth i torrwyd hwynt*, ſef yr Iuddewon, *ymmaith, a thithau ſydd yn ſefyll trwy ffydd. Na ſydd uchelfryd, eithr ofna. Canys onid arbedodd Duw y cangau naturiol, gwilia rhag nad arbedo dithau chwaith. Gwêl gan hynny, ddaioni a theſter Duw: ſef i'r rhai a gwympagant, toſter: eithr daioni iti, os arhoſi yn ei ddaioni ef; os amgen torri dithau heſyd ymmaith.* Rhuf. xi. 20, 21, 22.

Gan hynny, os chwennychwch chwi gael Duw yn agos attoch, i fod yn amddiffynfa i chwi yn nydd trallod, pan fo ei farnedigaethau ef ar y ddaear, i ddyſcu i ddynion gyfiawnder; *efe yw 'r unig noddfa a nerth ini, cymmorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.* Os chwennychwch chwi gael gantho wrando eich gweddiau yn eich trallod a'ch blinfyd, os ydych yn chwennych bod yn ddiangol oddiwrth y deſtryw, yr hwn yn ddiammau a ddwg Duw ar genedl ddrygionus, bechadurus, gyndyn, warrgaled, anedifeiriol, meddyliwn am ein ffyrdd, cofiwn ein cam-

weddau

weddau a aethant heibio, fneiddiwn ein hunain mewn llwch a lludw, ag edifarhawn o ddyfnder ein calonnau, a thrown a'n holl ewyllys a'n holl serch, a'n holl galon, ag a'n holl enaid, at dyftiolaethau Duw; gwir drift-awn am ein pechodau a aethant heibio, ag ymrown yn hollol o hyn allan, i ddilyn buchedd newydd. Nid oes modd arall yn y byd, trwy ba un i gallwn gael ymwared oddiwrth y mawr a'r aml beryglon fydd o'n hamgylch yn barod i fyrthio am ein pennau, i'n llwyr ddifetha ag i'n diwreiddio o dir y rhai byw. Nid oes modd arall i ddoti angerdd ei lidiowgrwydd ef, a ennynnodd ein pechodau ni yn gyfiawn i'n herbyn, ond difrifol edifeirwch, yn tarddu allan o yfpryd drylliedig, a chalon ddrylliog, gyftuddiedig. Os deuwn ni yn llymn atto ef, ni ddirmygu mo honom; efe a dry attom ni, efe a'n derbyn ni, ag a dry oddiwrthym yr holl ddrygau a ddarfu ini o wir gyfiawnder eu haeddu.

Duw o'i fawr drugaredd a roddo ini ag iw holl bobl, ras, fel ag i gallom ag un galon edifarhau, ag felly droi atto ef, fel i byddo yntau ein harbed a'n derbyn yn gymmeradwy yn Nghrift Iefu ein Harglwydd. *Amen.*

PREG-

PREGETH IV.

PREG. v. 4. rhan gyntaf.

Pan addunedech addunet i Dduw, nag oeda ei thalu.

MYEI a ddewisais y geiriau hyn, ac ir ydwyf yn bwriadu eu hystyried, mewn perthynas i'r addunedau a'r addewidion arbennig a wnaethom ni bawb yn ein bedydd, ac a ddarfu i rai o honom ni gwedi hynny eu hadnewyddu, trwy fod yn gyfrannogion o'r cymmun bendigedig. —Addewidion arbennig a phwysfawr ydynt hwy, yn eu dull a'u defnydd: a dedwydd a fyddem ni yma, a thros byth, ped faem ni mor ofalus ag i dylem ni fod, ynghylch pethau mor ſanctaidd, ym mha rai, i mae gogoniant Duw ac iechydwriaeth ein heneidiau ein hunain yn ſefyll.

Ped fai 'r addunedau hyn yn cael eu cadw mor ddyledus ac mor ddifrifol, ac ir ydys yn eu haeddau, ped faem ni mor ddaionus, duwiol, a chrefyddol, ac i darfu

ini

ini addaw bod; ped faem ni mor gywir ac uniawn i Dduw, ac ini ein hunain, a chadw yn fanwl ammodau y cyfammod, a chyflawnu yn ffyddlon y dyledſwyddau a ofynnir ar ein rhann ni, yna ni a allem yn gyfiawn arddelw hawl i'r addewidion a wnaethpwyd o rann Duw, ac i'r rhagorfreintiau mawrion hynny, ac ſydd yn perthyn i'r ſawl ag ſydd yn cadw addunedau eu bedydd; ſef yw hynny, bod yn blant i Dduw, aelodau o Griſt, ac, mewn iawn amſer, yn etifeddion teyrnas nef. Ond, yſywaeth, ef a ddarfu ini ddryllio y rhwymau ſanctaidd hyn; ef a ddarfu ini, trwy eſgeuluſdra a gwrthnyſſig, droſſedd gwirfodd yn fynych dorri addunedau ein bedydd, ac ni a fuom yn fynych euog o dorri ein cyfammodau a Duw: nid rhaid ini edrych ddim pellach na 'n cydwybodau ein hunain, i wirio ac i dyſtio hyn ini; o herwydd nad oes neb o honom na phechaſom, ac i mae pob pechod, mwy neu lai, yn dorriad addunedau ein bedydd, y rhai a wnaethom ni yn ei erbyn.

Ond i mae ein calonnau yn dueddol iawn i fod yn dwyllodrus i Dduw. Ir ym ni yn addaw yn rhwydd, ond pan ddelom ni i gy-

i gyflawnu, ir ym ni yn grwgnach ag yn gwrthgilio: weithian ir ym yn gwneuthur addunedau a bwriadau o ufudd-dod, megis ac i gwnaeth *Pharaoh* ag *Iſrael*, ond ir ym ni yn ebrwydd yn anghofio. Pan fom ni dan argyhoeddiad dwys a cherydd llym am bechod, neu dan fygythion arſwydus o drom ddigofaint Duw, pan fom ni yn ocheneidio dan ryw flin gyfluddiau, ir ym ni yn barod iawn i addunedu ufudd-dod gwell: ond pan unwaith i rynner ymmaith y wialen, a phan fo 'r bygythion ofnadwy wedi myned heibio; pan fo dwysbigiad pechod wedi llarieiddio; yna i mae ein bwriadau yn newid; ir ym ni yn lleſc ac yn farwaidd ynghyflawniad ein haddunedau a'n haddewidion; pan unwaith i ſymmuder ymmaith yr aflwydd, i mae ein calonnau, fel *Pharaoh*, yn caledu, ac ir ym ni yn dychwelyd i'n hen bechodau, er gwaethaf yr holl rwymedigaethau a oſodwyd arnom i'r gwrthwyneb gan Dduw, neu gennym ein hunain.

Y ſawl ag ſydd yn y modd hyn yn gwatwar Duw, ag ſydd yn rhoddi iddo eiriau têg, heb bryderus ofal i gyflawni yr hyn a addunedaſant, ſydd, fel i mae 'r Arglwydd yn achwyn trwy 'r Prophwyd,

yn neſhau atto a'u geneuau, ond eu calonnau ſydd bâll oddiwrthe: a'r cyfryw ac i mae 'r Pregethwr yn y geiriau ar ol y teſtun yn eu galw *anfydion, nad oes gan yr Arglwydd ſtâs ynddynt:* y cyfryw ac ſydd bryſur yn gwneuthur addunedau, ond fyth heb feddwl am y rhwymediguethau ſydd arnynt i gyflawnu.—Nid yw addunedau a bwriadau y fath ddynion, ond ebyrth ffyliaid, ag ſydd anghymmeradwy yngolwg Duw, yr hwn ſydd iw wafanaethu a'i ogoneddu mewn gweithred a gwirionedd; ac am hynny, i attal twyll ein calonnau ſiomgar, i mae 'r Pregethwr yn y teſtun yn ein rhybuddio, *Pan addunedom addunedi i'r Arglwydd, nad oedom mo 'i thalu.*

Fy mwriad i yrawron, ydyw yſtyried y geiriau, yn unig mewn perthynas i addunedau ein bedydd; y rhai a ddarfu i rai o honom ni yn fynych eu hadnewyddu, yn ſacrament *ſwpper yr Arglwydd.* Wrth draethu ar ba eiriau, mi a ddangoſaf,

I. Natur yr addunedi a wnaethpwyd y pryd hynny, ac a ddarfu i ni wedi hynny ei hadnewyddu; hynny yw, pa beth a ddarfu ini addunedu i'r Arglwydd.

II. Mi

II. Mi a gymmellaf, oddiwrth rai yſtyriaethau, gyſtawniad, a thaliad cyfrwydd o'r addunedd hon; *nag oeda ei thalu.*

Yn 1. Ir wyf i ddangos natur ac yſtyr yr addunedau hynny a wnaethom ni bawb yn ein bedydd, ac a ddarfu i rai o honom ni eu hadnewyddu yn y cymmun bendigaid: ac felly i mae pawb o honom ni yn gynnwyſedig mewn un o'r ddau berthynas, megis ac ir ym ni yn gyfrannogion o un o'r ddau ſacrament. I mae yr addunedau yma a wnaethom ni, ag a ddarfu ini wedi ei hadnewyddu, yn cynnwys ynddi holl rwymediguethau y llw o addewid, a wnaethpwyd yn ddigyfrwng gannym ni i Dduw ei hunan. Ef a ellir profi hyn oddiwrth y cyfammod a wnaeth Duw ac *Abraham*, ac ynddo ef a'r holl ffyddloniaid; *y llw a dyngodd of a'n tad Abraham*: ſef yw hynny, y cyfammod gras. Yn mha gyfammod i mae Duw o'r naill du, ac *Abraham* a'r holl ffyddloniaid o'r tu arall, yn ymrwymo iw gilydd; lle mae Duw yn ei rwymo ei hunan ac addewidion o drugaredd, gan gadarnhau yr addewidion hyn a llw; ac o'r tu arall i mae y ffyddloniaid, pob gwir gredadun, yn ei rwymo ei hunan mewn modd arbennig,

trwy addunedau ac addewidion o waſanaeth i Dduw. A dyma natur y cyfammod a'r cyttundeb a wnaed rhwng Duw a'r credadun; i mae Duw yn rhoddi ei hunan yn wobr ini, ac ir ym ni yn rhoddi ein hunain yn weiſion iddo ef; i mae ef yn addo bod yn Dduw ini, a ninnau ar fod o honom yn bobl iddo yntau. Dyma natur y cyttundeb a'r cyfammod a wnaeth Duw a ni, a ninnau ag yntau, yr hwn a elwir *llw.*

Yrawron nid ym ni ddim yma i yſtyried y rhan honno o'r cyfammod ag ſydd gynnwyſedig yn addewid Duw, yr hon yn gyffredinol, yw rhoddi ei fab Ieſu Griſt, a chydac ef bob peth daionus arall; ſef, bendithion a rhadau yſprydol, adenedigaeth a ſanctеiddiaid, bendithion tymhorol o bethau daionus y byd hwn, a bendithion tragywyddol yngogoniant y neſaf;—ond ir ym ni o'r tu arall, i yſtyried y rhan honno, o'r cyfammod, yr hon ſydd yn perthyn i'n rhwymedigaeth ni i Dduw; yn yr hon i darfu i ni addaw bod yn bobl iddo ef, a gwneuthur iddo waſanaeth, yr hwn yw gwrthrych a ſylwedd yr addunedau hynny a wnaethom ni yn ein bedydd. Nyni a addawſom adduned o waſanaeth ffyddlon i

Dduw,

Dduw, ac ni a addawſom hefyd ymwrthod a'r diafol, y byd, a'r cnawd.

Ni allaf I eglurhau y pethau yma ddim yn well, nag yngeiriau catechiſm, yr eglwys: 'Ef a ddarfu ini addo ac adduno tri pheth. '*Yn gyntaf*, ar ini ymwrthod a diafol a'i 'holl weithredoedd;' hynny yw, ef a ddarfu ini ddiofryd pob maſnach ag ef, mewn perthynas i ddrygioni, ag ymollwng iw brofedigaethau. 'Ef a ddarfu ini hefyd, 'heblaw hyn, addaw ac adduno ymwrthod 'a rhodres a gorwagedd y byd anwir hwn;' hynny yw, na roddem ni ein ſerchiadau ar un peth yn y byd hwn, er mor ddidog, hyfryd, a dymunol, ir ymddangoſai i'n natur lygredig ni. *Yn ddiweddaf*, 'Ef a ddarfu 'ini addaw ymwrthod a holl bechaduras 'chwantau 'r cnawd;' trwy ba rai ir ym ni i ddeall, nid yn unig y deiſyfiadau aflan ag ir ym ni yn eu galw yn gyffredinol yn drachwantau y cnawd; ond hefyd, amryw bethau eraill ag i mae yr yſgrythur yn eu galw *gweithredoedd y cnawd*. I mae St. *Paul* yn ei Epiſtol at y *Corinthiaid*, yn rhoddi cofreſtr o honynt yn y modd hyn: *Amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai yw torr-priodas, godineb, aſendid, anlladrwydd, delw-*

addoliaeth, ſwyngyfaredd, caſineb, cynhennau, gwynfydu, llîd, ymryſonau, ymbleidio, hereſiau, cynſigennau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn. Dyma bechadurus chwantau 'r cnawd; a'r rhai hyn oll a ddarfu ini mewn modd arbennig, addaw ac addunedu ymwrthod a hwynt.

Mewn perthynas i'r adduned o waſanaeth a addawſom ni i Dduw, i mae dau beth yn gynnwyſedig; ſef, ffydd ac ufudd-dod. Am y pethau a addawſom ni eu credu, i maent yn gynnwyſedig ynghredo yr Apoſtolion; ſef, prif-bynciau y ffydd griſtianogol. Y pethau a addawſom ni eu cadw mewn ffordd o ufudd-dod, yw, gwynfydedig ewyllys Duw a'i orchymynnion, a rhodio ynddynt holl ddyddiau ein bywyd.

Yn y modd hyn i darfu i mi, mor fyrr ac mor eglur ac i medrais, oſod i lawr natur ein haddunedau bedydd; a than yr addunedau a'r rhwymedigaethau hyn i'r ym ni bawb ac a dderbynniwyd i eglwys Criſt trwy fedydd, a'r pethau hynny a ddarfu ini eu hadduno a'u haddaw, ſydd raid ini eu cadw, os ym ni yn meddwl bod yn gadwedig. Os ym ni yn llyſu ac yn gwrthod y rhwymedigaethau hyn, i mae ein cyfiwr yn druenus ac yn

reſynus

reſynus dros ben. Ir ym ni yn cydſynnio a'n damnedigaeth ein hunain, ac ir ym ni yn cau ein hunain allan o'r cyfammod grâs; canys, os ym ni yn naccau cyflawnu y dyledſwyddau a addawſom ni o'n rhan ni, ni ddichon fod gennym ddim hawl i'r addewidion a wnaethpwyd gan Dduw ini: ir ym ni yn colli yr holl rhagorfreintiau hynny, ac ſydd yn perthyn i'r ſawl a gyflawnant ag a gadwant eu haddunedau a'u haddewidion i Dduw; nid ym ni na phlant i Dduw, nag aelodau o Griſt; ac nid oes gennym ddim gobaith o fod byth yn etifeddion teyrnas nêf.

Gan ein bod ni bawb o honom dan y rhwymedigaethau mawrion, pwysfawr hyn; a chan ini yn fynych adnewyddu ein haddunedau a'n haddewidion a wnaethom i'r Arglwydd yn ein bedydd, ac yn ſwpper yr Arglwydd; ac i gwyddom i geilw ef ni i gyfrif manwl am danynt; gan wybod, meddaf, a chredu yn ddilys y pethau hyn, mi a ddof weithian,

Yn II. I'ch cymmell ac i'ch annog yn ddifrifol, i gyflawnu a thalu yr addunedau hyn yn ebrwydd. *Pan addunedech addun*ed *i Dduw, nag oeda ei thalu.* A hyn a wnâf oddiwrth

oddiwrth yſtyriaeth o'r hwn i darfu ini wneuthur ein haddunedau iddo, ſef Duw, i'r hwn i darfu ini addaw gwaſanaeth ac ufudd-dod. I mae ef yn Dduw cyfiawn a gwirioneddol, a ffyddlon yn ei holl addewidion ini; ac i mae ef yn ewyllyſio ac yn gofyn ar i ninnau fod felly yn ein holl gyfammodau a'n haddewidion ag ef. *I mae ei addewidion ef yn Ie ac Amen; ni newid ef un peth ag aeth allan o'i enau.* Ef a wnaeth gyfammod tragywyddol a ni, ac am hynny, ni allwn ni dorri ein hammod a'r cyfryw un, heb wneuthur y camwedd mwyaf iw briodoliaethau o gyfiawnder a gwirionedd. Ped faem ni yn torri ein haddewidion a dyn, yr hwn a ddarfu iddo ein ſionmi ni, ef a fyddai hynny yn fai arnom; ond torri ein haddunedau a Duw, yr hwn nid yw byth yn cu torri hwynt a ni; ini ei dwyllo a'i watwar ef, yr hwn nid yw byth yn ein gadael ni; i mae hyn yn chwanegu euogrwydd pob pechod, yr hwn yw torriad ein haddunedau, ac yn dangos anniolchgarwch erchyll ac yſceler. — Nyni a wyddom fod cyfiawnder yn gofyn i bob dyn gadw ei addewid, ac o'r holl addewidion i mae addunedyn beth mwyaf arbennig ac a

ddichon

ddichon fod, o herwydd mai addewid a wnaethpwyd i *Dduw* ydyw; ac am hynny ir ym ni, nid yn unig yn anghyfiawn, ond yn dorrwyr cyfammod pan dorrom ni un rhan o honi. Ond,

Yn 2. Megis i mae daioni, cyfiawnder, a gwirionedd Duw, yn ein rhwymo i fod yn gywir ac yn uniawn ynghyflawniad ein haddunedau a'n haddewidion iddo, felly i mae yr yſtyriaeth o'i allu i'n coſpi, os *torrwn* ni ein haddunedau, a'n gwobrwyo os *cadwn* ni hwynt, yn ddigonol i'n cymmell i gymmeryd gofal am eu cyflawnu. Pan i'n dychrynner a bygythion coſpedigaeth; a phan, o'r tu arall, i'n gwahodder ac addewidion o wobrwyad, i mae hyn yn ein hannog i fod yn gyfiawn ag yn gywyr yn y cyflawniad o honynt. Pan ganfyddom ni drueni uffern o'r naill du, a gogoniant y nêf o'r tu arall; pan yſtyriom ni, mai os torrwn ein haddunedau a Duw, fod yn ei allu ef i goſbi ac i'n bwrw i golledigaeth; i mae y rheſymmau hynny yn ddigon i gymmell dynion o bwyll a ſynwyr, i ofalu am dalu eu haddunedau i'r Arglwydd. Pa mwyaf fyddo y neb i bom ni a dim maſnach gennym ag ef yn y byd hwn, mwyaf pryderus

pryderus a fyddwn yn ein hymddygiad tuac atto: ac am hynny, pan yſtyriom ni fawredd gogoneddus ac arderchowgrwydd y Duw mawr, a'r hwn i darfu ini gyfammodi, ac fod ganddo ef uniawn hawl i'n gwaſanaeth a'n hufudd-dod ni; ie, ped fuaſem ni heb ymrwymo ein hunain ag addewidion ac addunedau arbennig iddo; os yſtyriwn ni hyn, nid allwn ni ddim llai, od oes dim crefydd na duwioldeb ynnom, na rhoddi y parch a'r anrhydedd hwnnw i Dduw, ac a roddem ni i ddyn; ſef, bod yn gyſiawn a ffyddlawn yn ein haddunedau a'n haddewidion iddo. Canys nid allwn ni dorri ein haddewid a Duw, heb ei ſorri a'i gythruddo yn ei berſon a'i briodoliaethau. Ac am hynny, nid oes dim lle lai na cheryddu y rheini, ac ſydd fwy ffyddlon yn cyflawnu eu haddunedau annuwiol ac anghyfreithlon i *ddynion*, nac i maent yn ei haddunedau ſantaidd ag arbennig a wnaethant i *Dduw*; y ſawl ſydd yn priſio mwy eu parch a'u cymmeriad ynghymdeithas y drygionus, na gogoniant Duw ag iechydwriaeth dragywyddol eu heneidiau anfarwol; y cyfryw ac a wnânt gydwybod o'u hammodau i wneuthur drygioni, a'u rhwymedigaeth

i wneu-

i wneuthur pechod, a throſeddu gorchymynnion Duw.

Y drygionus a gyttunant ac a wnânt ammodau i wneuthur anwiredd, Un a wna ammod o halogi dydd yr Arglwydd, ac iw dreulio mewn cyfeddach a meddwdod; arall a lunia ymgyfarfod i gyflawnu ei drachwant a'i afiendid anifeiliaidd; arall a addunedа ac a dwng mewn llid a malais ar ddial ar ei elyn: ac megis i maent hwy yn ddiriaid anraſlon yn gwneuthur y cyfryw ammodau uffernol, felly i maent hwy yn rhy ffyddlon a chydwybodol o'u cadw, er eu bod yn anghyfiawn, yn bechadurus, ag yn ddiniſtriol ynddynt eu hunain, ac yn y ffrwythau a'r effeithiau arſwydus fydd yn eu dilyn.

Ond pan fom ni yn cyffwrdd ag un rhan o'n haddunedau a'n cyfammod a Duw; pan fom ni yn dyfod i ymwrthod a rhyw bechod neu drachwant, neu i gredu un pwnc o'n ffydd, neu i gadw un o'r gorchymynnion; yna ir ym ni megis yn cael ein rhwyſtro gan ryw anhawſdra anorchfygol yngwaſanaeth Duw, yr hon i mae ein haddunedau yn ein rhwymo ni iw chyflawnu. Yna ir ym ni yn marweiddio, yn lleſeau, ac yn methu yn

ein

ein dyledſwyddau; yna ir ym ni yn barod i ymwrthod a'n haddewidion ac i wrthgilio oddiwrth ein bwriadau o wellhâd buchedd, ac o barhâd yn cyflawnu ein dyledſwyddau.

Eraill a wnant addewidion teg o ufuddod, pan ſont mewn blinder meddŵl o herwydd euogrwydd eu pechodau, neu o ddamwain mewn arteithiau a phoenau corphorol, megis plentyn dan y wialen; pan fyddont mewn clefyd neu dan ryw gyſtudd gorthrwm, hwy a addunedant yn ffyddlon ar ddyfod yn ddynion newydd, ac adbrynu yr amſer a gamdreuliaſant; ac etto i mae llawer o'r rhain, pan gaffont eſmwythâd a ſeibiant, megis *Pharaoh*, yn caledu drachefn, ac yn dychwelyd at eu hên bechodau a'u harferion drwg gynt, gyda chymmaint o awydd a rhwyſc, a phed fuaſent heb erioed fwriadu ac addunedu yn eu herbyn. O na adewch ini o hyn allan, Griſtianogion, feddwl mor yſcafned am ein haddewidion a'n haddunedau, megis ped fai mor ddifatter gan Dduw ac i mae gennym ni, pa un a wnelom, a'u *torri* a'u *cadw*.

Gadewch ini, meddaf, ym mha gyflwr bynnag i bom ynddo, gofio yn waſdadol ein bod ni mewn cyfammod o waſanaeth i Dduw:

Dduw: ac ini wneuthur hynny mewn modd mwy enwedigol ac arbennig, pan ddarfu ini gymmeryd y cymmun ar hynny; oddiwrth ba rwymedigaethau cyſſegredig, nid allwn ni fyth ſyrthio ymmaith, heb anffyddlondeb erchyll i Dduw, a pherygl enbyd o golli ein heneidiau anfarwol. Pa ryfeddol wrthwyneb ſydd yn ein bucheddau ni, pan ſom ni yn addunedu gwaſanaeth i Dduw, ag er hynny, mewn gwirionedd yn gwaſanaethu Satan, a'r byd, a'r cnawd; dwyn o honom enw Criſtianogion, ag etto, er hynny, torri ein haddunedau, a thynnu ymmaith ein henwau, a dryllio ſêl y cyfammod, a cholli y rhagorfreintiau ag ſydd yn perthyn iddo. Yrawron os nad edifarhawn ni am yr ynfydrwydd a'r anffyddlondeb echryſlon yma, os na wnawn ni gydwybod o gadw ein haddewidion, a byw yn ſwy manwl, ar ol ammodau y cyfammod, ef a gyfyd y pethau hyn i gyd yn ein herbyn yn y farn, i'n cyhuddo gar bron Duw, megis torrwyr ammodau, a phlant yr anufudd-dod, a deiliaid a gweiſion i Satan; ag i gael ein rhan dros byth yn y llynn ſydd yn lloſci o dân a brwmſtan, mewn trueni tragywyddol.

Am hynny yn holl orchwylion ein bywyd, pan i'n dener i un pechod, bydded mor lleied ac i mynno, gadewch ini yſtyried, ini mewn modd enwedigol ac arbennig addunedu yn ei erbyn; a'n bod ni yn dorrwyr cyfammod os ymollyngwn ni iddo; ag yſtyriwn i Dduw ei hun ſynegi yn eglur, na chymmer ef ddim yn ddieuog mo honom, pan ddelom i roi cyfrif am ein gweithredoedd, am ein troſedd. Pan gyfarfyddom ni, gan hynny, a'r pechodau hynny ag ſydd arferol o lywodraethu arnom; y perthynaſau, y llê, neu 'r gymdeithas a fo fwyaf tebygol i'n denu i droſeddu; gadewch ini gofio y pryd hynny ein haddunedau i'r Arglwydd; a gadewch ini yſtyried agwedd a dull ein cyfammod, a dywedyd wrthom ein hunain pan i'n temptier: 'Mi a aethum 'mewn cyfammod a Duw; ir wyf trwy 'ammod wedi dyfod yn wâs iddo; ac ir 'wyf wedi rhwymo fy hunan ac adduned i 'wneuthur ei waith ef. Nid wyf fi ddim yn 'eiddo fy hunan, ond eiddo yr Arglwydd 'ydwyf. Ir wyf yn eiddo ef, nid yn unig 'trwy hawl fy nghreadigaeth a'm prynedig-'aeth, ond hefyd trwy fy nghytſynniad 'gwirfodd ag ewyllyſgar fy hunan. Myfi

'a

'a draddodais holl nerth a galluoedd fy
'enaid a'm corph iw waſanaeth ef. Ir wyf
'yn rhwym trwy ammodau fy nghyfammod
'i ymwrthod a phob pechod, ac i gadw
'gorchymynnion Duw. Heblaw hyn, ef
'a ddarfu imi ymmhellach adnewyddu y
'cyfammod hwn wrth fwrdd yr Arglwydd,
'ag yngwydd y gynnulleidfa: myfi a
'ddaethum yno a llawn fwriad, na wnawn
'ni byth drachefn mor pechodau hynny,
'a ddarfu i mi unwaith edifarhau mor
'brudd a difrifol o'u plegid. Ac am hynny,
'mi a allaf ddywedyd gyda *Joſeph*, pan im
'temptier i un o honynt; *pa fodd i gallaf*
'*wneuthur y mawr ddrwg hwn, a phechu yn*
'*erbyn Duw?* Pechu yn erbyn fy nghyd-
'wybod fy hunan, ac yn erbyn yr holl
'rwymedigaethau nerthol, a'r bwriadau, a'r
'addunedau a wnaethum for fynych iw
'herbyn. Os beiddiaf fi wneuthur hyn, ir
'wyf mewn enbydrwydd o golli ffafr Duw,
'ac iechydwriaeth fy enaid anfarwol; nid
'allaf ddim lai na ſyrthio tan ddigofaint
'yr Arglwydd a dwyn y goſp ac ſydd yn
'ddyledus am dorri y cyfammod, ſef, bod
'yn felldigedig ag yn druenus dros dragy-
'wyddoldeb.'

Gadewch ini oddiwrth yr yſtyriaethau hyn, gyda llwyr fwriad calon, wneuthur a chadw ein haddunedau a'n haddewidion i'r Arglwydd; ac megis i gallom ni eu cyflawnu, gadewch ini mewn taer a gwreſog weddiau ac ymbiliau, neſhau at orfeddfainc Duw, i ddeiſyf arno roddi ini râs a chymmorth i'n nerthu a'n bywiogi i gyflawnu yn gywir yr hyn a ddarfu ini addo: yr hyn, Duw mawr o'i drugaredd a ganiatto ini bawb oll, er mwyn ein prynwr a'n iachawdwr bendigedig, Ieſu Griſt. *Amen.*

PREG-

PREGETH V.

Heb. xi. 1.

Ffydd yn wir yw ſail y pethau ir ydys yn eu gobeithio, a ſicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.

GAN mai ffydd yw ſail gwir grefydd, trwy ba un ir ym ni yn credu ynghylch perthynaſau mawrion y byd arall; a bod dedwyddwch tragywyddol ein heneidiau, yn ſefyll ar y defnydd a wnelom ni o'r egwyddor mawr-wyrthiog hwn, yma yn ein bucheddau; i mae yn addas ag yn gymmwys ini holi ein hunain, pa un ai 'n bod ni yn meddiannu hon yn ein heneidiau, megis ag i dylem, ai nad ydym.

A thuac at y diben hynny, mi a gâf yſtyried yrawron,

Yn *gyntaf*, Yn gyffredinol, *beth yw ffydd.*

Yn *ail*, Yr effeithiau a'r ffrwythau o honi. Ac,

Yn *drydydd*, Y gwobrwy gogoneddus ſydd ynghadw yn y nefoedd i bawb o'r ffyddloniaid yn y byd a ddaw.

Yn *gyntaf*, Mi a wnâf fy ngorau er dangos *pa beth yw ffydd.*

Egwyddor yr enaid ydyw, trwy ba un ir ym ni yn credu yngair Duw a'i addewidion mor ddiogel ſicer, a phed faem ni yn eu gweled yn cael eu cyflawnu yngwydd ein llygaid corphorol. Trwy ffydd ir ym ni yn credu y pethau mawrion a ddatguddiodd Duw yn ei air, ynghylch creadigaeth y byd a'r pethau ſydd ynddo, ynghylch cyflwr ein rhieni yngardd *Eden* o flaen y cwymp, ag ynghylch trugaredd Duw yn ei hadfer drachefn, ar ol eu ſyrthio, i obaith o ryddhâd a gollyngdod am eu troſedd. Trwy ffydd ir ym ni yn credu yr holl haneſion ag ir ym ni yn eu darllen ynghylch helynt pobl Dduw, ym mhob oes, ag yn eu cymhwyſo attom ein hunain, gan beri ini ymddwyn ein hunain ar bob achos, yn ol yr unrhyw eſamplau hynod o dduwioldeb ag ymddiried yn Nuw, ag i gwnaethant hwy: o herwydd i maent hwy wedi eu goſod megis cynnifer o oleuadau i'n cyfarwyddo ac i'n hyfforddi ar ein taith, i'n tywys i'r un

orphwyſfa

orphwysfa bendigedig, ac ir aethont hwy i mewn iddo.

A chan nad oeddynt hwy ond dynion fel ninnau, i maent yn gymmwys o'r achos hwnnw, i beri i ninnau gymmeryd calon i arfer yr un moddion, gan obeithio trwy râd a bendith Dduw ar ein hymegniadau, i cyrhaeddwn ddiben ein ffydd megis hwythau. Ac er iddynt hwy gael profiadau dwyfion mewn amryw ffyrdd, er mwyn amlygu dianwadalwch eu ffydd, etto ni a'u gwelwn yn ddiyſcog yn cyflawnu'r cwbl ag ir oedd Duw yn ei orchymmyn iddynt, er ei fod yn wrthwyneb iawn i gig a gwaed. Ir oedd y gorchymyn a roddes Duw i *Abraham*, am aberthu ei fab ar fynydd *Moriah*, yn orcheſt ag oedd yn gofyn ffydd grêf ryfeddol. Ac etto ir ym yn gweled mor barod ir oedd i ufuddhau ir gorchymyn nefol. Ac ir ym ni yn gweled mor gymmeradwy ag anwyl oedd ef gan Dduw am y weithred hon; ag o'r achos hwnnw efe a gafodd yr addewid odidog honno, *Yn dy hâd di i bendithir holl genedloedd y ddaear*; *o achos gwrando o honot ar fy llais i*: gan ragddangos a phortreiadu ym mlaenllaw, yr aberth o'r offrwm holl-ddigonol

hwnnw

hwnnw dros holl ddynol ryw, ir oedd ef yn ei arfaethu trwy farwolaeth ei fab ei hun, ein iachawdwr Ieſu Griſt.

I mae 'r ffydd hon yn ein dyſcu ni, nad yw pobl Dduw ddim yn wafdad yn mwynhau llonyddwch a hawddfyd yn y bywyd yma: ag fod dyn wedi ei greu a'i arfaethau i ddibennion mwy ardderchog na dim tymhorol a ellir ei feddwl neu ei ddychymmyg. O herwydd ein bod ni yn canfod na chafodd neb, ag oeddynt yn weiſion ffyddlon i Dduw yma ar y ddaear, mo ddiben ei ffydd tra ir oeddynt yn y cnawd; ond yn hytrach, rhwyſtrau, erledigaethau, a gofidiau trymmion o bob mâth. Mae hyn yn dangos, fod gwrthddrych eu ffydd hwy mewn byd anweledig, ag nad oeddynt hwy ddim yn diſgwyl eu gwobr am eu hymddygiad dewrwych, calonnog dan eu gorthrymderau, yn y cyflwr preſennol; ond ir oeddynt yn edrych ar yr orphwyſfa honno, ag ſydd etto yn ol i bobl Dduw. Ac yn ddiau, os daliwn ni ſulw, ni a gawn weled yn ebrwydd, nad y rhai gwir dduwiol a ffyddlon oedd yn mwynhau eu byd eſmwythaf yma ar y ddaear: ir oeddynt yn fynych yn goddef y poenau a'r arteithiau mwyaf, yn eu ham-

ryw

ryw leoedd a'u galwedigaethau. Ag yn ddiammau, ir oedd yr egwyddor yma yn gweithio yn nerthol ynddynt, pan ddarfu iddynt oddef cymmaint o ammarch, a myned trwy gynnifer o beryglon, a llawer o honynt golli eu heinioes, er mwyn cyflawnu eu dyledſwydd, ag er mwyn cadw cydwybod dda, ddirwyſtr, tuac at Dduw a dynion.

Trwy hon i darfu i'r tadau ſantaidd a'r Prophwydi tan yr hen deſtament, ymddwyn mor wrol ymmhlaid Duw a chreſydd, ag a ddiſcleiriaſant megis cynnifer o oleuadau, pan oedd yr holl fyd heblaw hynny, mewn tywyllwch ag annuwioldeb. Ac yn y teſtament newydd, ein Harglwydd Ieſu Griſt, pen tywyſog, a pherffeithydd ein ffydd ni, a aeth trwy gynnifer o gyſtuddiau, er mwyn rhyddhau dynol ryw allan o gaethiwed Satan a gallu y tywyllwch, a'u dwyn hwy i rydd-did gogoneddus plant Duw. Efe, er ei fod yn fab Duw ag yn frenin gogoniant, a ymddaroſtyngodd mor iſel a gwiſco o hono gorph dynol, a byw mewn tlodi ag ammarch. *Efe a'i dibriſiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwâs, ag a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: a'i gael mewn dull fel dyn, efe a'i daroſtyngodd*

ei

ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau 'r groes. O herwydd pa ham, Duw a'i traddercbafodd yntau; ag a roddes iddo enw, yr hwn ſydd goruwch pob enw: fel yn enw Ieſu i plygai pob glin, o'r nefolion a'r daearolion, a than ddaearolion, bethau; ag i cyffeſai pob tafod, fod Ieſu Griſt yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dâd.

Ac ir ym ni yn canfod, gwedi dyrchafael ein iachawdwr, mor ddiwyd a diyſcog ir oedd yr Apoſtolion yn pregethu 'r efengyl, er nad oeddynt yn mwynhau dim budd na gwobr breſennol oddiwrth hynny; ond yn hytrach, erledigaethau ag amrafael beryglon, ammarch a gwatwar, yn gyſtal ymmhlith y *Cenedloedd* a'r *Iuddewon*, eu cenedl eu hunain. Etto y cyfryw oedd eu ffydd, a'u bod hwy yn ei gyfrif yn fri ag anrhydedd, iddynt gael dioddef y cyfryw bethau er mwyn yr Arglwydd Ieſu. Yr egwyddor hon a gefnogodd y prif-griſtianogion tan y cyfryw gyfyngderau, megis ag i darfu iddynt hwy ddewis y marwolaethau a'r arteithiau creulonaf, cyn i gwadent, ag ir ymadawent a'u crefydd. Ac i mae 'r haneſion ſydd gennym ni am y merthyron, yn adrodd pethau rhyfeddol am eu dioddefiadau

a'u

a'u hymddygiad gwrol, tan y poenau eithaf ag a allai eu herlidwyr eu dychymmyg. Beth oedd achos hyn i gyd? Ffydd ddiymmod a diyſcog yn yr Arglwydd a'u prynodd; yr hon a'u troſglwyddai ar fyrder iw gorphwysfa dragywyddol yn y nefoedd. Ir oeddynt hwy yn canfod yr etifeddiaeth anllygredig, annifiannedig honno, a golwg ffydd. *Ir oedd ganddynt hwy ſail gadarn o'r pethau ir oeddynt yn eu gobeithio, a ſicerwydd o'r pethau nad oeddynt yn eu gweled.*

Dyma i chwi ddeſcrifiad byrr o ffydd, megis ir oedd hi gynt yn gweithredu ym mhobl Dduw. Ir ydwyf fi yn dyfod weithian,

Yn *ail*, I ddangos yr effeithiau a dŷf o honi ym mhawb o'r ffyddloniaid.

Ag yma ni a ddylem gymmeryd mawr ofal na chamſynniom ni; o herwydd i mae dau fath o ffydd. Un ſydd ffydd ddiffrwyth a marwaidd, heb wneuthur dim yn gyfattebol i'r pethau ir ydym ni yn eu credu; ond yn unig bod gan ddynion wybodaeth o'r pethau a ddatguddiodd Duw yn ei air, heb wneuthur y defnydd lleiaf o honi tuac at ogoneddu Duw, na gwneuthur

thur daioni iw cymmydog, na llês yn y byd iddynt eu hunain yn y diwedd. Y ffydd hon ſydd mor belled o fod yn gymmeradwy yngolwg Duw, a'i bod hi mor wrthwyneb i iawn ag iachuſol ffydd, a dim a ddichon fod. *Credu ir wyt ti*, medd yr Apoſtol *Iago, mai un Duw ſydd; da ir wyt yn gwneuthur; i mae 'r cythreuliaid hefyd yn credu ac yn crynu.*

Ni a welwn yma yn amlwg, mai nid *credu* o honom y pethau a ddatguddiodd Duw yn ei air, a'n gwna ni yn ddiogel o fod yn gadwedig; ond *gwneuthur* o honom ni y cyfryw bethau ag i mae efe wedi eu gorchymmyn hefyd. Ni ddichon fod un peth fwy gwarthus, nag ini Griſtianogion, y rhai ydym yn gwybod gorchymynnion Duw, a'r ffrwythau a ddylem ni ddwyn yn ein bucheddau a'n hymarweddiad, eſceuluſo y moddion hynny a ſiccrhânt ein hiechydwriaeth, ſef, ufudd-dod diragrith, a gwir edifeirwch am ein pechodau a aethant heibio. Ag os oes ynnom ni wir a bywiol ffydd, nyni a fucheddwn yn gyfattebol iddi. Nyni a fyddwn fyw bywyd pur, ſantaidd, a dihalog; ag os darfu ini droſſeddu gorchymynnion Duw, nyni a ddych-

ddychwelwn yn ddiaros at ein dyledſwydd, trwy wir a diffuant edifeirwch, gan gredu i cawn ni ein derbyn i heddwch a chymmod ein tad nefol, er mwyn haeddedigaethau ein prynwr bendigedig.

Dyma 'r wîr a'r fywiol ffydd honno, ag oedd erioed ym mhlant a phobl Dduw. I mae hi yn dwyn ffrwythau addas o'i honi, ym muchedd ag ymarweddiad y ſawl ſydd yn ei pherchennogi. Nid yw hi ddim yn bodloni ei hunan a rhithiau a ffurf oddiallan; ond i mae hi yn egwyddor egniol a nerthol, yn gweithio ar y galon, ag yn peri i ddynion flaenori mewn gweithredoedd da. I mae y ffyddloniaid yn ymwrthod a phob drygioni a phechod, o herwydd eu bod yn gwybod *mae gelyniaeth ydynt i Dduw*; ag i maent hwy yn gwneuthur gweithredoedd da o gydwybod bur, *gan wybod, nad â eu llafur hwy yn ofer, yn yr Arglwydd.*

I mae dynion ag ſydd heb feddiannu yr egwyddor bywiol yma o ffydd, yn meddwl, os gwnânt hwy ryw weithredoedd a ſo golygus oddiallan, (bydded eu calonnau y pêth a fynnont) fod pôb pêth o'r gorau. Ond ni fodlonir Duw a'r cyfryw bethau.

I mae yn rhaid i'r nêb ſydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn wobrwywr i'r ſawl ſydd yn ei geiſio ef. Felly gwrthddrych pob gweithred, a wnelom ni mewn gwir a bywiol ffydd, yw Duw. Mewn ufudd-dod iw air a'i orchymmyn ef, ir ym ni yn cyflawnu pob dyledſwydd; ag yn ol cryfder neu wendid ein ffydd, ſef y ffrwythau a'r effeithiau o honi, i bydd ein taledigaeth yn nydd mawr ein cyfrif. Yrawron yw amſer ein cynhauaf yſprydol; pa bethau bynnag a hauom ni yrawron, a gawn ni yn eu iawn amſer eu fedi. *Y rhai a hauant i'r cnawd, o'r cnawd a fedant lygredigaeth,* neu farwolaeth: *eithr y rhai ſydd yn hau i'r yſpryd, o'r yſpryd a fedant fywyd tragywyddol.*

Nid oes un rhann o'n dyledſwydd ni tuac at Dduw a'n cymmydog, nad yw ffydd yn fuddiol tuac at ei pherffeithio. Mewn perthynas i Dduw; beth a all fod mor bwyſfawr i'n hannog i ymddwyn tuac atto gyda dyledus barch, a'i addoli, a'i waſanaethu yn gywir ag yn ddiffuant, na chredu o honom ei fod ef yn breſennol ym mhob mann? a'i fod ef yn gwybod dirgelion ein calonnau? a'i fod yn alluog i'n gwared oddiwrth bob cyſtudd a blinder, os rhoddwn

ni

ni ein hyder a'n goglud arno, ſel ag i dylem? dyma 'r effeithiau a gafodd gwir ffydd ar bawb o'r duwiolion yn mhob oes; a diammau, mai dyma 'r ffrwythau a ddygai hi ynnom ninnau, ped faem ni berchennogion o honi mewn gwirionedd. O herwydd yr un yw Duw yn waſtad, ag nid oes gyfnewidiad ynddo.

Ag megis yn y modd hyn i peri gwir ffydd ini ymddwyn yn addas, mewn perthynas i'n gwaſanaeth a'n haddoliant o Dduw; felly befyd, hi a barei ini ymddwyn yn weddus, yn gyfiawn, ag yn drugarog tuac at ddynion. Nyni a ymddygem tuac at bawb o'n blaenoriaid gyda goſtyngeiddrwydd a pharch; nyni a fyddem ewyllyſgar i wneuthur daioni yn ol ein gallu, i bob grâdd o ddynion, yn enwedig i'r ſawl ſydd mewn clefyd, adfyd, neu flinder; i'r ſawl ſydd mewn angen, tlodi, ag eiſiau; ni charem ni ddim ar air yn unig, ond mewn gweithred a gwirionedd. Ped fai ffydd yn dwyn yr effeithiau bendigedig hyn, ar fucheddau ag ymarweddiad dynion, hwy a fyddent griſtianogion mewn gwirionedd, ag nid mewn enw a phroffes yn unig. A diau, wrth ddal ſulw wrth fel i mae llawer

yn byw yn y byd preſennol o'r oes yma, rhaid addef, nad oes nemmawr yn berchennogion o'r wîr a'r fywiol ffydd ir wyf i yma yn ſôn am dani. O herwydd, yn lle gwaſanaethu Duw fel ac i dylent; gydac ofn a dyledus barch, i mae gormod yn treulio eu hamſer mewn pechodau a thrachwantau aflan, yn debyccach o lawer i genedloedd digrêd, na ffyddlon waſanaethwyr Duw. Ag ſo fyn y rhain fod ganddynt ffydd; ond *na thwyllwch mo honoch eich hunain*; os oes gennych chwi ffydd, nid oes gennych ond ffydd farw a diffrwyth, y cyfryw ag ſydd gan y cythreuliaid uffernol eu hunain. Ni wna hi ronyn o lês tuac at gadw ag achub eich eneidiau. I mae yn rhaid i chwi ddioſc yr hên ddyn, eich natur lygredig, a marw i bechod, cyn i galloch chwi fyth fyw i Dduw. I mae 'n rhaid i chwi edryeh ar pethau tragywyddol yn y cyfryw fodd yrawron, megis i dygont hwy weithredoedd da yngwydd dynion, cyn i galloch fyned i deyrnas nefoedd. I mae yn rhaid fod gennych chwi zêl dros ogoniant Duw, a'i air yma, cyn i cewch eich derbyn a'ch croeſawu yno. *Canys*, medd ein Iachawdwr, *pwy bynnag a fyddo cywilydd ganddo fi a'm geiriau*

yn

yn yr odinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, bydd cywilydd gan fab y dyn ymlaen, pan ddel yn gogoniant ei dad, gyda'r angylion ſanctaidd.

Felly griſtianogion, chwi a welwch pa ffrwythau a ddylai iawn ffydd ddwyn ynnoch, mewn perthynas i'ch gwaſanaeth i Dduw. O ran ymddygiad y gwir ffyddloniaid tuac at ei brodyr, i mae rhyw bethau hefyd teilwng iawn i ddal ſulw arnynt. Mi a grybwyllaf fi yma, yn unig y pethau ac ſydd fwyaf pwyſfawr, ſef, cariad ag ewyllys da tuac at bob dyn, o ba râdd a galwad bynnag i bo, ond yn fwy enwedigol, rhoddi elufeni i'r tlawd a'r anghenus.

I mae hon yn rhann mor ſylweddol a nodedig o wir ffydd, ag nad oes dim o'r fath beth ag i dichon crefydd iawn a diffuant fod yn y dyn hwnnw, yr hwn a gauo ymyſcaroedd ei doſturi tuac at ei frodyr anghenus, ag nid oes iddo rhann yn nheyrnas Dduw a Chriſt. Ac i mae Duw ym mhob mann yn ei air, yn ei wrthod, a'i lyſu. Gwrandewch pa beth i mae ein iachawdwr ei hun yn ei ddywedyd wrth y cyfryw ddynion, pan i mae ef yn dangos dull y farn ddiweddaf: *Yna i dywed ef wrth y*

rhai a fyddant ar y llaw aſſwy, ewch oddiwrthyf rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, a barattowyd i ddiafol ag iw angylion. Canys bum newynog, ag ni roeſoch imi fwyd: bu arnaf ſyched, ag ni roeſoch imi ddiod: bum ddieithr ag ni'm dygſoch gyda chwi: noeth ac niw dilladaſoch: yn glâf, ag yngharchar, ag ni ymwelſoch a mi. Yna ir attebant hwythau hefyd iddo, gan ddywedyd, pa bryd i'th welſom yn newynog, neu yn ſychedig, neu yn ddieithr, neu yn noeth, neu yn glâf, neu yngharchar, ag ni weinaſom iti? Yna ir ettyb efe iddynt, yn gymmaint ag nas gwnaethoch i'r un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau. I mae hyn yn ddigon ynghylch ffrwythau neu effeithiau gwir ffydd. Mi a chwanegaf air neu ddau ymhellach, ynghylch ei gwobrwyad, ag yno mi a derfynaf.

I mae holl ddatguddiadau gair Duw yn pennodi ag yn annelu tuac at y nôd yma, ſef, *Fod Duw yn wobrwywr i'r ſawl ſydd yn ei geiſio ef*; ac i mae pob addewid ag a wneir yno, yn perthyn i wîr ffydd. O! pa fath lawenydd a gorfoledd a fydd i'r gwir ffyddloniaid, ar eu hymadawiad o'r byd hwn, dderbyn diben eu ffydd! iddynt hwy dderbyn y goron anniflannedig

honno

honno o ogoniant, ag ſydd ynghadw i bawb ar ſydd yn caru Duw! I maent yrawron yn myned i fwynhau ffrwyth eu llafur gynt. I maent hwy yn fwy ſicor o gaffael y tryſor hwn yn y nêf, nag i mae y cybyddion mwyaf ar y ddaear, o fwynhau eu tryſorau o aur ag arian. Y pethau yma a dderfydd oll ar fyrder, ag ni fydd dim o honynt; ond i mae tryſorau ffydd yn parhau dros dragywyddoldeb. I mae 'r gwynfyd ag i mae y gwir ffyddloniaid yn ei fwynhau yno, yn anrhaethol, ag nid ellir ei gymharu a dim yma ar y ddaear. *Ni welodd llygad, ag ni chlywodd cluſt, ag ni ddaeth i galon dyn, y pethau ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.* O! pa annogaeth gref ſydd gennym ni yma, i ymegnio fod o honom yn berchennogion o'r ſydd werthfawr hon! Ef a ddaw yr amſer ar fyrder, i dymunem a'n holl galon ein bod ni yn meddiannu y ffydd fywiol hon. Pan i caffom ni weled y ffyddloniaid o bob oes, gwlad, ag iaith, patriarchiaid, prophwydi, apoſtolion, merthyron, ag eraill weiſion ffyddlon Duw, yn derbyn eu gwobrwyau tragywyddol. *Oblegid hynny, ninnau hefyd, gan fod cymmaint cwmmwl o dyſtion wedi ei*

oſod

oſod o'n amgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod ſydd barod yn ein hamgylchu, trwy amynedd, rhedwn yr yrfa a oſodwyd o'n blaen ni; gan edrych ar Ieſu, pentywyſog a pherffeithydd ein ffydd ni, yr hwn, yn lle y llawenydd a oſodwyd iddo, *a ddioddefodd y groes, gan ddiyſtyru gwaradwydd, ag a eiſteddodd ar ddeheulaw gorſeddfainc Duw.*

Gwyliwn rhag ini, fel yr *Iſraeliaid* gynt yn yr anialwch, trwy ein anghrediniaeth a'n anffyddlondeb, ddigio Duw, a thyngu o hono yn ei lid, na chawn ni fyned i mewn iw orphwyſfa. Byddwch helaethion a diymmod yngwaith yr Arglwydd yn waſtadol, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd.

Duw a roddo i bawb o honom râs, a'r cyfryw fywiol ffydd, ag a ddygo ynnom weithredoedd da er gogoniant a moliant iw enw ſantaidd ef, ag iechydwriaeth tragywyddol ein heneidiau anfarwol, er mwyn ein Iachawdwr bendigedig, Jeſu Grift, ein cyfryngwr a'n dadleuwr. *Amen.*

PREG-

PREGETH VI.

Luc ii. 10, 11.

A'r angel a ddywedodd wrthynt, nag ofnwch, canys wele ir wyfi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl;—canys ganwyd i chwi heddyw geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crift yr Arglwydd.

WRTH draethu ar y geiriau yma, myfi a gymmeraf achlyffur i yftyried, beth oedd yr achos a wnaeth i fab Duw ymadael a gogoniant y nêf, a dyfod ynghnawd dyn, ar gefn yr amfer hwn; a pha beth oedd y newyddion da o lawenydd mawr, i mae 'r angel yn fôn am danynt.

Gwedi i'r creawdr mawr lunio pob peth o ddiddim ddefnydd, a gofod ein rhieni cyntaf mewn yftâd o ddiniweidrwydd a dedwyddwch, i darfu i Satan eu hudo i anufudd-dod, trwy beri iddynt fwytta o'r pren gwaharddedig, yr hwn a'u gwnaeth yn

ddaroftyn-

ddaroſtyngedig i farwolaeth a llygredigaeth, ac amryw ddrygau eraill, oddiwrth yr rhain nid oedd ganddynt hwy un modd i gael ymwared. — Ond nid hyn yn unig oedd effaith yr anufudd-dod hwnnw, ond ir oeddent hwy ymhellach gwedi ennyn digofaint Duw iw herbyn, ac wrth hynny yn haeddu coſpedigaeth oedd fwy ofnadwy, ſef, colledigaeth dragywyddol o gorph ac enaid.— Nid oedd ganddynt hwy ddim o fewn eu cyrraedd, a allai wneuthur iawn i gyfiawnder Duw am droſeddu ei orchymmyn, ac felly ir oeddent mewn cyflwr toſt a thruenus.

Ond ni adawodd Duw hwynt felly; eithr, o'i anfeidrol drugaredd, ef a ddarparodd iddynt foddion cyffurus o ymwarediad, er mwy o ogoniant iddo ei hun, ac er mwy o warth a choſp i'r gelyn a'u hudodd. — Ef a wnaeth gyfammod a'n rhieni, *i cai hâd y wraig ſigo penn y ſarph*: y cyfammod hwn a fynegodd Duw i *Abraham* a'r patriarchiaid, ac i'r prophwydi olynol, hyd ddyfodiad y *Meſſias* ei hun, yr hwn oedd cyfryngwr y cyfammod hwnnw. *Duw, wedi iddo lafaru lawer gwaith, a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn*

dyddiau

dyddiau diweddaf hyn, o laſaredd uorthym ni yn ei fab.

Wrth hyn i gallwn ddeall, faint y trugaredd a ddangoſodd Duw i ddyn pechadurus, a'r maint o rwymedigaeth ſydd arno i gydnabod ei ddaioni tuac atto. Canys o'r blaen, ir oedd ef heb ddim gobaith o drugaredd, ac nid oedd gantho ddim modd o honaw ei hun, iw haeddu. Ir oedd ei enaid a'i gorph wedi eu llwyr ddaroſtwng dan bechod a llygredigaeth, ac nid oedd dim ond y trueni mwyaf o bob tu iw amgylchu.—Yn lle y diniweidrwydd hwnnw, a oedd ef unwaith berchennog happus o honaw, nid oedd dim ond euogrwydd yn llenwi ei feddwl, a chlefydau, a heiniau marwol, yn blino ei gorph, o ddechrau ei einioes iw diwedd; ac nid oedd dim iw ddiſgwyl rhagllaw, ond angau ac anobaith.

Os edrychwn ni yn ôl am hanes dynol ryw o'r creadigaeth hyd y diluw, ni chanfyddwn ni ddim ond pechod a drygioni dros wyneb yr holl ddaear. Un brawd o genſigen yn lladd y llall, oedd brawf erchyll o'r llygredigaeth hwnnw, a ddaeth i'r byd trwy hudoliaeth y gelyn. Ac i mae 'n rhaid yn ddiammau i bechod gynnyddu

yn

yn ddirfawr, pan i dywedir i Dduw edifarhau am iddo greu dyn, a gorfod o honaw ddileu yr holl fyd ar unwaith, ond wyth o rai cyfiawn.— Os edrychwn ni ymhellach, o'r diluw hyd ddyfodiad Chriſt, ni a gawn weled, fod agos yr holl fyd wedi ymddieithro oddiwrth Dduw eu creawdr, ac yn addoli pren a maen. Ir oeddynt wedi rhoddi eu hunain i fyny yn gwbl, i weithredu pob aflendid mewn corph ag enaid.

Y cyfryw oedd cyflwr llygredig i ſyrthiodd dynol ryw iddo trwy anufudd-dod; a'r gogoniant hwnnw, a oedd ddyledus i Dduw oddiwrth greadigaeth dyn, ir oedd ei elyn yn ei draws feddiannu yn gwbl. Ond o'r diwedd, ef a ddaeth yr amſer terfynedig i'r cyfammod rhwng Duw a dyn gael ei gyflawni, ac i deyrnas y tywyllwch gael ei diniſtrio.— Ein Harglwydd Ieſu Griſt, yr ail perſon yn y Drindod fendigedig, a gymmerodd y ſwydd bwysfawr hon arno; ac o herwydd nad oedd un modd i wneuthur iawn am bechod dyn ond mewn natur ddynol, ef a gymmerodd arno agwedd gwâs, ac a anwyd ar y dydd heddyw o forwyn bur. Ond nid oedd ei ymddangoſiad ef mewn rhwyſc ac anrhydedd bydol, ac er

ei

ei fod ef yn Arglwydd gogoniant, efe a anwyd mewn preſeb. Mor belled oedd ei deyrnas ef oddiwrth bob peth ac ſydd fawr a gogoneddus ymhlith dynion!

Mae hyn yn dangos yn eglur, nad yw mawredd y byd hwn yn gwneuthur neb yn fwy cymmeradwy gar bron Duw; ac nad yw y cardottyn gwaelaf yn ei olwg ef, yn llai ei barch na *Cæſar*. — Ac er fod hyn yn wrthwyneb i feddyliau dynol ryw yn gyffredinol, efe a dyſtiolaethodd hynny yn amlwg ar ei ddyfodiad cyntaf i'r byd, ac yn ymarweddiad ei holl fywyd rhagllaw. — Canys yn lle cyfoeth ac anrhydedd bydol, efe a bregethodd trwy ei eſampl ei hun oſtyngeiddrwydd a thlodi, i ddangos i ddynion eu bod yn camſynnied, pan ydynt yn rhoddi eu bryd ar olud ac anrhydedd, megis eu dedwyddwch pennaf. Efe a ddangoſodd, mai nid yma yn unig i mae i dynion fyw, nag er mwyn dim ag ſydd yma; ond yn naill ai er mwyn dedwyddwch neu thruem tragywyddol mewn byd arall. Dyma un o ddibennion dyfodiad ein Iachawdwr i'r byd, i egluro iddynt beth oedd orau yn rhyngu bodd mewn perthynas i bethau y byd hwn.

Ond nid hwn yn unig oedd amcan ei ei ddyfodiad; eſe a ddaeth hefyd hynny, i fod yn aberth dros bechodau dynol ryw yn gyffredinol, i dactod gweithredoedd diafol, yr hwn a'i hudodd gyntaf i dorri gorchymynnion Duw, *i fod yn oleuni, i oleuo i Cenhedloedd, ag yn ogoniant ſio bobl Iſrael.* — Ir oedd y byd, cyn ei ddyfodiad ef, oll mewn tywyllwch; ac ir oedd yr *Iuddewon* yn diſgwyl o hyd am y *Meſſiah*, yr hwn ir oedd *Moſes* a'r Prophwydi wedi ei ragfynegi: ac ir oedd yr rhai doethaf ymyſc y *Cenhedloedd*, yn ewyllyſio cael rhyw ddatcuddiad bennodol oddiwrth Dduw, ynghylch pa fodd i gallent orau ryngu ei fodd ef, a pha fodd i dylent ei waſanaethu, a thalu eu dyledſwyddau iddo; o herwydd eu bod yn canfod drwy oleuni natur, eu bod mewn amryw bethau yn gwneuthur yn wrthwyneb iw rheſwm, ac na wyddent pa fodd, pan drofſeddent, i gwnaent iawn i Dduw am hynny.

Yn y cyfrwng hwn o dywyllwch ag anwybodaeth, ir ymwelodd a ni gyfodiad haul o'r uchelder, ac a chwalodd ymmaith y cymmylau hynny; canys ef a ddaeth angel o'r nêf, *i fynegi newyddion da o lawenydd mawr*

mawr i'r holl bobl. Canys ganwyd inni heddyw geidwad yr hwn yw Crist yr Arglwydd. — Y newyddion hyn o lawenydd mawr, ydynt ragorfreintiau yr efengyl; yr rhai i mae dynol ryw oll yn gyfrannog o honynt: canys yma i datguddir yn olau y dirgelwch mawr hwnnw, a chwennychodd yr angylion eu hûn grymmu ac edrych arno. Canys trwy ragddarbodaeth Duw hollalluog, i mae maddeuant pechodau yn cael ei chynnig i holl ddynol ryw, yr rhai a dderbynniant gyfammod grâs. I mae y cyfammod hwn yn perthyn, nid yn unig i blant *Abraham* yn ol y cnawd, ond yr holl blant ef mewn ffydd, hynny yw, i'r rhai oll ydynt yn credu ag yn gwneuthur yn ôl ffydd *Abraham*, yn mhob cwrr o'r byd. Canys trwy y cyfammod hwn, nid oes wahaniaeth rhwng yr *Iuddew* a'r *Groegwr*, eithr i mae pawb oll yn cael eu derbyn, ac a wnelont yn ol yr ammodau a ofynnir ganddynt yn yr efengyl. Yr rhai oeddynt o'r blaen yn ffiderog ac yn llwythog o bechodau, ydynt yma yn cael eſmwythder dan iau Christ; canys ceremoniau y gyfraith iuddewig a ddiflannasant, ac eulun-addoliaeth y *Cenhedloedd*, a'u coelgrefydd, ydynt yn

rhoddi lle i oleuni yr efengyl, ac i mae teyrnas y tywyllwch yn cael ei llwyr ddifa, gan deyrnas Duw, y gwir frenin.

Dyma ddibennion mawr dyfodiad ein iachawdwr i'r byd. Bellach, Mi a ddangoſaf, pa fodd i dylai hyn oll weithio arnom ni griſtianogion, yr rhai ydym yn mwynhau y rhagorfreintiau mawr hyn tan yr efengyl. —Fe ddylai hyn ein dyſgu ni yn gyffredinol, pa mor druenus ydyw ein cyflwr ni wrth natur, mor ffaidd beth ydyw pechod, ac anufudd-dod i orchymynnion Duw; a maint yw ei drugaredd a'i ddaioni er tuag attom, am ddarparu ini foddion mor hawdd, o gael ein hymwaredu o'r gorpedigaeth oedd ddyledus ini am danynt: o herwydd heb gyfryngwr, nid oedd ini ddim gobaith o ollyngdod pechodau. Ond yr awrhon, ni a allwn ddyfod yn hyf at orſeddfainc gras, a chael trwy tyglyddon ei fab, faddeuant o honynt, os edifarhawn ni, a gwneuthur defnydd dyledus o'r moddion a gynnygir ini tuag at weithio allan ein iechydwriaeth.

Gwnawn, gan hynny, ddefnydd dyledus o'r moddion i mae Duw mor rafol yn eu caniattau ini, tuac at y diben mawr hwn. Dangoſwn yn ein buchedd a'n gweithred-

oedd, ein iboed yn wir ddifyrrwch i Grist, trwy fyw yn ſantaidd, yn ſobr, ac yn gyſiawn yn y byd hyd yr awrhon: a thrwy ymarfer o'r holl rinweddau hyny, a orchymynnir yn yr efengyl, ni a gawn fod yn gyfrannogion o'r breintiau hynny, er mwyn pwrcaſſu pa rai i daeth ein iachawdwr i'r byd. Dangoſwn ein diolchgarwch iddo, trwy wneuthur yn ol yr eſampl a adawodd ef ini. Trwy fod yn ſantaidd ac yn ddiargyhoedd yn ein buchedd a'n ymarweddiad; trwy fod yn iſel a goſtyngedig yn ein meddyliau; a thrwy wneuthur, hyd eithaf ein gallu, ddaioni i bawb o ddynol ryw yn gyffredin; trwy gyfrannu i'r tlawd a'r anghenus; trwy fod yn gymmwynaſcar bawb wrth eu gilydd; a thrwy fyw yn fodlon ym mha gyflwr bynnag i gwelo Duw yn dda ein goſod ni yn y byd hwn. Trwy wneuthur hyn, ni a gyflawnwn ddiben ein creadigaeth, yr hwn ydyw gogoniant Duw, ein creawdr, a'n dedwyddwch ein hunain.

Nid oes gennyf ddim i chwanegu, ond deiſyfu ar Dduw roddi grâs i bawb o honom, felly i wneuthur iawn ddefnydd o'r moddion a roddwyd ini, tuag at gaffael

bywyd tragywyddol, a'n bod ni bawb yn gadwedig, trwy haeddedigaethau Iefu Grift, ein prynwr. i'r hwn, gyda'r Tad, a'r Glân Yfpryd, i bo, fal i mae yn ddyledus, bob mawl, anrhydedd, gogoniant, a gallu, yr awrhon ac yn oes oefoedd. *Amen.*

PREG.

PREGETH VII.

RHUF. i. 18, 19.

Canys digofaint Duw a ddatcuddiwyd o'r nef, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion, y rhai ffydd yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder; o herwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw ffydd eglur ynddynt hwy; canys Duw a'u hegluroddi iddynt.

YN nechrau y bennod hon, i mae'r Apoſtol yn mynegi ei fod ef wedi ei oſod a'i arfaethu yn neillduol i bregethu yr efengyl i'r byd; ag nad oedd gwirfydd ganddo ei weinidogaeth fo, ymmaint o ogan ag erlid ag oedd yn ei chanlyn, ag er y dirmyg a'r dibrifiad ag ir oedd y byd yn ei ddangos i'r athrawiaeth ir oedd ef yn ei phregethu, gan ei bod hi *i'r Iuddew yn dramgwydd, ag i'r Groegwr yn ffolineb.* Er i gallai hyn daflu rhywfaint o warth arni, ym mharn dynion cnawdol, etto i'r fawl ag oeddynt yn pwyſo perthau yn ddiduedd, ag yn yſtyried amcan godidog

a bwriad

a bwriad yr athrawiaeth criſtianogol, ei nerth a'i gallu tuac at y diben hwnnw, hi a ymddengys yn foddion ag offerynau tra addas, wedi eu cymhwyſo yn rhyfedd gan ddoethineb Duw, tuac at wellhâd ag iechydwriaeth dynol ryw. Ac am hynny i mae efe yn dywedyd wrthym, pa gymmaint bynnag i dirmygid hi gan yr oes anwybodus ag anyſtyriol honno, *Nad oedd arno ef ddim cywilydd o efengyl Criſt: r oblegid gallu Duw yw hi er iechydwriaeth, i bob un ar ſydd yn credu; i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr.* Hynny yw, Iod athrawiaeth yr efengyl, wedi ei chredu yn gywir a'i derbyn yn foddion cymmwys a nerthol, wedi eu bwriadu gan Dduw, tuac at iechydwriaeth dynol ryw; nid yn unig i'r *Iuddewon*, ond i'r *Cenhedloedd* hefyd.

Ir oedd y datguddiadau a wnaeth Duw o'r blaen, wedi eu cyfeirio yn bennaf at yr *Iuddewon*; ond y ddatguddiad fawr a diweddaf hon o eiddo 'r efengyl, a gymhwyſwyd ag a gyfaddaſwyd tuac at lês a budd cyffredinol holl ddynol ryw. Yr efengyl, yn ddiau, a bregethwyd gyntaf i'r *Iuddewon*, ag oddiyno hi a gyhoeddwyd i'r holl fyd; ag megis i bwriadwyd yr athrawiaeth hon er lles cyffredinol dynol ryw, felly ir oedd

hi

hi yn debygol o fod yn nerthol tuac at y diben hwnnw, gan ei bod yn offeryn gwedi ei chymhwyſo yn llwyr tuac at iechydwriaeth yr holl fyd, yn gyſtadl *Cenhedloedd* ag *Iuddewon*. *Gallu Duw yw hi, i bob un ag ſydd yn credu; i'r Iuddew yn gyntaf, ag i'r Groegwr hefyd.*

A thuac at ddangos ei grym hi, i mae ef yn adrodd dau beth, ag ſydd yn peri iddi fod yn foddion mor alluog a nerthol tuac at iechydwriaeth dynol ryw.—*Yn gyntaf*, o herwydd yno i mae gras a thrugaredd Duw, ynghyſiawnhad pechadur, ag yſpyſiad o'i fod yn gyſiawn, yn cael eu heglur ddatcuddio. *Canys ynddi i datguddir cyſiawnder Duw, o ffydd i ffydd; megis y mae yn yſgrifennedig, y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.*

Nyni a allwn ddeall y geiriau hyn yn well, trwy eu cymharu a'r rhai i mae ef yn ei gofod i lawr yn y drydedd bennod, lle mae'r Apoſtol yn adrodd yn llawnach ag yn eglurach, am y modd o'n cyſiawnhad trwy ffydd, yn Chriſt Ieſu: hynny yw, trwy gredu'r efengyl. I mae ef yn mynegi, yn yr ugeinfed adnod, Mai *trwy weithredoedd y ddeddf, ni chyfiawnheir un cnawd yn ei olwg*

ef.

ef. Yn wrthwyneb i'r modd yma, o gyfiawnhâd trwy weithredoedd y ddeddf, i mae ef yn gosod i lawr, *gyfiawnder Duw, yr hon ſydd trwy ffydd Ieſu Grift i bawb, ac ar bawb a gredant.* Yr hwn yw 'r modd o gyfiawnhâd trwy 'r efengyl. *Ag yr awron ir eglurwyd cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tyſtiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi, ſef, cyfiawnder Duw, yn hon ſydd trwy ffydd Ieſu Grift i bawb, ac ar bawb a gredant. Cyfiawnder Duw heb y ddeddf a eglurir*; hynny yw, y modd a gymmerodd Duw i gyfiawnhau pechaduriaid, ag i ddatcan eu bod hwy yn gyfiawn *heb weithredoedd y ddeddf*; hynny yw, heb gadw cyfraith *Moſes*; *a eglurir*; hynny yw, a ddatguddir yn amlwg yn yr efengyl, *wrth gael tyſtiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi*; hynny yw, cyfiawnder Duw, neu gyfiawnhâd pechaduriaid trwy Ieſu Grift, ſydd wedi ei ddatcuddio yn eglur yn yr efengyl, er fod hynny, mewn modd tywyll, wedi ei dyſtiolaethu a'i fynegi o'r blaen, yn yr hên deſtament, yr hwn i mae ef yn i alw, *y ddeddf a'r prophwydi.* Ac i mae hyn yn egluro yn amlwg y geiriau hyn, *i datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd*; hynny yw, bob yn ychydig; y peth

a rag-

a ragfynegir yn dywyll yn yr hen deſtament, a ddangoſir yn olau amlwg yn y newydd. Yn gymmaint, a bod y ddau lê hyn o'r un yſtyr; *Yn yr efengyl i datguddir cyfiawnder Duw o ffydd i ffydd. Ag yrawron ir eglurir cyfiawnder Duw heb y ddeddf, wrth gael tyſtiolaeth gan y ddeddf a'r prophwydi.*

I mae datguddiad cyntaf a mwy amherffaith o honi, ond y datguddiad eglur o honi ſydd trwy 'r efengyl. Ag yna i mae 'r geirïau canlynol yn dyfod i mewn yn dra chymmwys; *Megis i mae yn yſgrifennedig, y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.* Canys i mae hyn yn ddangos yn eglur fod y modd a'r ffordd o gyfiawnhâd trwy ffydd, wedi ei grybwyll a'i oſod i lawr yn yr hên deſtament, neu, megis ag i dywaid yr Apoſtol, *a dyſtiolaethwyd gan y gyfraith a'r prophwydi.* Ag am hynny ei bod hi yn ddatcuddiad a gyfiawnwyd bob yn ychydig, yr hyn a eilw ef, *datguddiad o ffydd i ffydd. Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd*: hynny yw, dynion da a achubir trwy ffydd, hwy a gyfiawnhein ag a gyfrifir yn gyfiawn yngolwg Duw, ag a fyddant gadwedig trwy ffydd. Ac felly i mae 'r Apoſtol yn galw ein cyfiawnhâd trwy ffydd yr efengyl, *yn gyfiawnhâd hyeyd*, yn

yn wrthwyneb i ddamnedigaeth a marwolaeth. Yr hyn ſydd yn egluro yn amlwg y geiriau hynny o eiddo 'r Prophwyd, *Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd.*

Yn *ail*, Y modd arall i mae 'r Apoſtol yn dangos fod yr efengyl yn fodd nerthol tuac at ddiwygiad ag iechydwriaeth dynion, ydyw, mai yno i datguddir yn eglur doſter Duw yn erbyn pechaduriaid anedifeiriol, yn gyſtal a'i râs a'i drugaredd i'r edifeiriol: *Canys digoſaint Duw a ddatguddiwyd o'r nêf, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion; o herwydd yr hyn a ellir ei wybod am Dduw ſydd eglur ynddynt hwy, canys Duw a'i heglurodd iddynt.*

Y *cyntaf*, ſef grâs Duw yn ein cyfiawnhâd ag yngollyngdod o'r pechodau aethant heibio, ſydd achos a rheſwm mwyaf cymmwys a nerthol, i'n hannog ni i ufudd-dod rhagllaw; gan nad oes dim a ddichon fod mwy tebygol i beri i ddynion ddychwelyd i gyfiawnu eu dyledſwydd, na ſicrwydd o faddeuant am eu pechodau aethant heibio. Y *llall* ſydd un o'r annogaethau a'r rheſymmau mwyaf pwyſawr a nerthol i ddychrynnu dynion rhag pechu, ag a ddichon fod. *Canys digoſaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef*

yn

yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion, y rhai ſydd yn attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.

Oddiwrth ba eiriau mi a ddaliaf ſulw, ar y pedwar peth canlynol.

Yn *gyntaf.* Dirfawr berygl ag enbydrwydd, i mae helynt ddrwg a pechadurus yn gwneuthur dynion yn ddaroſtyngedig iddo. Ef a ddywedir, fod *digofaint Duw wedi ei datcuddio o'r nêf, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion.*

Yn *ail.* Y ddatguddiad eglur a diammau, a wnaeth yr efengyl o'r enbydrwydd a'r perygl yma: ef a ddywedir, fod *digofaint Duw yn erbyn pechodau dynion, wedi ei datguddio o'r nêf.*

Yn *drydydd.* Fod pob drygioni ag yſcelerder ym muchedd ag ymarweddiad dynion, yn peri iddynt hwy fod yn ddaroſtyngedig i'r dirfawr berygl ag enbydrwydd yma. Ef a ddywedir, fod *digofaint Duw wedi ei ddatguddio yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion.*

Yn *bedwerydd.* Ei fod yn trymhau llawer ar bwys ag euogrwydd pechod, i ddynion droſeddu yn erbyn goleuni ag argyhoeddiad eu calonnau eu hunain. I mae 'r Apoſtol

yma yn dangos mor ddirfawr oedd annuwioldeb a drygioni y *Cenhedloedd*, am na ddarfu iddynt hwy fyw yn ol y gwybodaeth oedd ganddynt o Dduw, ond a fucheddaſant yn wrthwyneb iddi, yr hyn i mae efe yn ei alw, *attal y gwirionedd mewn anghyfiawnder.*

Yn *gyntaf.* Y dirfawr berygl ag enbydrwydd i mae dynion yn dodi eu hunain ynddo, wrth ddilyn helynt ddrwg a phechadurus.

Gan fod Duw mawr, anfeidrol, a wnaeth y byd, ag ſydd yn ei lywodraethu, ag ſydd yn gofalu am ddynol ryw, ag a roddodd iddynt gyfreithiau a gorchymynnion i rodio wrthynt; ni ddichon ef ddim llai na ſorri yn ddirfawr am eu torri a'u troſeddu. Ag yn ddiammau, digofaint Duw yw 'r peth mwyaf ofnadwy yn yr holl fyd, a'r effeithiau o honi ſydd fwyaf annoddefadwy. Yr ofn mwyaf ſydd oddiwrth y perygl mwyaf, a'r perygl mwyaf ſydd oddiwrth y gallu mwyaf wedi ſorri a'i ddigio. A'r yſtyriaeth hon ſydd arſwydus iawn, ein bod ni trwy helynt bechadurus yn goſod ein hunain tan eithaf

digofaint

digofaint Duw mawr ag ofnadwy. *Canys pwy a wyr allu ei ddigofaint ef; a phwy ddichon aros o'i flaen pan fo efe yn ddigllon? Fel i mae dy ofn i mae dy ddigter*, meddai 'r Pſalmydd. Nid oes un o'r anwydau ag ſydd mewn dyn, mor ddirfawr ag annherfynol ag yw ofn. I mae yn arferol o ddangos pethau mewn agwedd arſwydus a dychrynnadwy iawn; a llawer gwaith, i feddwl fod pethau yn waeth neu yn fwy nag i bont. Ond yn y perthynas yma, i mae ein meddyliau yn fyrr iawn o gyrraedd gwirionedd a maint yr arſwyd; canys i mae digofaint Duw yn rhagori yn ddirfawr, ar yr hyn a ddichon y gydwybod fwyaf ofnus ag euog ei feddwl a'i ofni: ag ni ddichon y pechadur mwyaf, yn ei ing a'i anobaith mwyaf, feddwl nag arſwydo dim mwy nag i bo iddo iawn achos i wneuthur: *Canys fel i mae dy ofn felly i mae dy ddigter.*

Ped fai pechadur ond yn ddaroſtyngedig i ddigofaint dynion, e fyddai achos digon am ofn; canys i mae ganddynt hwy, lawer gwaith, allu ddigon i goſpi drwg-weithredwr, a chreulonder ddigon i arteithio a llurginio pob gwythen ag aelod o'i gorph.

Ond nid oes dim cymhariaeth na chyffelybiaeth rhwng ddigofaint a dial dynion, a digofaint Duw. I mae ei hanwydau hwy lawer gwaith yn danbaid, ag yn boeth, ond nid yw eu braich ond berr a'u gallu ond egwan. *Nid oes ganddynt hwy ddim braich fel Duw, ag ni allant daranu a llais, fel i gwnâ ef.* Hwy a allant fwriadu llawer o ddrwg a niwaid ini; ond nid yw lawer gwaith yngallu eu dwylo ollwng pwys eu malais arnom, nag i weithredu yr holl ddrwg ag i mae eu calonnau creulon yn eu harfaethu a'u hamcanu i'n herbyn. Y gwaethaf a'r eithaf a allant hwy wneuthur iw poeni y corph, a chymmeryd ymaith ein bywyd; a phan fwriadant hyn, hwy a allant farw cyn cyflawnu eu hamcan, *a dychwelyd iw llwch; ag yna i mae eu hamcanion yn darfod gyda hwy*; ag yna i mae eu holl fwriadau maleiſus wedi eu dibennu. I maent hwy yn waſtad tan allu a llywodraeth y Goruchaf, ag nid allant fyned dim ymmhellach nag i rhŷdd efe gennad iddynt. Pa fodd bynnag pei gwnaent hwy eu gwaethaf, ag ergydio eu holl ſaethau attom, nid allwn ddim eu goddef yn hîr; eu digofaint a wnânt ddiben o honom, ag a'n goſodant ni yn rhyddion

ion oddiwrth eu creulonder a'u gorthrymder. Nid allant hwy ond lladd, ag nid oes yn eu gallu ddim ychwaneg iw wneuthur. Nid all eithaf eu malais gyrraedd mo 'n heneidiau, ni ellir llunio un arf neu offeryn mor gelfyddgar a allont eu trywanu neu eu clwyfo. Hwy a allant ein gyrru ni allan o'r byd hwn, ond ni allant ein herlid ni i'r llâll; yn gymmaint a phe digwyddai y gwaethaf ini, y bêdd a fyddai yn noddfa ag amddiffynfa ddiogel oddiwrth eu holl angerdd a'u llîd.

Ond ni chauir digofaint Duw i fynu o fewn y terfynau yma. *Unwaith i dywedodd Duw, clywais hynny ddwywaith; mai eiddo Duw yw cadernid. I mae ganddo ef, fraich nerthol,* a phan fynno ef ei heſtyn hi allan, ni ddichon neb ei hatttal, *na dywedyd wrtho, pa beth ir wyt ti yn ei wneuthur?* I mae ganddo ef allu i gyflawnu ei holl fygythion; pa beth bynnag a ddywedo i mae yn abl iw wneuthur, a pha beth bynnag a amcano, ef a'i dŵg i benn. *Canys ei amcan ef a ſaif, ag efe a wnâ yr hyn a fynno.* Nid rhaid iddo ef ond llefaru y gair, ag efe a wneir. Canys ni allwn ni na gwrthſefyll ei allu, na dianc rhagddo; *os ehedwn i barthau*

eithaf y ddaear, ei law ef a ddichon ein cyrraedd; o herwydd yn ei law ef i mae holl gyrrau 'r ddaear. Os diſgynnwn ni i'r bêdd (ag ni allwn ni wneuthur mo hynny heb ei gennad ef) yno i canlyn ei ddigofaint ni, ag a'n gorddiwes, o herwydd na therfynwyd mo'i allu ef o fewn cyffiniau y byd hwn, a'r cyrph marwol yma; *eithr yn ol iddo lâdd, efe a ddichon ddiniſtrio y corph a'r enaid yn uffern.*

A dyma y ddigofaint honno o eiddo Duw, a ddatguddiwyd o'r nefoedd, a'r hon i mae 'r Apoſtol yn ei meddwl yn bennaf; ſef, trueni a choſpedigaeth byd arall, hyn a fygythiodd Duw bechaduriaid a hwynt. Tuac at fynegi pa rai yn eglur ini, i mae efe yn y bennod neſaf yn pentyrru cynnifer o eiriau dwys ag ofnadwy; *llid a digofaint, trallod ag ing, ar bob enaid dyn ſydd yn gwneuthur drwg*; yn wrthwyneb i'r wobr ddirfawr ogoneddus honno, yr hon a addewir *i'r rhai ſydd yn parhau yn amyneddgar i wneuthur da.* Yn gymmaint a bod digofaint Duw, a draethir yma, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion, yn cynnwys holl goſpedigaethau a thrueni y byd hwn a'r neſaf, yr hyn i mae pob pechadur

mewn

mewn perygl o honynt tra i parhao ef yn anedifeiriol. Canys, megis ag yn ol athrawiaeth yr efengyl, *fod gan ddduwioldeb addewidion o'r byd hwn ag o'r hwn a ddaw*; felly i mae cyfiwr anedifeiriol a pharhâd mewn pechod, yn gwneuthur dyn yn ddaroſtyngedig i aflwydd anffawd a thrueni yn y ddau fyd: i mae yn peri iddo ſyrthio dan farnedigaethau y fuchedd breſennol, ag i boenau diddiwedd, anoddefadwy, y bywyd ſydd i ddyfod. A pha beth a ddichon fod fwy arſwydus ag ofnadwy, na digofaint y Duw mawr, tragywyddol? yr hwn a ddichon goſpi hyd yr eithaf, a'r hwn ſydd yn byw yn oes oeſoedd, i gyflawnu ei lîd a'i ddialedd ar bechaduriaid; yn gymmaint a bod achos i'r Apoſtol ddywedyd, *Mai peth ofnadwy yw ſyrthio yn nwylo y Duw byw.*

Yſtyriwch hyn, oll chwi ag ſydd yn anghofio Duw, ag ydych yn byw mewn anufudd-dod gwaſdadol iw gyfreithiau ſantaidd a chyfiawn; mwy o lawer chychwi ag ſydd yn ei ddirmygu ag yn ei annog i ddigofaint. *A annogwch chwi yr Arglwydd i eiddigedd? A ydych chwi yn gryfach nag ef?* Meddyliwch am hyn o ddifrif, ag anghof-

anghoſiwch ef os gellwch, a dirmygwch ef os meiddiwch. Yſtyriwch hyn, rhag iddo ef ddeffroi fel llew, a dál gafael arnoch, *a'ch rhwygo fel na byddo gwaredydd.* Dyma y peth cyntaf oedd iw ddal ſulw arno, y dirfawr berygl ag i mae helynt ddrwg a phechadurus, yn goſod dynion ynddo, *digofaint Duw*; yr hyn ſydd yn cynnwys, nid yn unig yr holl ddrygau a wyddom ni oddiwrthynt, ond hefyd y cwbl a allwn ei ofni, ei amgyffred, neu feddwl am dano.

Yn *ail.* Y peth neſaf i ddal ſulw arno yw, y ddatguddiad eglur a diammau, a wnaeth yr efengyl o'n perygl. *Digofaint Duw a ddatguddiwyd.* Trwy 'r hyn i mae 'r Apoſtol yn meddwl, nad oedd hyn ddim mor amlwg a hyſpys i'r byd o'r blaen, mewn cyffelybiaeth i'r ddatguddiad eglur a wnaeth yr efengyl o honi. Nid nad oedd gan ddynol ryw, ym mhob oes, arſwyd a dychryn ynghylch perygl buchedd ddrwg, a bod pechaduriaid yn waſdad yn ofni dialedd Duw yn canlyn eu drwg weithredoedd, nid yn y byd hwn yn unig, ond yn y neſaf hefyd. Ond yr efengyl a wnaeth ddatguddiad eglur a ſicer o'r pethau hyn, i ddynol ryw. Ir oedd o'r blaen wedi ei yſgri-

yſgrifennu ar galonnau dynion, megis ſail a chadarnhâd cyfraith natur; ond ir oedd yr argraphiadau mewn meſur naawr wedi eu dileu a'u gwiſco allan, yn gymmaint ag nad oedd hi yn gweithio gyda dim grym na nerth ar feddyliau a bucheddau dynion. Ond yrawron i mae hi yn eglur wedi ei datguddio ini: *Digoſaint Duw a ddatguddiwyd o'r néf.* Ym mha eiriau, i mae 'r tri pheth canlynol yn gynnwyſedig. Yn *gyntaf*, Eglurder y ddatcuddiad; ef a ddywedir fod *digoſaint Duw wedi ei datguddio.* Yn *ail*, Y modd rhyfeddol o honi; *hi a ddatguddiwyd o'r nefoedd.* Yn *drydydd*, Y ſiccrwydd o honi, gan ei bod yn deillio, nid oddiwrth reſwm dynol, ond oddiwrth dyſtiolaeth digyfrwng Duw ei hun: *hi a ddatguddiwyd o'r néf.*

Yn 1. I mae yn arwyddoccau eglurder y ddatcuddiad. Nid yw coſpedigaeth pechaduriaid mewn byd arall ddim yn beth mor dywyll ag o'r blaen. I mae yrawron wedi ei fynegi yn hyſpys yn yr efengyl, gyda 'r perthynaſau neillduol o honi: ſef, fod bywyd ar ol hwn, ym mha un i derbyn dynion daliad cyfiawn o wobr am yr holl weithredoedd a wnaethpwyd yn y byd yma.

yma. Ag i mae amſer pennodol wedi ei oſod, ym mha un i geilw Duw yr holl fyd i gyfrif difrif ag arbennig. *A'r rhai ſydd yn eu beddau a gyfodir a llêf nerthol; a'r rhai a gair yn fyw y pryd hynny, a newidir yn ebrwydd; pan ddêl ein Harglwydd Ieſu Griſt, tragywyddol ag unig-anedig fab Duw, yr hwn a ddaeth unwaith mewn mawr oſtyngeiddrwydd i'n hachub, pan ddêl ef,* meddaf, *mewn gallu a gogoniant mawr, gyda 'i angylion nerthol; a phan gaſcler yr holl genedloedd o'i flaen ef,* ag i caiff dynol ryw eu gwahanu yn ddau lu; y cyfiawn a'r drygionus; y rhai ar ol barn gywir a diduedd, a fernir yn ol eu gweithredoedd, y naill i fywyd tragywyddol a dedwyddwch, a'r llall i drueni a phoenau tragywyddol.

Yn gymmaint ag i'r efengyl nid yn unig fynegi y peth ini, i bydd barn rhagllaw; ond tuac at ein bodlondeb a'n ſiccrwydd ni ymmhellach yn y peth yma, megis i gallo matterion mor bwysfawr weithio yn ddwys ar ein meddyliau, a tharo braw a ſyndod ar ein calonnau yn eu cylch, Duw a welodd yn dda ddatguddio ini lawer o berthynaſau mawrion, neillduol; y cyfryw ag ſydd deilwng o'r Mawrhydi nefol, ag ydynt arferol

o lenwi

o lenwi dynion a dychryn ag arſwyd, pan feddyliont am danynt. Canys i mae perthynaſau y farn hon, a ddatguddiwyd yn yr efengyl, yn gyfryw ag ſydd yn cyweddu i fawredd y Duw anfeidrol, ag yn dangos ei briodoliaethau gogoneddus ar gyhoedd yngolwg dynion ag angylion. — Canys pa beth ſydd deccach, nag i ddynion gael eu barnu gan ddyn fel hwy eu hunain? un o'r un râdd, a chyflwr, ag a gafodd brofiad o wendidau a phrofedigaethau y natur ddynol? Felly i dywaid ein Harglwydd ini, *i'r Tâd roddi pob barn i'r mab, o herwydd ei fod ef yn fab dyn.* Ag am hynny, ni ellir dywedyd dim yn ei erbyn, megis pei buaſai yn anghymmwys i fod yn farnwr. Ac i mae St. *Paul* yn dwyn hyn i mewn, megis profiad eglur o uniawn farnedigaeth y diwrnod hwnnw. *Duw*, meddai ef, *a oſododd ddiwrnod, ym mha un i barn efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe.* — Ac yna, beth a ddichon fod fwy addas, nag i Fab Duw, yr hwn a gymmerth gymmaint o boen a llafur tuac at achub dynion, ag a ddaeth i'r byd i'r diben hwnnw, ag a arferodd bob moddion ag oedd boſſibl tuac at eu gwellhâd a'u diwygiad;

diwygiad; pa beth meddaf, ſydd fwy addas a chymmwys, nag i hwn yma gael ei anrhydeddu gan Dduw i eiſtedd i farnu 'r byd, ag i euog-farnu a chondemnio y rheini ag nad edifarhaent er mwyn bod yn gadwedig, ar ol yr holl foddion a gynnygiwyd iddynt tuac at eu hachub? a pha beth gymmwyſach nag i ddynion, y rhai ſydd i gael eu barnu am y pethau a wnaethpwyd yn y corph, ag yn ddilynol fod i atcyfodiad y meirw fyned o flaen y farn gyffredinol? A pha beth mwy arddercho a chyfaddas i'r perwyl gogoneddus yma, na 'r perthynaſau arbennig ag i mae 'r yſgrythur yn eu crybwyll ynghylch ymddangoſiad y barnwr mawr hwn; *I deſcyn ef o'r nefoedd, mewn gallu a gogoniant mawr, gyda 'i angylion nerthol, ag i cenfydd pob llygad ef.* Ag i bydd holl dróell natur ar ei ymddangoſiad ef, mewn gwewyr, a'r holl fyd mewn annrhefn a chymmyſcedd; ag i caiff fêr y nefoedd eu tywyllu, ag o'r diwedd eu llwyr ddiffodd. *Yr haul a dywyllir, a'r lloer a droir yn waed, a holl nerthoedd y nêf a yſgydwir*; Ie, *Y nefoedd a ânt ymaith gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wrês a doddant, a'r ddaear, a'r gwaith*

a fyddo

a fyddo ynddi, a loſcir. I mae y portreiad hwn yn ardderchog iawn, ag yn deilwng ag addas o Greawdr mawr y byd, uwchlaw dim ag allaſai dynion feddwl am dano. A phwy ddichon ddatcan *bethau mawrion Duw, ond yr hwn i datguddiodd Duw hwynt iddo?*

Yn *ail.* I mae 'r ymadrodd hwn, *digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nefoedd*, nid yn unig yn arwyddoccau eglur ddatcuddiad y peth, ond hefyd y môdd neillduol a rhyfeddol o hono. Nid argraph naturiol yn unig ydyw ar feddyliau dynion, i coſp Duw bechaduriaid yn doſt, ond efe a gymmerodd ofal i ddyſcu dynol ryw yn y matter yma, mewn modd enwedigol a rhyfeddol. Nid adawodd ef ddim i ddynion gaſclu hynny oddiwrth oleuni natur a rheſwm, oddiwrth ei berffeithrwydd a'i briodoliaethau, ei ſanteiddrwydd a'i gyfiawnder, ag oddiwrth yſtyriaeth trefniad ei ragluniaeth tuac at ddynion da a drwg yn y byd yma; ond efe a welodd yn dda ddanfon cennad ardderchog o'r nefoedd yn unſwydd i ddatgan ag i fynegi ei ddigofaint yn erbyn holl bechaduriaid gwrthnyſſig ag anedifeiriol, megis i gallai yn ddibâll ddeffroi y byd difraw i edifeirwch. Efe a ddanfonodd

geinnad arbennig, i rybuddio pawb ag ſydd yn parhâu yn eu pechodau, ynghylch barn y dydd mawr, ag iw dyfyn hwy o flaen ei orſeddfainc oſnadwy. Felly i dywaid St. *Paul* wrth yr Athenïaid. *Yrawron, i mae efe yn gorchymmyn i bob dyn, ym mhob mann edifarhau: o herwydd iddo oſod diwrnod, yn yr hwn i barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordiniodd efe; gan roddi ffydd* (neu ſicrwydd o hynny) *i bawb, o herwydd iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw.*

Yn y modd hyn i gwelwch ym mha fôdd i dywedir fod *digofaint Duw wedi ei datguddio o'r nef:* Yn gymmaint ag i'r efengyl wneuthur datguddiad mwy eglur, ſicr, a neillduol, ynghylch barn y dydd mawr, nag a wnaethpwyd erioed o'r blaen. —I'r wyf yn dyfod weithian, at y *trydydd* peth i ddal ſylw arno, ſef,

Fod pob gweithred ddrwg a phechadurus, yn goſod dynion mewn dirfawr berygl.

I mae'r Apoſtol yn goſod i lawr ddau beth, ym mha rai i cynnwyſir pechodau dynion, annuwioldeb tuac at Dduw, ag anghyfiawnder tuac at ddynion; ac am hynny i mae yn thaid ini ei ddeall ef yn y cyfryw fôdd, a'i fod yn datcan ag yn

cyhoeddi

cyhoeddi digofaint Duw yn erbyn pob pechod pa bynnag, ag i mae dynion drwg, anedifeiriol, yn euog o honynt. Yn gymmaint ag nad eill un dyn, ag ſydd yn cymmeryd rhydd-did i gyflawnu a gweithredu unrhyw bechod neu drachwant, obeithio dianc oddiwrth ddigofaint Duw: ac am hynny ni a ddylem brydeiru o ddifrif, ar fod o honom yn wir grefyddol, *ag edrych o honom ar holl orchymynion Duw*, ag i gymmeryd gofal, na chynnwyſom mo honom ein hunain i ymarfer un pechod pa bynnag; o herwydd byw mewn un mâth ar bechod gwybodol, ſydd yn ein gwneuthur ni yn ddaroſtyngedig i ofnadwy ddigofaint Duw. Er bod dyn yn uniawn ag yn gywir yn ei ymdriniaeth a'i faſnach gyda dynion, etto, os eſceuluſa ef addoli a gwaſanaethu Duw, hyn yn ddiammau a'i dŵg ef i golledigaeth. Ag o'r tu arall, er i ddyn waſanaethu Duw yn ddyfal ag yn wreſog, etto, os yw ef ddeffygiol yn ei gyfiawnder tuac at ddynion; os yw ef yn ymddwyn yn ffals ag yn dwyllodrus, ni ddianc ef ddim oddiwrth ddigofaint Duw. Er i ddyn gymmeryd arno fod mor dduwiol a chrefyddol ag i mynno, etto, os yw ef yn anghyfiawn, *ni*

chaiff ef ddim etifeddu teyrnas Dduw. Os oes neb a orthrymma neu a dwylla ei frawd mewn dim, dialydd yw yr Arglwydd ar y rhai hyn oll. Yn gymmaint a bod yma annogaeth grêf i ddynion iw tynnu ymmaith yn llwyr oddiwrth bob pechod, ag i beri iddynt fyned rhagddynt, mewn cyflawniad gwaſdadol a gofalus o'u holl ddyledſwydd tuac at Dduw a dynion, ag i ddiwygio a gwellhâu pa beth bynnag ſydd ar fai yn nhymmer a thuedd eu meddyliau: o herwydd, un math o ddrygioni, neu unrhyw helynt bechadurus, ſydd yn goſod dynion yn noeth ag yn agored i ddialedd Duw, ag i goſpedigaethau bŷd arall. *Digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nefoedd, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion.* Nid oes dim gwahaniaeth na rhagoriaeth i'r naill mwy nag i'r llall, *nid oes dim derbyn wyneb gyda Duw.* I mae yn rhaid ini bawb ymadael a pechod a daroſtwng trachwant, *a bod yn ſantaidd ym mhob ymarweddiad.* Heb hynny, ni ddichon fod gennym ddim iawn obaith o ddianc oddiwrth ddigofaint Duw a barnedigaeth uffern. — Ond i fyned rhagom at y *pedwerydd* peth iw ddal ſulw arno, ſef,

Ei

Ei fod yn trymhâu llawer ar bwys pechod, i ddynion droſeddu yn erbyn goleuni eu meddylian eu hunain, a'r wybodaeth a oſododd Duw i fynu yn mhynwes pob dyn wrth natur.

Os bydd dynion yn cyfeiliorni ag yn tramcwyddo yn y tywyll, mid yw beth iw ryfeddu; i mae hynny lawer gwaith yn beth nad ellir wrtho nen ni ragfiaenu: ond yn y goleuni, ef a ddiſgwylir ar ddynion edrych a'u blaen a chanfod eu ffordd. I mae 'r Apoſtol yn dal ſulw, fod y goleuni naturiol hwnnw, ag ir oedd y *Cenhedloedd* yn ei fwynhau, er nad oedd ond llêdd-dywyll ag amherffaith, yn trymhâu euog-rwydd eu heulun-addoliaeth, a'u hanferion, a'u gweithredoedd ffiaidd. Y wybodaeth naturiol honno ag ſydd gan bawb am Dduw, oedd ddigonol, ped fuaſent hwy yn eu hiawn ddefnyddio, iw cadw rhag dianrhydeddu y Duwdod, trwy addoli 'r creaduriaid yn lle 'r Creawdr. Ir oedd goleuni natur yn ddigonol er dangos iddynt wrthuni a drygioni y gweithredoedd aflan, annaturiol, ag ir oedd llawer yn eu myſc yn euog o honynt. Ond hwy a gauaſant i

fynu, ag a fygaſant y gwirionedd yn dra chamweddus, ag ni oddefent iddo gael ei hiawn a phriodol effaith arnynt. A dyma 'r peth a'u gadawodd hwy yn aneſguſodol, i gallaſent hwy trwy oleuni natur wneuthur yn amgen, a chadw eu hunain oddiwrth y pechodau mawrion hynny, a oeddynt mor gyffredin yn eu plith. Ag os oedd hyn yn trymhâu euogrwydd annuwioldeb a drygioni y *Cenhedloedd*, ag yn eu *gadael yn ddieſcus*, pa beth a ellir ei ddywedyd ym mhlaid annuwioldeb ag anghyfiawnder Criſtianogion? Y rhai ſydd ganddynt oleuni mor grŷf ag mor eglur i ganfod eu dyledſwydd, a'r perygl a'r enbydrwydd o'i heſceuluſo. I ba rai *i mae digofaint Duw, wedi ei heglur ddatguddio o'r neſoedd, yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion.*

I mae gwirioneddau 'r efengyl mor eglur a nerthol, ag yn gyfryw wellhâd a rhagoriaeth ar oleuni naturiol, ag i rhaid i ddynion arferyd trais a chymmelliad cyn i gallont eu lluddias a'u hattal, a lleſtair iddynt weithio ar eu buchedd a'u hymarweddiad. Ac i mae hon yn rheol ſicer

a diam-

a diammau, mai po mwyaf fo ein gwybodaeth, lleiaf oll fydd ein heſcus, a mwyaf oll fydd ein coſpedigaethau am ein beiau a'n pechodau. Felly i mae ein Harglwydd yn dywedyd wrthym, *Y gwâs hwnnw, yr hwn a wybu ewyllys ei Arglwydd, ag nid ymbarattôdd, ag ni wnaeth yn ol ei ewyllys ef, a gurir a llawer ffonnod.* Ac meddai ef wrth yr *Iuddewon, Pe deillion fyddech, ni byddai arnoch bechod.* Cymmaint a fo o anwybodaeth gennym am ein dyledſwydd, cymmaint a hynny i tynnir ymmaith oddiwrth euogrwydd ein pechod. *Ond os o'n gwirfodd i pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd, nid oes aberth dros bechod wedi ei adael mwyach, eithr rhyw ddiſgwyl ofnadwy am farnedigaeth ag angerdd tân, yr hwn a ddifa 'r gwrthwynebwyr.*

Nid oes gennyf ddim iw chwanegu ond deiſyf ar Dduw mawr roddi grâs i bob un o honom, i yſtyried yr hyn a ddywedpwyd yn bwyllog; ag felly i ymholi ein hunain a chyflwr ein heneidiau, megis i gallom ffoi rhag y llîd a fydd, a bod pob enaid o honom yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Ieſu; yr hyn Duw mawr o'i anfeidrol

anfeidrol drugaredd a'i caniatto, er mwyn ei gyfryngdod a'i haeddedigaethau ef: Ir hwn gyda'r Tâd a'r Glân Yſpryd, i bo, ſel i mae yn ddyledus, pob mawl, anrhydedd, gogoniant, a gallu, yr awr hon ag yn oes oeſoedd. *Amen.*

PREG.

PREGETH VIII.

Ioan xii. 48.

Yr hwn ſydd yn ſy nirmygu i, ag heb dderbyn ſy ngeiriau, i mae iddo un yn ei farnu: y gair a leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf.

ER i ddynion annuwiol ddirmygu Duw a chrefydd, ag awdurdod ei air cyſſegredig, ag er iddynt arfer ei enw gydac ammarch halogedig, ef a'i gelwir hwy-ryw ddiwrnod i gyfrif caeth a thoſt am yr yſceler ddireidi yma. Dyweded a meddylied y pechadur afradlon, anghredadun, y peth a fynno, i mae yn rhaid i owyllys Duw ſefyll; *nêf a daear a ânt heibio, ond ei air ef nid â heibio byth.* Yr hyn a ddywedodd ef a ddaw i ben, a phan ddarffo i'r pethau hyn i gyd ymddattod, i mae 'n rhaid ini ſefyll neu ſyrthio yn ol yr efengyl ir ym ni yn ei phroffeſu, a'r defnydd da neu ddrwg a wnelom ni o honi. Felly

i mae

i mae ein Iachawdwr ei hun, yr hwn a fydd farnwr, yn dywedyd wrth yr *Iuddewon* anghredadun, ac ynddynt hwy wrthym ninnau.

Hwy a wnaethant gymmaint ac allaſent i wanhau gallu a rhinwedd ei ryfeddodau a'i athrawiaeth. Hwy a gablaſant y naill, gan ddywedyd, mai Dewin oedd, yn gweithredu ei ryfeddodau, nid trwy fŷs Duw, ond trwy gymmorth diafol. Hwy a wadaſant awdurdod ei athrawiaeth, gan ddywedyd, mai nid ef oedd y Meſſiah oedd ar ddyfod, ond mai hudol oedd a thwyllwr y bobl; er iddo ddywedyd fod ganddo ganniattâd a gorchymyn oddiwrth Dduw, am yr hyn ir oedd ef yn ei wneuthur a'i ddyſcu. Am ei ryfeddodau, hwy a allaſent ganfod gallu Duw ynddynt, megis i mae ef yn mynegi iddynt; *Yr hwn ag ſydd yn ſy ngweled i, ſydd yn gweled yr hwn a'm danfonodd i*; yn y rhyfeddodau ir wyf yn eu gwneuthur, i mae gallu Duw fy nhâd yn weledig. Am ei athrawiaeth i mae ef yn ſiccrhau iddynt, fod ganddo ef awdurdod arbennig oddiwrth Duw, am bob mymryn ac ir oedd yn ei ddyſcu iddynt. *Canys myfi ni leferais o honof fy hun, end y*

Tâd,

Tâd, yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes orchymmyn i mi, beth a ddywedwn, a pheth a lefarwn. — Yn gymmaint ag mai credu ynddo ef oedd credu i Dduw, awdurdod yr hwn oedd gantho, ac athrawiaeth yr hwn ir oedd yn ei dyſcu. Felly i mae Chriſt yn mynegi iddynt; *yr hwn ſydd yn credu ynnof fi, nid yw yn credu ynnof fi, ond yn yr hwn a'm danfonodd i.* Dyma 'r cyfrif i mae yn ei roddi am dano ei hunan a'i athrawiaeth, ond os hwy a'u gwrthodent, i mae ef yn rhagfynegi eu tynged. *Yr hwn ag ſydd yn fy nirmygu i, ag heb dderbyn fy ngeiriau, i mae iddo un yn ei farnu: y gair yr hwn a leferais i, hwnnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf.* — Pa eiriau, wedi eu hegluro, ydynt yn dwyn yr arwyddoccâd hwn; ſef, megis ag i cyfodai y gyfraith a draddodwyd gan *Foſes* mewn barn yn erbyn yr Iuddew anghredadun, i'r hwn i traddodwyd, felly yr efengyl a ddatguddiwyd gan Griſt, y geiriau a lefarodd ef, a gyhuddant yn y farn yr anghredadun, i'r hwn i pregethwyd, ag a'u heuog farnant ef am y dirfawr ddirmyg o'r hyn a amcanwyd er ei iechydwriaeth, a'r hyn a ddaeth gydac awdurdod Duw atto. Hyn a fydd gyhuddiad

gorthrwm

gorthrwm yn erbyn pawb oll ag ſydd yrawron yn byw mewn diyſtyrwch ac anufudd-dod i efengyl Griſt.

Dyma yſtyr cyffredinol geiriau ein Iachawdwr yn y teſtun. Oddiwrth ba rai, wedi eu hamlygu yn y môdd hyn, i mae bẽth dwys yn tarddu yn gofyn ein difrifol yſtyriaeth a'n myfyrdod.

Yn *gyntaf*, Fod yn rhaid ini Griſtianogion, y rhai ydym yn byw dan drugareddau yr efengyl, roddi cyfrif yn y dydd diweddaf am ein hymddygiad dan yr ordinhâd honno. Canys er i ddynion fod mor afraſlon a dirmygu efengyl Criſt yma, hi a dyſtiolaetha iw herbyn, ac a gyhudda ei dirmygwyr yn ddwys, *a honno a'u barn hwy yn y dydd diweddaf.*

I mae pawb o honom yn gobeithio ac yn diſgwyl i daw Criſt i farnu 'r byw a'r meirw; ag i mae 'r gobaith a'r diſgwyliad yma, wedi eu ſeilio ar ddilys a diball awdurdod gair Duw ei hun. Canys fel i mae 'r yſgrythurau yn mynegi yn amlwg ini am ddyfodiad Criſt yn y cnawd, i *brynu* 'r byd, felly trwy 'r un awdurdod i mae yn amlwg ag yn ſiccr ini, i daw ef yn ei bryd da ei hunan drachefn, i *farnu* 'r bŷd.

'r bŷd. Yr angylion ſantaidd, y rhai a fyddant gydac ef yn y dydd diweddaf, a roddaſant ſiccrwydd o'i ail ddyfodiad iw ddiſgyblion ar ei eſcynniad. *Chwi wŷr o Galilea, pa ham i ſeſwch yn edrych tua 'r nêf? Yr Ieſu hwn, yr hwn a gymmerwyd i fyny oddiwrthych i'r nêf, a ddaw felly yn yr un modd ag i gwelſoch ef yn myned i'r nêf.* Am hynny, nyni a ddylem ni Griſtianogion yn bennant yſtyried, i geilw Duw ni i gyfrif manwl am holl drugareddau 'r efengyl, am y talentau hynny o râs a ymddiriedwyd ini ir ym ni yn attebol uwch pawb o ddŷnol ryw.

Criſt yn ei gnawdoliaeth a ddaeth i'r byd i achub pechaduriaid; ef a ddaeth a *newyddion da o lawenydd mawr*, a chynnygion ac ammodau heddwch i eneidiau colledig. Ei fwriad y pryd hynny oedd, *dwyn gogoniant i Dduw yn y goruchafion, ag ar y ddaear heddwch, ewyllys da tuac at ddynion.* Yn y modd yma i gadawodd ef y Tâd, ac i daeth i'r byd a chennadwri o râs a thrugaredd; a phan ymadawodd ef a'r bŷd, a myned at y Tâd, ef a adawodd y cyfryw foddion grâs yn ein dwylo, y rhai, os iawn

ddefnyddiwn ni, a rydd ini obaith diball o ogoniant. A phan ddelo ef drachefn, mewn gallu a gogoniant mawr, ef a ofyn gyfrif caeth gennym ni am ddirmygu a chamatferu yr holl drugareddau hyn.

Dyma yr hyn i mae ein Iachawdwr yn ei feddwl wrth ddammeg y talentau. Y gweiſion a rawn ddefnyddiaſant y talentau a ymddiriedwyd iw gofal, a roddaſant eu cyfrifon i fyny gyda llawenydd a chyſſur, ag a gawſant y ganmoliaeth oedd ddyledûs iddynt, a derbyniad i lawenydd eu Harglwydd. — Ond y gwâs anfuddiol, yr hwn a ddychwelodd ei dalent yn ei hôl heb ei defnyddio, a elwir i gyfrif toſt; i mae ei Arglwydd yn rhoddi iddo y gair o fod yn wâs drwg a diog; ag yn cymmeryd y dalent oddiwrtho, megis un anghymmwys i ymddiried iddo am y cyfrywbethau, ac yn peri ei daflu i'r tywyllwch eithaf, i le o boen anaeleu, *lle ir oedd wylofain a rhincian dannedd.* I mae gennym ni yma gyffelybiaeth amlwg o ddydd y farn; i mae gennym ni oll dalentau wedi eu hymddiried ini, amrafaelion ddoniau Duw a'i drugareddau, a doniau grâs a natur; ir ym ni yn attebol am y rhain oll,

am

am y naill megis dynion, am y Hâll megis Chriſtianogion.—Os ymddengys wrth roddi cyfrif, ini iawn ddefnyddio doniou natur, yn cyflawnu dyledſwyddau ymarweddiad da: os ymddengys hefyd ein bod ni yn ffyddlon, yn iawn arferu moddion grâs, ein bod ni yn wreſog, yn ddiwyd, yn ddianwadal, ac yn ddiffuant yn ymarfer duwioldeb, ac ynghyflawniad dyledſwyddau criſtianogol; os darfu i ni yn y modd hyn, fucheddu tuac at ogoniant ein Harglwydd a'n hathro yma, ni a gawn ein derbyn iw lawenydd gyda 'r ganmoliaeth honno, *da wâs da a ffyddlon, dôs i mewn i lawenydd dy Arglwydd.*

Ond o'r gwrthwyneb, os darfu ini fathru tan draed waed y cyfammod megis peth aflan, os darfu ini ddirmygu trugareddau 'r efengyl, a gwrthod cynnygion grâs, gan anghredu 'r addewidion, ag anufuddhau gorchymynnion ein Harglwydd, y ſarhadau yma a wnaethpwyd yn erbyn cariad a thrugaredd, a'n gwnânt ni yn fwy euog na phe troſeddaſem ni y gyfraith foeſol yn unig. Yn y dydd diweddaf, Duw a'n geilw ni i gyfrif, nid yn unig am dorri cyfreithiau a throſeddu gorchymynnion, ond hefyd

am dorri ammodau, a chamarferu trugareddau, ac yn ddiau y diweddaf a fydd anefguſodol. Ac i mae yn eglur, i cawn ni Griſtianogion, ein barnu yn ol yr efengyl ir ym yn ei phroffeſu: oddiwrth yr hyn i mae 'r Apoſtol yn ei ddywedyd am yr *Iuddew* a'r *Cenedlig*; *Oblegid, cynnifer ac a bechaſant yn ddiddeddf, a gyfrgollir hefyd yn ddiddeddf; a chynnifer a bechaſant yn y ddeddf, a fernir wrth y ddeddf.*

Nid wrth yr un rheol i barn Duw bawb oll; canys i mae ef yn Dduw cyfiawn cyſdal a thrugarog, ag ni ddiſgwyl gymmull lle nis gwaſcarodd. Felly i mae 'r Apoſtol yn yſpyſu ini yn y lle a grybwyllwyd uchod, *cynnifer ac a bechaſant yn ddiddeddf*; hynny yw, cynnifer oll o'r byd *cenedlig* ag a bechaſant yn erbyn deddf natur, a gyfrgollir, ond ni chânt hwy eu galw i gyfrif am dorri cyfraith *Moſes*; hwy yn unig a gânt eu colli am beidio cadw cyfraith natur, gan nad allai cyfraith *Moſes* eu cyrraedd hwynt. Ac medd yr Apoſtol drachefn, *cynnifer ac a bechaſant yn y ddeddf a fernir wrth y ddeddf.* Yr *Iuddewon* anghredadun a dderbynniaſant gyfraith *Moſes*, a'r holl freintiau oedd ynglŷn wrthi, ag etto ni chadwaſant y gyfraith

gyfraith honno, a fernir wrthi. Felly i dywaid ein Iachawdwr ei hun, *I mae genuych un a'ch cyhudda, ſef* Moſes. Yn gymmaint a bod yr hyn ac i mae ein Iachawdwr yn ei ddywedyd am yr anghredadun, yr hun ſydd yn gwrthod yr efengyl pan bregethir a phan gynnygir iddo, i daiff ef ei farnu yn y dydd diweddaf wrthi hi; yr un modd a'r *Cenhedlig* wrth ddeddf natur, a'r *Iuddew* wrth gyfraith *Moſes*. Dyma 'r yſtyriaeth y cyfan oll. Y *Cenhedloedd*, cynnifer ag nad oes ganddynt ddeddf arall ond deddf natur, a gânt eu barnu yn ol y ddeddf honno, yn y dydd diweddaf; a'r *Iuddew* a gaiff ei farnu wrth ddeddf *Moſes*; felly yn gyfattebol, nyni Chriſtianogion a gawn ein barnu wrth yr efengyl, deddf Criſt. Hon a fydd nerthol i'n hachub neu i'n colli yn dragywydd; i mae yn rhaid ini ſefyll neu ſyrthio wrth y dyſtiolaeth a ddŵg hon am danom.

I mae gan hynny, yn beth o fawr bwys ini, ar gymmeryd o honom ofal dichlyn na wrthwynebom ni yn wrthnyſig, ag na anufuddhaom un rhan o'r efengyl, wrth yr hon i'n bernir. Megis ac i mae 'r graig yn ſefyll yn ddiſigl ag yn ddiyſcog,

felly i mae gair Duw yn ſefyll tros byth; pan fom ni yn ei eſceuluſo, a'i ddirmygu, ag yn pechu iw erbyn, ni a gawn ein cyfrgolli ganddo. Felly i mae 'r Prophwyd *Eſay* yn dywedyd wrthym, i byddai yr efengyl *yn faen tramcwydd, ac yn graig rwyſtr, yn fagl ag yn rhwyd*, i bawb ag ſydd yn ei anghredu ag yn anufuddhau iddi. Gair Duw y ſydd ag a fydd ry galed a thrêch na balchder dynion; pa mwyaf i gwrthwynebwn ni ef, cryfaf oll ir ymddengys ef yn ein colledigaeth. Yr enaid a ymoſtwng iddo, a gaiff ei achub ganddo, ond yr hwn ſydd yn gwrthryfelu iw erbyn, a fydd ficcr o gael ei golli.

Gan hynny, o ran nad yw gair Duw yn dyfod at nêb o honom yn ofer, ond ſydd yn rhoddi gogoniant i Dduw, naill ai trwy ein troi neu ynteu ein caledu, i mae meddaf, yn beth o ddirfawr bwys ini ddyfod atto gyda thymmer addfwyn a goſtyngedig, ac ymroadau ffyddlon i ufuddhau iddo. Yſtyriwch pa mor ynfyd a gwallgofus yw, i falchder ac yſtyfnigrwydd dyn ymryſon a gallu a chyfiawnder Duw, a'i drugaredd yn yr efengyl. *Dyma*, medd ein Iachawdwr, *y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r*

i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni. Nid am nad oedd damnedigaeth yn y byd o'r blaen, pan oedd yn gorwedd mewn tywyllwch a drygioni, ond etto nid oedd mewn cymmaint damnedigaeth a honno, ag ſydd yn dyfod oddiwrth ddirmygu trugaredd Duw yn yr efengyl.

Pan fo meddyginiaeth yn methu iachau clefyd, yna angau a ddaw ar ddyn gyda mwy o boen ag yn ebrwyddach. Po mwyaf fo argyhoeddiad pechod, mwyaf oll fydd o ddigofaint yn ei erbyn, os na ragflaenir trwy wir edifeirwch. Nid oes un farn mor ofnadwy na honno ag ſydd yn tarddu allan o drugaredd wedi ei hadnabod, a'i chynnyg, a'i dirmygu. Pob gorchymmyn o eiddo 'r efengyl, ac a wyddom ni ei fod yn ddyledſwydd arnom ei ufuddhau; pob adeiladaeth ac ir ym ni yn ei chael oddiwrth weinidogaeth yr efengyl; pob rhybudd a gwaharddiad yn erbyn calon galedwch a gwrthnyſigrwydd; pob annogaeth i gyflawnu ein dyledſwydd; os gwrthwynebwn ag os mygwn ni hwynt mewn anghyfiawnder, ſydd yn gorwedd megis

megis tân wedi ei ddyhuddo mewn lludw, yn guddiedig dros amſer, ond yn y dydd diweddaf ef a gynneu yn dân anniffoddadwy. Pa uffern a fydd hi y pryd hynny, pan fo 'r gair a'n rhybuddiodd ni i ffoi rhag y llîd a ffydd, yn ein barnu ni iw ddwyn! pan fo pôb cynnyg o drugaredd a wrthodaſom; pob bygythiad o lidiawgrwydd a ddirmygaſom; pob gwahoddiad ag erfynniad yr efengyl i edifarhau a gwellhau ein buchedd, a eſceuluſaſom; yn ein dilyn o flaen gorſeddfainc Criſt, i dyſtiolaethu i'n herbyn, ac i dân uffern i ddannod ini ein damnedigaeth.

O gan hynny, nad yſtyriai dynion ddychrynniadau 'r Arglwydd, a chymmeryd eu cynghori i edifarhau a gwellhau eu bucheddau, a bod mor ddoeth a pheidio ag arfogi trugaredd wedi ei chamarferu a'i dirmygu iw herbyn. I mae 'r efengyl, megis ei hawdur, yn llawn o râs a daioni. Iechydwriaeth oedd diben mawr dyfodiad ein Iachawdwr i'r byd, megis i mae ef yn tyſtio ei hunan; *ni ddaethum i farnu 'r byd, ond i achub y byd.* Gadewch gan hynny i Grift a'i efengyl gael eu dibennion graſol arnom,

arnom, trwy uniawnu ein ffyrdd, a diwygio a gwellhau ein bucheddau, megis i gallom ei waſanaethu ef yma a chael ein hachub ganddo yn y dydd diweddaf. Yr hyn Duw mawr hollalluog ganiatto ini oll mewn iawn bryd ac amſer; &c. *Amen.*

PREGETH IX.

Ioan xv. 5.

Myfi yw 'r winwydden, chwithau yw 'r canghennau, yr hwn ſydd yn aros ynnoſi a minnau ynddo yntau, hwnnw ſydd yn dwyn ffrwyth lawer: oblegid heboſi ni ellwch chwi wneuthur dim.

IMAE ein Iachawdwr yn nechrau 'r bennod hon, yn cyffelybu ei gorph, dirgeledig ſef ei eglwys, i winwydden, yr hon a blannodd ei Dâd, yr hwn i mae ef yn ei gyffelybu i lafurwr. *Myfi yw y wir winwydden, a'm Tâd yw 'r llafurwr.* Er mwyn dangos ini yr undeb ſydd rhwng Criſt a phawb o'r gwir Griſtianogion, a'r rhinwedd i maent yn eu thynnu a'u derbyn oddiwrtho, i mae ef yn goſod hynny allan drwy gyffelybiaeth gwinwydden a'i changhennau. Megis i mae undeb naturiol a bywiol rhwng y winwydden a'r canghennau, felly i mae undeb yſprydol a bywiol rhwng

rhwng Crift a gwir Griftianogion. A'r undeb yma yw achos ein ffrwythlondeb mewn gweithredoedd ufudd-dod a buchedd dda.

I mae yn ddiau, rai ag fydd yn edrych megis ped faent wedi eu himpio yn Ghrift trwy broffes o'r grefydd griftianogol oddiallan, y rhai nid ydynt er hynny yn tynnu dim rhinwedd oddiwrtho, modd i dygont ffrwyth; o herwydd nad oes dim undeb bywiol rhyngddynt: y rhai hyn a yfcythra 'r llafurwr, ac a'u tynn ymmaith megis canghennau anufuddiol gwywedig. *Pob cangen ynnofi heb ddwyn ffrwyth, i mae ef yn ei thynnu ymmaith:* hynny yw, y rheini ag fydd yn unig yn gwneuthur proffes o ffydd yn Ghrift oddiallan, ond nid ydynt yn dwyn ffrwythau ufudd-dod a buchedd dda, a gânt eu gwahanu o'r diwedd oddiwrtho: *a phob un a ddygo ffrwyth, i mae ef yn ei glanhau, fel i dygo fwy o ffrwyth.* Ac o herwydd fod ein holl ffrwythlondeb yn dyfod oddiwrth ein hundeb a Chrift, megis i mae ffrwythlondeb y cangennau yn dyfod oddiwrth eu hundeb a'r winwydden, am hynny i mae ef yn erchi ini ofalu am gadw a chynnal yr undeb yma. *Arhofwch*

wch ynnoſi a mi ynnoch chwi. Ef a'n plannwyd yn Ghriſt trwy ffŷdd a chrêd iw athrawiaeth; ag ir ym ni yn aros ynddo ef trwy fwriad ag ymroad diymmod o ufudd-dod. Felly i dywedir fod y rheini yn aros ag yn parhau yngair Criſt, y rhai ſydd yn ufuddhau ag yn defnyddio ei athrawiaeth. Ioan viii. 31. *Yna i dywedodd yr Ieſu wrth yr Iuddewon, a gredaſent ynddo, os arhoſwch chwi yn fy ngair i, diſcyblion imi ydych yn wir.* Felly i mae St. *Iago* yn ei egluro i. 25. *Eithr yr hwn a edrych ar berffaith gyfraith rhydd-did, ag a barhao ynddi, hwn, heb fod yn wrandawr anghofus, ond gwneuthurwr y weithred, efe a fydd ddedwydd yn ei weithred.* A'r 1 Ioan iii. 6. *Pob un ar ſydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu. — Arhoſwch ynnoſi a minnau ynnoch chwithau.* Ef a ddywedir fod Criſt yn aros ynnom, drwy gynnorthwyon a gweithrediadau gwaſtadol ei râs a'i yſpryd: ag os arhoſwn ni ynddo, drwy ymroi ufuddhau, ei râd a'i gymmorth a ganiatteir i ni yn waſdad, i ddwyn yr amcan daionus hwn i benn, ag i'n nerthu ni i ddwyn ffrwyth. O herwydd, *megis na all y gangen ddwyn ffrwyth o honi ei hun,*

onid

onid erys yn y winwydden, felly ni ellwch chwithau, onid arhoſwch ynnoſi, oblegyd heboſi ni ellwch chwi wneuthur dim.

I mae dau beth iw heglurhau yn y geiriau, cyn i delwyf at yr addyſc a gynnwyſir ynddynt.

Yn *gyntaf*, Pa beth a ddeallir yma, trwy fod *allan o Griſt*, neu, *wedi ein gwahanu oddiwrtho.*

Yn *ail*, Ym mha yſtyriaeth, a pha mor bêll ir ym ni i ddeall yr ymadrodd hwn, *allwn ni ddim.*

Yn *gyntaf*, Pa beth a ddeallir oddiwrth fod *heb Griſt*, neu *allan o hono.*

Heboſi ni ellwch chwi wneuthur dim: hynny yw; oni byddwn wedi ein huno ag ef, a'n bod trwy rinwedd yr undeb honno yn tynnu cymmorth a nerth goruchnaturiol oddiwrth ei râs, *ni allwn ni wneuthur dim.* Gwir yw, nad allwn ni wneuthur dim heb Dduw. Nid allwn ni na meddwl, na ſiarad, na gwneuthur un weithred naturiol arall, heb gymmorth cyffredinol ei ragluniaeth; *oblegid ynddo ef ir ym ni yn byw, yn ſymmud, ag yn bod.* Y cymmorth yma ſydd naturiol a chynnefin, ag a ganiatteir

yn gyffredinol i bôb dyn o'r byd. Ond i mae grâs a chymmorth Criſt, yn arwyddoccau rhywbeth anghyffredin a goruchnaturiol; yr hyn a eilw difinyddion, grâs yſprydol; o ran gwahaniaeth oddiwrth gymmorth cyffredinol rhagluniaeth Dduw yn gweithredoedd dynion.

Yn *ail*, Ym mha yſtyr, a pha mor belled, ir ym ni i ddeall yr ymadrodd hwnnw, *heboſi ni ellwch chwi wneuthur dim.*

Ac i mae yn rhaid ini gynnwys hyn o fewn y gweithrediadau hynny, ag ir oedd ein Iachawdwr yn adrodd yn eu cylch, ſef priod weithredoedd buchedd griſtianogol, ufudd-dod i gyfreithiau a gorchymynnion yr efengyl; yr hyn a eilw ein Iachawdwr yma, gan ganlyn y gyffelybiaeth, *dwyn ffrwyth*, a *dwyn ffrwyth lawer*. O herwydd oni chynnwyſir o fewn y terfynau yma, ond a ddeallir ymmhellach am bob math o weithredoedd naturiol a chyffredin, nid gwir yw, nad allwn ni wneuthur y rhain heb gymmorth yſprydol a grâs Criſt; o herwydd ni allwn wneuthur y rhain drwy gymmorth cyffredin Duw, a ganiatteir yn unwedd i bawb. Ie yn ychwaneg, ni a allwn

allwn drwy y cymmorth cyffredin yma, wneuthur y gweithredoedd hynny ag ſydd yn tueddu tuac at beri ini i fod yn yſprydol dda, ag ydynt y moddion a ordeiniodd Duw i'r diben hwnnw. Ni a allwn fyned i'r eglwys, ni a allwn wrando a darllen gair Duw, a thrwy wrando ni a allwn fyfyrio ar weithredoedd ein bywyd, ag ni a allwn gael ein hargyhoeddi am bechod a'i enbydrwydd, a thrwy 'r argyhoeddiad hyn, ni a allwn weddio am drugaredd a grâs Duw, i ddiwygio a gwellhau. Ond er hyn oll, ni allwn ni gyflawnu hyn yn hollol heb râs a chymmorth yſprydol; yn gymmaint a bod yr ymadrodd a gynnwyſir yma yn y teſtun, yn amgyffred adenedigaeth, ſanteiddiad, a pharhâd mewn ſanteiddrwydd; na ddichon dyn wneuthur ei hunan yn da; na dichon ef droi a'i newid ei hunan, na pharhau, na dâl allan mewn helynt buchedd dda, drwy ei nerth ei hunan; ni allwn ni wneuthur dim mo 'r pethau hyn, heb râs a chymmorth Criſt. Yn gymmaint ac mai eglur amcan yr ymadrodd yma yn y teſtun yw, dangos angenrheidrwydd grâs yſprydol i beri ini fod yn ddynion da, ag

i barhau mewn helynt o ſanteiddrwydd ag ufudd-dod.

Wrth ymadrodd ar y pwnc yma, myfi a ddangoſaf

Yn *gyntaf*, Pa beth ym ni yn ei ddeall trwy râs a chymmorth yſprydol Criſt.

Yn *ail*, Fod yr yſgrythur yn waſdad yn dangos, mai oddiyma i mae adenedigaeth, ſanteiddiad, a pharhâd mewn ſanteiddrwydd, yn deilliaw.

Yn *drydydd*, Fod achos mawr i haeru angenrheidrwydd yſprydol râs a chymmorth Duw, i'r dibennion hyn.

Yn *bedwerydd*, Nad yw 'r grâs a'r cymmorth yſprydol yma, yn llyſu ein hymroadau ni, ond yn eu cynnwys.

Yn *bummed*, Fod y grâs a'r cymmorth yma, yn deillio ini oddiwrth ein undeb a Chriſt.

Yn *gyntaf*, Pa beth ym ni yn ei feddwl trwy râs a chymmorth yſprydol Criſt. Pa allu anianol bynnag ſydd gennym i wneuthur unrhyw beth, ſydd yn dyfod oddiwrth Dduw, ac i mae yn effaith o'i ddaioni ef: ond Duw, gan yſtyried cyflwr ſyrthiedig ag adfeibedig dynol ryw, a ddanfonodd ei fab i'r byd, i'n hadfer ni,

ag

ag i'n gwaredu allan o'r cyflwr pechadurus a thruenus hwnnw, i ſyrthiaſom ni iddo; i ddatguddio bywyd tragywyddol ini; ag i brynu dedwyddwch, ag iw gynnyg inj ar ammodau pennodol iw cyflawnu gennym ni. Ond gan ein bod ni yn weinion ag heb nerth, yn gaethweiſion i bechod a than allu arferion drwg, heb fodd gennym i'n rhyddhau ein hunain oddiwrth y caethiwed yma, trwy ein nerth naturiol ein hunain; ein Iachawdwr bendigedig, mewn mawr doſturi a thynerwch tuac at ddynol ryw, a gynnygiodd yn ei efengyl ganiattau ini gymmorth anghynnefin, a grâs ei lân yſpryd, i ddiwallu ein gallu a'n nerth naturiol ni. A'r grâs yſprydol hwn, eiddo Criſt, ydyw yr hyn yn unig a ddichon ein nerthu ni i gyflawnu yr hyn i mae yn ei ofyn gennym; ag i mae arno amrafael enwau, yn ol yr amryw ddefnyddiau a dibennion i mae yn eu hatteb. Megis i mae yn peri cynnyrfiadau da ynnom, ag yn ein deffroi a'n hannog i'r hyn ſydd dda, ef a'i gelwir grâs rhagflaenol, o herwydd ei fod yn rhagod pob cynnwrf neu ymgais o'n parth ni: megis ag i mae yn ein cynnorthwyo a'n nerthu i wneuthur

un peth da, ef a'i gelwir grâs cynnorthwyol: megis ac i mae yn ein cadw yn gyſon mewn helynt ddaionus, ef a'i gelwir grâs parhaus: ac fo ddichon gael ei gyfenwi mewn amryw foddau eraill, yn ol yr amryw bethynaſau a'r dibennion i mae yn eu cyfatteb; o herwydd i mae wedi drefnu er mwyn pob achos ag anghenrhaid.

Yn *ail*, I mae 'r yſgrythur yn gyfannaidd yn dangos, mai oddiyma i mae adenedigaeth, ſanteiddiad, a pharhâd mewn ſanteiddrwydd yn deilliaw. Ef a ddywedir, *Ein bod ni yn tael ein geni o'r yſpryd; a'n bod ni yn cael ein ſanteiddio drwy adnewyddiad yr yſpryd glân*; a'n bod *ni yn cael ein tywys gan yſpryd Duw*; a'n bod *ni trwy yr yſpryd yn marwhau gweithredoedd y cnawd*; a'n bod *ni yn gallu pob peth, drwy Griſt yn ein nerthu*; a'n bod *ni yn cael ein cadw trwy allu Duw, trwy ffydd, i iechydwriaeth.* Pa deſtunau, ynghyd ag amryw eraill a ellwn enwi, ydynt yn eglur ddangos ini, gymmorth yſprydol Criſt; trwy ba un ir ydym yn dyfod yn ddynion da, ag yn cael nerth i weithredu yr hyn ſydd dda, ag i'n cedwir ag i'n cynnelir mewn helynt ddaionus drwy holl yſtod ein heinioes.

Megis

Megis ac i mae 'r yſgrythur ymmhob mann yn bwrw ein pechod ar ein calonnau llygredig, ag ar brofedigaeth ag annogaeth y diafol, felly i mae hi yn waſdad yn cyfrif fod yr holl ddaioni a wnelom yn deillio oddiwrth râs Criſt; neu mewn geiriau eraill, oddiwrth gynnyrfiadau a chynnorthwyon bendigaid yſpryd Duw, o herwydd yſpryd Duw a elwir yſpryd Criſt, Rhuf. viii. 9, 10. *Eithr chwychwi nid ydych yn y cnawd, ond yn yr yſbryd, od yw yſbryd Duw yn trigo ynoch. Ag od oes neb heb yſbryd Criſt ganddo, nid yw hwnnw yn eiddo ef. Ag os yw Criſt ynoch, i mae 'r corph yn farw o herwydd pechod.*

Yn *drydydd.* I mae mawr achos i ddal angenrheidrwydd grâs a chymmorth tuac at y dibennion hyn, pa un bynnag a wnawn ni, ai yſtyried llygredigaeth ag anallu natur ddynol, nerth rhyfedd arferion a chynneddfau drwg, anwadalwch ag yſcafnder dyn, a malais a phryſurdeb y diafol, yn ein denu a'n hudo ni i bechu.

Yn *gyntaf.* Os yſtyriwn ni lygredigaeth ag anallu natur ddynol. I mae hyn yn amlwg oddiwrth oleuni natur. Ir oedd y doeth on cenedlig yn canfod llygredigaeth

ddirfawr

ddirfawr ein heneidiau, a'u dieithrad oddiwrth fuchedd ddwyfol; ag am hynny hwy a ddychymmygafant amryw foddion a ffyrdd i lanhau ein heneidiau, a'u dyrchafael i'r purdeb a'r perffeithrwydd hynny i bwriadwyd hwy iddynt. Ond ir oeddynt yn llwyr anghydnabyddus a dechreuad y llygredigaeth yma: ag am hynny, llawer o honynt a dybiafant fod yr eneidiau yn hanfod mewn rhyw gyflwr arall cyn iddynt ddyfod i'r cyrph marwol yma, ag iddynt gael eu carcharu ynddynt am y beiau a wnaethant yn y cyflwr hwnnw, yn goſpedigaeth arnynt. Nid allent hwy ddim feddwl i'n heneidiau ddyfod yn aflan o ddwylo Duw; ac am hynny, rhag meddwl o honynt beth mor anghyfaddas, hwy a dybiafant fod cyflwr arall o'r blaen ym mha un i darfu iddynt bechu.

Ond i mae 'r yſgrythur yn rhoddi ini hanes cywirach a ſiccrach ynghylch hyn; *mae trwy un dyn i daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod.* Dyma wir ddechreuad a ffynnon hollol lygredigaeth dynol ryw, ag o wendid ag anallu ein natur. Cwymp ein rhieni cyntaf a dynnodd lygredigaeth a gwendid ar holl ryw a hiliogaeth

gaeth Adda; o herwydd *pa beth bynnag a aned o'r cnawd, ſydd gnawd.* Yn gymmaint ag wrth yſtyried ein naturiol anallu, i mae dirfawr angenrhaid o allu a chymmorth yſprydol ag anghynnefin i'n rhyddhau ni oddiwrth y llygredigaeth yma, *ag i'n hadnewyddu yn ol delw yr hwn a'n creodd ni, mewn cyfiawnder a gwir ſanteiddrwydd.* Ag am hynny pan i mae 'r yſgrythur yn adrodd am brynedigaeth Criſt, i mae yn dangos fod ein cyflwr nid yn unig yn druenus, ond yn anobeithiol. *Canys Criſt, pan oeddym ni etto yn weiniaid, mewn pryd,* neu, mewn amſer cyfaddas, *a fu farw dros yr annuwiol.* Pan oedd dynol ryw mewn llwyr anallu i ryddhau eu hunain allan o gyflwr pechod a thrueni, ym mha rai i ſoddaſant eu hunain; *yn ghyfiawnder yr amſer,* hynny yw, pan welodd Duw fod yn gyfaddas, *efe a ddanfonodd ei fab i'r byd, i farw dros bechaduriaid; a thrwy yr yſpryd hwnnw ai cyfododd ef o feirw,* i'n nerthu ni i farwhau ein trachwantau, *ag i'n cyfodi i newydd-deb buchedd.*

Yn *ail.* Angenrhaid y grâs a'r cymmorth yma a ymddengys ymmhellach, os yſtyriwn ni ryfeddol allu arferion a chynneddfau

drwg.

drwg. I mae 'r naill yn naturiol, ag i mae 'r llall yn tarddu oddiwrth gynnefino. I mae arferion pechod wedi eu chwanegu at ein hanallu naturiol, yn debyg i glefydau wedi eu harddwyn ar gorph a ſo eiſioes yn anhwylus, ac yn niwyhau gwendid dyn.

Arferion drwg a gyffelybir yn yr yſgrythur i rwymau a geſynnau, y rhai ſydd yn attal dyn mor hollol rhag ſymmud a gweithredu, megis a phed ſai gloff ag anafus law a throed. I mae arfer a chynnefindra yn fath o ail natur; a chymhelled ag i bo uh peth yn naturiol, i mae hefyd yn angenrheidiol, ag ni allwn ni wneuthur yn amgen. Drwy fyned o un grâdd o ddrygioni i'r llall, i mae dynion yn dyfod yn ſefydlog ag yn galed mewn drygioni, ag i maent yn dyfod bob ychydig i'r cyflwr hwnnw, nad oes ganddynt na medr na gallu iw rhyddhau na 'u gwaredu eu hunain oddiwrtho. Pan ddarfyddo i ddynion barhau yn hir mewn helynt ddrygionus, ag ydynt wedi heneiddio mewn anwiredd, i mae mor anhawdd eu gwellhau a'u hatgyweirio, ag uniawnu corph wedi grymmu gan oedran, fel ir oedd gynt. Gwedi i ddynion hir ddal mewn helynt bechad-

bechadurus, i maent o braidd dan angenrhaid o fod yn ddrygionus, ac ni allant wneuthur dim tuac at eu gwaredu eu hunain.

I mae 'r yſgrythur yn darllunio cyflwr y cyfryw ddynion drwy bethau ag ſydd lwyr amhoſſibl; *A ddichon yr Ethiop gyfnewid ei groen, neu llewpart ei frychni?* Yrawron, yr yſtyriaeth hon wedi ei chwanegu at yr un arall o'r blaen, ſef, nerth arferion drwg at anallu natur, ſydd ymmhellach yn dangos angenrhaid grâs a chymmorth yſprydol tuac at ein gwaredu; o herwydd po mwyaf fo 'n hanallu ni, mwyaf oll yw eiſiau gallu a chymmorth anghynnefin i'n cynnorthwyo a'n nerthu i gyflawnu ein dyledſwydd.

Yn *drydydd*. Hyn a ymddengys etto ymmhellach, os yſtyriwn ni anwadalweh ac yſcafnder ymroad dynol. Gadewch i bechadur, wrth glywed bygythion dychrynadwy Duw yn erbyn pechod, neu o herwydd argyhoeddiad ei gydwybod yn ei gyhuddo am ei ddrygioni, ymroi (fel i mae achos da iddo) ag amcanu ymadael a'i helynt bechadurus; etto, mor egwan fyddai y bwriad hwn i wrthſefyll oyrch-

feydd

feydd nerthol profedigaeth, a dychweliad cryf ei dueddiadau ei hun at ei drachwantau o'r blaen! I mae yn agos bob dyn yn teimlo hyn drwy ei fynych, athriſt brawf ei hunan, mor anwadal yw ei feddwl yn ei amcanion, ag mor anffyddlon a thwyllodrus yn ei fwriadau mwyaf difrifol ag arbennig. Pa mor fradwrus ym ni ini ein hunain, ag i'r addunedau a'r addewidion a wnaethom i Dduw, ag i'n heneidiau ein hunain, pan fo odfeydd a phrofedigaethau i bechod yn ymgynnig ini! Yn gymmaint ag nad yw eiſiau grâs Duw ar un achos mor amlwg ag eglur, nag ydyw tuac at ein cadw yn ddiymmod yn ein bwriad o ymadael a'n pechodau, a gwellhau ein bucheddau: heb hyn ni a gawn weled pa mor anſiccr ag aneffeithiol yw ein holl fwriadau da; *megis cwmmwl y bore, ag megis gwlith y bore, yn myned ymmaith*; yn gymmaint ag i gallwn ddywedyd gyda'r Prophwyd *Jeremi*, x. 23. *Gwn, Argiwydd, nad eiddo dyn ei ffordd: nid ar law gwr a rodio, i mae llywodraethu ei gerddediad.*

Yn *bedwerydd.* Heblaw y rhwyſtrau hyn oll, oddiwrthym ein hunain, oddiwrth anallu ein natur, a grym ein trachwantau,

ag

ag anwadalwch ein hymroadau; i mae genym ni elyn galluog oddiallan; y diafol, yr hwn ſydd dra maleiſus a phryſur yn ceiſio ein diniſtr, drwy ein cadw yn ei gaethiwed.

Efe yw gelyn mawr ein heneidiau ni, ag ni âd ei ſalais ef iddo eſceuluſo un odfa o wneuthur ini niwaid. I mae ef yn nodi ag yn gwilio ein tymmer a'n tueddiad, ag yn eu defnyddio yn ein herbyn, yn y mann i bôm ni wannaf, a lle i gallant wneuthur i ni yr anaf mwyaf. Yn gymmaint ag nad ym ni yn unig yn weiniaid oddimewn ond ef a oſodir arnom yn nerthol oddiallan. *Ir ydym ni yn ymdrechu, nid a chig a gwaed; ond a thywyſogaethau, a galluoedd, a drygau yſprydol.* I mae holl alluoedd y tywyllwch wedi ymuno yn ein herbyn, i weithio ein diniſtr; ag am hynny, i mae arnom eiſiau nerth a chymmorth anghynnefin i'n cefnogi i ymdrech a'r fath wrthwynebwyr galluog tan gymmaint o rwyſtrau. A'n cyſſur ni yw, fod Duw yn cynnyg ei râs ini, ag *i mae hynny yn ddigon ini. Mwy yw yr hwn ſydd ynnom, nar hwn ſydd yn y byd.* Mae yr yſpryd, yr hwn ſydd yn preſwylio

mewn dynion da, ag ſydd barod iw cynnorthwyo yn eu holl ddibennion daionus, yn gryfach na'r yſpryd drwg, yr hwn ſydd yn y byd, ag *ſydd yn myned oddiamgylch fel llew rhadwy, gan geiſio y neb a allo iw traſlyncu.*

Yn *bedwerydd.* Nid ywr grâs a'r cymmorth yſprydol hyn yn llyſu, ond yn cynnwys ein hymroadau ein hunain. Nid yw grâs Duw yn gwneuthur y cyfan, heb ddim ymgais o'n parth ninnau. I mae yn ein nerthu ag yn ein cynnorthwyo, ond nid yw yn gorphen y cwbl, heb ryw ymdrech ag ymroad o'n rhan ninnau. Pan yw ein iachawdwr yn dywedyd; *heboſi ni ellwch chwi wneuthur dim,* ei feddwl yw, mae trwy gymmorth ei râs ef i gallwn gyflawnu holl ddyledſwyddau buchedd griſtianogol; *ni a ellwn ddwyn ffrwyth, a dwyn ffrwyth lawer.* Ag o ran dal at y gyffelybiaeth yn y teſtun, nid yw cangennau y winwydden yn aros yn llonydd heb wneuthur dim, ond i maent yn gwneuthur eu rhan, tuac at ddwyn ffrwyth, er eu bod yn tynnu cynnorthwyon gwaſdadol o fudd a rhinwedd y winwydden.

Pan

Pan yw 'r Apoſtol yn dywedyd, *Mi a allaf wneuthur pob peth trwy Griſt yn fy nerthu*, nid yw ef ddim yn meddwl ei fod yn ddirmyg i râs Criſt, ddywedyd i gallai ef wneuthur pob peth trwy ei gymmorth ef. I mae ef yn addef ei anallu a'i wendid ei hunan, ag i mae yn ymffroſtio yn nerth a chymmorth Criſt. Ond nid yw addefiad anallu yn llyſu neu yn cau allan ymroad; o herwydd nid yw anallu yn arwyddoccau llwyr eiſiau gallu, ond ei wendid a'i annigonolrwydd, ag nad yw gyfattebol i'r gorchwyl a'r ddyledſwydd a ofynnir. Yn gymmaint ag *er nad ym ni ddigonol o honom ein hunain tuac at ddim ag ſydd dda*; etto, trwy gael ein cynnorthwyo gan Dduw, nyni a allwn gyd-weithio gydac ef, tuac at lâdd pechod, a thuac at *lanhau ein hunain oddiwrth bob aflendid gnawd ag yſpryd*; a thuac at *berffeithio ſanteiddrwydd yn ofn Duw.*

Megis ag ir oedd yr Apoſtolion yn gydweithwyr a Duw yn iechydwriaeth rhai eraill; 2 Cor. vi. 1. *a ninnau gan gydweithio, ydym yn attolwg i chwi, na dderbynnioch râs Duw yn ofer:* megis ag ir oeddynt, meddaf, yn gydweithwyr a Duw yn

iechydwriaeth eraill, felly i gellir dywedyd, ein bod ninnau yn *gweithio allan ein iechydwriaeth ein hunain*; ie ef a orchymynnir ini fod felly: Philip. ii. 12, 13. *Gweithiwch allan eich iechydwriaeth trwy ofn a dychryn, canys Duw yw 'r hwn ſydd yn gweithio ynnoch ewyllyſio a gweithredu.* Yn gymmaint a bod grâs rhagflaenol a chynnorthwyol, *ei fod ef yn gweithio ynnom ewyllyſio a gweithredu*, ymmhêll oddiwrth lyſu a chau allan ein hymroadau ein hunain, a bod yr Apoſtol yn ei arferyd megis rheſwm cryf i'r gwrthwyneb; *gweithiwch allan eichi echydwriaeth eich hunain, canys Duw yw yr hyn ſydd yn gweithio ynnoch ewyllyſio a gweithredu o'i ewyllys da ef.* A phed na fai hyn felly, e fyddai holl gynghorion ag annogaethau yr yſgrythur yn ofer ag yn ddilês. *Ofer yn wir fyddai ein pregethiad ni, a'ch gwrandawiad chwithau*; o herwydd, na ddichon dim fod mor anfuddiol, ag annog dynion gyflawnu eu dyledſwydd, os gwir yw hyn, fod Duw yn gwneuthur y cwbl a ninnau heb wneuthur dim.

Yn *bummed* ag yn ddiweddaf. I mae 'r grâs a'r cymmorth yma yn deillio ini oddiwrth ein hundeb a Chriſt. Mor ebrwydd

ag

ag i credom ni ynddo, a derbyn o honom o ddifrif ei athrawiaeth, ef a'n hunir ag ef; ag os ym ni yn aros yn y ffydd hon, *ir ym yn aros yndde ef, ag yntau ynnom ninnau.* A thrwy rinwedd yr undeb yma, i mae gweithrediadau ei râs, a chynnorthwyon ei yſpryd, yn deillio ini tuac at holl ddibennion ſanteiddrwydd ag ufudd-dod, i'n *nerthu ni i wneuthur ewyllys Duw*, ag i barhau yn amyneddgar, i wneuthur daioni, ag *i'n cadw iw deyrnas nefol.* Nid oes un dirgelwch arall yn yr undeb yma, ond yr hyn a ſynegais yn eglur i chwi, ſef ei bod yn cael ei gweithredu trwy ddyfod o honom yn ddiſcyblion i Griſt, a derbyn o honom ei athrawiaeth yn ddiffuant; a'i bod yn cael ei chadw a'i chynnal trwy ddwyn o honom ffrwythau ſanteiddrwydd ag ufudd-dod. Trwy hyn ir ydym yn dyfod yn gangennau o'r wir winwydden honno; a thrwy fod felly, ir ym ni yn derbyn fudd a rhinwedd oddiwrtho ef, gweithrediadau bywiol ei râs a'i lân yſpryd, i'n cynnorthwyo ni yn ein dyledſwydd, ag i beri ini fod *yn ffrwythlon ymmhob gweithred dda, ag i amlhau yn holl ffrwythau cyfiawnder, y rhai ydynt trwy Ieſu Griſt, er mawl a gogoniant i Dduw.*

Ond pan wyf yn dywedyd fod y grâs a'r cymmorth yma yn dyfod inni oddiwrth ein hundeb, nid wyfi ddim yn bwriadu cau allan angenrheidrwydd grâs Duw a'i lân yſpryd, tuag at droedigaeth pechadur, a'i blanniad yn Ghriſt: Ond pan fom ni yn dywedyd fod Criſtianogion yn derbyn gweithrediadau grâs a chymmorth oddiwrth eu hundeb a Chriſt, i mae hyn yn dal, eu bod yn Griſtianogion eiſioes, a'u bod wedi eu plannu yn Ghriſt, ag mai gwaith grâs Duw yw hyn hefyd. O herwydd os nad allwn ni ddwyn ffrwyth heb gymmorth ei râs ef, llái o lawer i gallaſem ni gael ein plannu ynddo, a'n huno ag ef.

Mi a orphennaf fy ymadrodd ar y teſtun hwn, ag ychydig yſtyriaethau oddiwrth yr hyn a draethwyd.

Yn *gyntaf*. Os yw grâs Duw yn angenrheidiol tuac at ddibennion ſanteiddrwydd ag ufudd-dod, a thuac at barhâd mewn buchedd dda, yna i mae dirfawr achos paham i dylem bwyſo a hyderu yn waſdad ar Dduw, ag o weddio yn daer beunydd am gymmorth ei râs, a gweithrediad ei lân yſpryd, i'n tywys, a'n cyfarwyddo, a'n nerthu ym mhob daioni, ac *i'n cadw a'i nerthal allu,*

allu, trwy ſſydd i iechydwriaeth. Canys er i Dduw addaw ei gymmorth ini, a'i ſod yn waſdadol yn barod iw roddi, etto ni a ddylem gofio, mai goruchwyliaeth a chyfranniad rhâd o'i râs a'i ddaioni ydyw; *i mae ef yn gweithio ynnom ewyllyſio a gweithredu o'i ewyllys da ef.* Ag nid yw'n addewid o'r grâs hwn wedi ei wneuthur mor hollol a chyfangwbl, megis ped na ddiſgwyliau ini ofyn ag ymbil yn daer am dano. Ni addawodd ef ei lân yſpryd ond i'r ſawl *ſydd yn ei ofyn*; a hynny gyda mawr ddifrifwch a thaerni. Ie, lle i mae ef yn addaw *rhoddi calon newydd, ag yſpryd newydd*, i mae ef er hynny yn dywedyd, *am yr holl bethau hyn i mynnaſ ymofyn a mi gan dŷ Iſrael.* Ag er *i cair ef weithiau gan y ſawl nid ydynt yn ei geiſio*, a'i ſod yn fynych yn ein rhagflaenu ni a'i râs, a chynnyrfiadau ei fendigedig yſpryd; etto, nid oes gennym ni ddim achos iw ddiſgwyl heb ei ofyn.

Yn *ail.* Nyni a ddylem gydnabod yn ddiolchgar, a chyfaddef, ſod yr holl ddaioni ag ſydd ynnom ni, a'r cwbl ag ir ym ni yn ei wneuthur, yn deillio oddiwrth râs a chymmorth Duw, yn ein cynnyrfu, ag yn ein nerthu i bob gweithred dda, heb yr

hwn,

hwn, *nid allwn ni wneuthur dim:* ag ni a allwn ddywedyd gyda *Dafydd, Nid ini, nid ini, O Arglwydd, ond i'th enw di i bo'r mawl.* A chyda St. *Paul, Etto nid fi, ond grâs Duw y ſydd ynnoſi.* Megis ag i dygwyd plant yr *Iſrael* allan o'r *Aipht*, ag ir arweiniwyd i feddiannu y wlad dda (yr hon ſydd gyffelybiaeth o'r nefoedd) trwy fod preſennoldeb a gallu Duw yn myned gyda hwynt, *nid trwy eu cleddyf a'u bwa, ond trwy law alluog a braich eſtynnedig:* felly os cawn ni fyth ein gwaredu oddiwrth gaethiwed pechod, a'n bywhâu i newydd-deb buchedd; os cawn ni fyth fod yn gadwedig a dyfod i'r nêf; i mae yn rhaid ini gael ein cynnorthwyo a'n tywys a'n cadw gan nerthol allu Duw; o herwydd, *trwy ras i'n achubir, a hynny nid o honom ein hunain, canys dawn Duw ydyw.*

Yn *drydydd.* Ymogelwn rhag *gwrthwynebu o honom yſpryd Duw, a derbyn grâs Duw yn ofer.* Ag ir ydym ni yn gwneuthur hyn, pa bryd bynnag, ag ir ym yn gwrthſefyll cynnyrfiadau bendigedig yſpryd Duw, ac yn naccau defnyddio 'r gras a'r cymmorth i mae Duw yn eu cynnyg ini, *trwy fod yn gydweithwyr gyda Duw,* ag yn cyd-lafurio gyda 'i râs, trwy ein hymroadau difrifol ein hunain.

I

I mae yſpryd Duw yn fynych yn rhoddi cynnyrfiadau da ynnom, ac i mae yn barod iw perffeithio, os dilynwn ni hwynt, ag i'n nerthu ni iw cyflawnu yn effeithiol. Ond fo ddichon dynion, ac i maent yn fynych yn gwrthſefyll ei lân yſpryd, ag yn diffoddi ei gynnyrfiadau, ag yna i mae Duw yn gyfiawn yn ein gadael ni, ag yn tynnu ymmaith ei gymmorth, ag yn cymmeryd ei lân yſpryd oddiwrthym. Ond os gwnawn ni ddefnydd o honynt, ei râd a'i gymmorth ef ſydd barod i'n dwyn rhagom, ag i'n nerthu fwy fwy, megis i gallom *fyned o nerth i nerth, hyd oni ddelom i ymddangos o'i flaen ef yn Sion.*

Yn *bedwerydd.* Nid yw yſtyriaeth o'n hanallu, ddim yn eſcus o'n diogi a'n heſceuluſdra ni, os yw grâs Duw yn barod i'n cynnorthwyo. Canys os cynnygir hwn ini, ag os yw yn wafdad wrth law i'n cynnorthwyo, lle na ddarfu i ddynion ddigio Duw iw dynnu ymaith; yna ein bai ni ein hunain yw, os na wnawn ni ein dyledfwydd, ag os na chyrhaeddwn wynfyd tragywyddol. O herwydd ir ym yn ddiau yn ddigonol i wneuthur yr hyn oll ag i mae grâs Duw a'i gymmorth yn barod i'n

i'n cyfnerthu iw wneuthur. I mae St. *Paul* yn eyfrif gallu Criſt megis yn eiddo ef; *Mi a allaf wneuthur pob peth trwy Griſt yn fy nerthu.*

Yn *bummed* ag yn ddiweddaf. Nid yw yſtyriaeth o'n hanallu ein hunain yn ſail iawn o ddigalonni yn ein hymroadau, gan yſtyried addewid a chymmorth grâs oddiuchod. Yrawron gan i Dduw fyned mewn cyfammod newydd o râs a ni, a'i fod yn cynnyg ini fywyd tragywyddol ar ammodau ffydd, ag edifeirwch, ag ufudd-dod diffuant, po mwyaf fo'n gwendid ni, mwyaf achos ſydd gennym i ddiſgwyl ei râs a'i gymmorth; o herwydd ni a wyddom ei fod yn ymddwyn yn gywir tuac attôm, a'i fod yn bwriadu ein dwyn i'r dedwyddwch hwnnw i mae ef yn ei gynnyg ini. Ag am hynny, i mae yn ddiogel gennym, nad yw ef yn gorchymmyn ddim ag ſydd amhoſſibl; a chan weled ein bod ni yn weiniaid ag yn annigonol o honom ein hunain, i wneuthur yr hyn i mae ef yn ei ofyn gennym, i mae yn barod i'n cynnorthwyo a'i râs iw gyflawnu. Yr hyn, Duw o'i drugaredd yn Ghriſt, a ganniattao i bob enaid o honom. *Amen.*

PREG-

PREGETH X.

COLOSS ii. 3.

Yn yr hwn i mae holl dryſorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig.

I Mae amryw ymddangoſiadau doethineb Duw iw canfod yn y creadigaeth a'i ragluniaeth yn llywodraethu 'r byd; ond myfi a'i hyſtyriaf yn breſennol mewn perthynas iw gyfreithiau. Cyfraith gyntaf a dechreuol Duw, yw cyfraith natur. Y gyfraith dragywyddol, anghyfnewidiol honno, o ufudd-dod; yr hon ſydd yn hanfod oddiwrth natur creaduriaid, ag oddiwrth eu perthynas i Dduw, ag iw gilydd. Ac i mae doethineb y gyfraith hon yn llywodraethu y byd, yn ymddangos yr un wêdd ag i mae ei anfeidrol allu yn ei greadigaeth. I mae dedwyddwch creaduriaid rheſymmol gan hynny, yn dyfod oddiwrth eu hufudd-dod i'r gyfraith hon, yn ol yr amryw berthynaſau i maent yn ſefyll ynddynt y naill at y llall. Y

Y gyfraith neſſaf a roddwyd i ddyn, oedd gyfraith *Moſes*. Doethineb y gyfraith honno, oedd yn ymddangos oddiwrth ei chymmwyſdra i'r oruchwiliaeth honno. Ir oedd yr amryw ddefodau a arferid yn gwaſanaeth y gwir Dduw, yn gymmwys iw cadw oddiwrth eulun-addoliaeth, ag ir oeddynt yn arwyddion o'r purdeb honno ag ir oedd Duw yn ei gofyn, ag yn gyſcodau o'r hyn oedd yn ei iawn bryd iw gyflawnu gan Griſt. Ar ba gyfrif i mae St. *Paul* yn mynegi, mai *ei hathro hwynt oedd hi, iw tywys at Griſt fel i cyfiawnhaid hwy trwy ffydd.* Gal. iii. 24. *Trwy ffydd*; hynny yw, nid trwy greduniaeth noeth yn wrthwyneb i ufuddod, ond trwy ufudd-dod i'r efengyl; yr hon mewn ffordd o ragoriaeth, a elwid *ffydd*, megis ag i cyfenwid ag i gelwid y goruchwyliaeth iuddewig, y *gyfraith*.

Ymddangoſiad fawr ddiweddaf doethineb Duw yn ei gyfreithiau, yw 'r efengyl ei hun, ſef, y gyflawn ddatguddiad honno o ewyllys Duw trwy Griſt, ar gyfrif pa un i gelwir Criſt yn ddoethineb Duw, wedi i'r Apoſtol yn yr adnod o'r blaen ſôn am gydnabyddiaeth dirgelwch Duw 'r Tad a Chriſt, drwy ba ddirgelwch i mae ef yn deall yr efengyl;

hynny

hynny yw, y ddoethineb honno a arfaethodd Duw ei hyspysu i'r byd trwy Grist. Ag o herwydd mai 'r arwydd mwyaf hynod o ddoethineb Duw ydyw, a'r hon sydd yn perthyn fwyaf ini, i mae yn gymmwys ini ddal mwy o sulw arni.

Yrawron fel i byddo ini yn fwy eglur ddangos doethineb Duw yn yr oruchwyliaeth hon, i mae yn rhaid ini ddeall, fod doethineb yn sefyll mewn dau beth; trwy ddychymmyg a chyrraedd y dibennion mwyaf rhagorol, a thrwy ddwyn i ben y dibennion hynny, drwy 'r moddion gorau a chymmwysaf. Yrawron dibennion yr efengyl, yn y lle cyntaf, ydyw 'r arfaeth a'r bwriad mawr i mae Duw yn ei holl weithredoedd yn tueddu attynt, ag yn terfynu ynddynt; sef, sefydlu cyfiawnder gyffredinol a dedwyddwch drwy 'r holl fyd; yr hyn yw teyrnas Dduw; eithr yn fwy enwedigol, ag mewn trefn i'r amcan cyffredinol hwnnw, dibennion pennaf yr oruchwyliaeth hon yn neillduol, ydynt,

Yn *gyntaf*, Amddiffyn cyfiawnder Duw ag anrhydedd ei gyfreithiau a'i lywodraeth, a dangos ei gasineb hollol yn erbyn pechod. *Yn ail*, Dangos yn amlwg ar yr un pryd,

ei drugaredd a'i doſturi tuac at bechaduriaid. *Yn drydydd*, Dangos llwyr angenrheidrwydd edifeirwch i bechaduriaid, ag o'u gwellhâd a diwygiad eu buchedd; ag nad oes fodd i fod yn gadwedig heb wneuthur hynny. *Yn bedweryd*, Rhoddi i'r ſawl ſydd wir edifeiriol, obaith ſiccr i cânt hwy fod yn wrthddrychau o drugaredd Duw, yr hon a ddatguddir mor eglur yn yr efengyl, ac iw haddyſcu a'u cynnorthwyo hwynt yn eu dyledſwyddau, er mwyn hynny.

Dyma ddibennion addas iawn i ddoethineb llywydd mawr y byd iw dychymmyg a'u hamcanu, ac iw cyflawnu trwy 'r efengyl; a hynny trwy foddion wedi eu cymhwyſo mor rhagorol i'r dibennion graſlon hynny, ag etto mor anghynnefin, ag mor anhebyg i lwyddo ym marn dyn. Yn y gorchwyl rhyfeddol hwn, ir ymddangoſodd doethineb Duw yn eglurach nag mewn un oruchwyliaeth arall o eiddo ei ragluniaeth a ddatguddiwyd ini.

Yn y lle *cyntaf*. Prif ddiben ag amcan yr efengyl, yw amddiffyn cyfiawnder Duw ag anrhydedd ei gyfreithiau a'i lywodraeth, a dangos ei gaſineb hollol ef i bechod. Wedi i ddyn bechu yn rhyfygus, drwy dorri gorch-

gorchymmyn ei greawdr mawr, i mae yn eglur nas gallai lai nag anfodloni i'r fath weithred echryſlon, ag nad allai ei gyſiawnder lai na chyflawnu y goſp a fygythiwyd yn erbyn y troſedd: a hynny nid o herwydd nad oedd ganddo fodd i faddeu, canys i mae gan bob tywyſog a llywydd daearol pa bynnag, a phob dyn neillduol ag a bechir iw erbyn y gallu hwnnw, os gwêl ef yn gymmwys ei arfer. Ond y meddwl yw, pan ddywedir fod cyſiawnder Duw yn gofyn coſpi y troſſeddwr, ei fod yn beth cymmwys, uniawn, a rheſymmol, ac yn noethineb llywodraeth yn wir angenrheidiol, i natur anafus a marwol pechod gael ei goſpi ganddo ef, *yr hwn ſydd burach ei olygon, nag ir edrych ar anwiredd*; ag i anrhydedd ag urddas cyfreithiau tragywyddol ei gyſiawn lywodraeth gael eu cynnal a'u hamddiffyn, a mawredd a phwys ei orchymynnion ef gael eu cadw, ag angenrheidrwydd ſanteiddrwydd a rhinwedd dda gael eu goſod allan yn amlwg. Yrawron doethineb Duw a gyflawnodd y diben hwn yn fwy effeithiol, drwy farwolaeth ei Fab, nag i gwnaethid hynny drwy goſpi 'r troſeddwr ei hun. Canys gan na fynnei Duw faddeu pecho-

dau dynion, heb i un mor ardderchog ddioddef yn natur dyn: hynny yw, gan na thybiodd ef un modd arall mor gymmwys i ddangos ei drugaredd a'i doſturi tuac at bechaduriaid, ond drwy 'r oruchwyliaeth ryfeddol, anarferol hon; i mae hynny yn dangos ei hollol gaſineb ef i bechod, a'i fawr ofal am gadw cyfreithiau cyſiawnder tragywyddol, rhag cael eu diyſtyru neu eu troſeddu yn ddigoſp. Yn hytrach nag i goddefai i hyn ddigwydd, ef a adawodd iw Fab ei hun ddyfod yn aberth dros bechod. Ef a adawodd iddo meddaf, (o herwydd na ddichon neb trwy gyſiawnder gael ei oſod i ddioddef dros arall, ond trwy ei gydſyniad ei hun) ef a adawodd iw Fab ei hun, *am bechod gondemnio pechod yn y cnawd.* Rhuf. viii. 3. Hynny yw, iddo ef ei hun trwy ddioddef yn y cnawd, megis aberth dros bechod, ddyfod yn gondemniad mawr a pharhaus i bechod yn dragywydd: ddyfod yn eſampl a phrawf dragywyddol, pa mor angenrhaid i tybiodd rhagluniaeth Dduw yn llywodraeth y byd, i bechod gael ei goſpi mewn ffordd o eſampl gyhoeddus.

A dyma eglur feddwl yr holl ymadroddion hynny yn yr yſgrythur, lle i goſodir marwol-

marwolaeth Criſt allan megis prynedigaeth, pridwerth neu bwrcas; gan arwyddoccau, mai gwaith Criſt yn gwneuthur iawn droſom ni, yw, i Dduw weled yn dda oſod yn rhâd, a derbyn yn rhâd, ag o'i wir râs a'i drugaredd yn unig, gymmeryd ei fodloni a'r hyn a wnaeth ag a ddioddefodd Criſt er mwyn amddiffyn cyfiawnder Duw ag anrhydedd ei gyfreithiau ag awdurdod ei lywodraeth, ag er dangos ei gaſineb hollol ef i bechod.

Ail ddiben neu amcan yr efengyl yw, dangos ar yr un pryd, drugaredd a thoſturi Duw at bechaduriaid. I mae trugaredd yn briodoldeb mor hanfodol i natur Duw, ag yw cyfiawnder; a'i phriod ſwydd yw dangos ei hun ar bob achos ag ſydd yn goſyn ei chymmorth. Dyn yn ddiau er ei fod yn bechadur gweithredol drwy ddewiſiad llygredig ei ewyllys, oedd o natur frau ag egwan, ag yn ddaroſtyngedig i gael ei dwyllo: ir oedd ei gyflwr ef gan hynny yn wrthddrych o drugaredd a thoſturi. A'r hyn oedd gymmwys i ddoethineb anfeidrol ei wneuthur yn y perwyl yma, oedd eſtyn trugaredd a thoſturi i ddyn pechadurus; ag etto gwneuthur hynny yn y cyfryw fodd

ag oedd gyttunol a'i gyfiawnder anghyfnewidiol, a'i gaſineb anghymmodlon i bechod. Yrawron nid ellid atteb y diben hwn mor gyflawn trwy waith Duw yn dangos ei awdurdod a'i oruchafiaeth hollol ym maddeuant pechod; ond ef a'i hattebwyd yn hollol trwy ddoethaf oruchwyliaeth yr efengyl, pan ddangoſodd Duw ei gariad yn amlwg i'r byd, drwy ddanfon ei unig anedig Fab, fel i gallem ynddo ef *gael prynedigaeth yn ei waed ef, ſef, maddeuant pechodau yn ol cyfoeth ei râs ef, trwy 'r hwn i bu efe helaeth ini ym mhob doethineb a deall.* Eph. i. 7, 8. Canys ni ddichon fod hynottach eſampl, na diogelwch ſiccrach o gariad a thoſturi Duw tuac at ddyn, na danfon o hono ei Fab ei hun iw brynu. *Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd ef droſom ni oll; pa fodd gydac ef na ddyry ef ini bob peth?* Ac etto yn y cyfamſer, yn yr oruchwyliaeth hon i dangoſir yſcelerder pechod, a digofaint a llidiawgrwydd Duw yn ei erbyn, ie, pan i mae yn dangos trugaredd i'r pechadur yn y modd rhyfeddol hyn; *trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant, cyfiawnder a heddwch a ymguſſanaſant.* Salm lxxxv. 10.

Y *trydydd* diben i mae 'r eſengyl yn cyfeirio atto, yw dangos hollol angenrhaid edifeirwch i bechaduriaid, ag o'u gwellhâd a'u diwygiad, ag nad oes iddynt fodd i fod yn gadwedig heb wneuthur hynny. I mae yn eglur oddiwrth yr hyn a wyddom ni trwy rheſwm am natur Duw, ag oddiwrth ei ewyllys datguddiedig yn ei air, nas dichon pechaduriaid ddyfod yn gymmwys i dderbyn maddeuant, ond trwy ymadael a'u pechodau. Ond trwy 'r eſengyl eſ a ymddangoſodd doethineb Duw yn eglurach yn gofyn edifeirwch a gwellhâd buchedd, megis ammodau ag arwyddion diball o'u bod yn wir aelodau o'i eglwys, ag o dderbyn y breiniau hynny ag a brynodd Mab Duw iddynt. Ni thybiodd eſ gymmwys ddangos ei drugaredd werthfawr honno iddynt ychwaith, ond trwy eiriolaeth Criſt a haeddedigaethau ei farwolaeth; gan bennodi mai 'r modd i dderbyn yn oed edifeirwch ei hun oedd trwy gyfryngdod ei anwyl Fab. I mae yn yr oruchwyliaeth hon o'i drugaredd ei hun, yn *datguddio yn fwy amlwg ei ddigofaint o'r nefoedd yn erbyn pob annuwioldeb ag anghyfiawnder dynion*, ag yn gorchymmyn ini yn gaeth *rodio 'n addas o'n galwedigaeth*,

digaeth, gan roddi eſampl dda yn ein hymddygiad a'n hymarweddiad, megis plant y dydd a'r goleuni, mewn pob ſanteiddrwydd a duwioldeb. O herwydd, er i Duw eſceuluſo yr amſeroedd gynt o anwybodaeth, ei fod ef yrawron *yn gorchymmyn i bob dyn edifarhau, o herwydd iddo oſod diwrnod yn yr hwn i barna efe y byd mewn cyfiawnder.* Act. xvii. 30. I mae hyn yn dangos, nad oes modd arall i dderbyn iechydwriaeth, heblaw yr hyn i mae gair Duw yn ei ofyn; ſef, *glanhau o honom ein hunain oddiwrth bob aflendid gnawd ag yſpryd, a pherffeithio ſanteiddrwydd yn ofn Duw.* Dyma 'r ffrwythau i mae gwir edifeirwch yn eu gweithio yn y rheini, ag ſydd eiddo Criſt mewn gwirionedd.

Yn *bedwerydd* ag yn ddiweddaf. I mae 'r efengyl yn rhoddi i'r rhein ag ſydd wir edifeiriol, gyflawn ſiccrwydd a gobaith i cânt hwy fod yn wrthddrychau trugaredd Duw, a'u haddyſcu a'u cynnorthwyo yn gyfattebol i hynny. A'r diben hwn a attebodd yr efengyl yn y modd doethaf a pherffeithaf: canys i mae gennym ſail gadarn am dderbynniad pechaduriaid gan Dduw, nad arbedodd efe ei unig-anedig Fab, ond

ei

ei draddodi o honno eſe ef droſom ni. I mae hyn yn ddiau yn annogaeth nerthol i bawb ag ſydd wir edifeiriol, i bawb a ymadawſant mewn gwirionedd a phob helynt bechadurus, *i neſhau ag i gymhwyſo eu hunain at orſeddfainc grâs, gan fod ganddynt hyfder i fyned i mewn i'r cyſſegr trwy waed Ieſu, ar hyd ffordd newydd a byw iol, yr hon a gyſſegrodd ef ini*; a'i fod nid yn unig wedi agor ini y deml yn y nefoedd a'i waed, ond ei fod yn waſdadol yn parhau i eiriol droſom ni, i fod yn ddadleuwr gyda 'r Tad, ag yn Arch-Offeiriad gwaſdadl droſom ni at Dduw. Ag fel i gallom ni fyw yn addas o'r breiniau mawrion hyn, efe a adawodd ei hun ini yn eſampl o bob ſanteiddrwydd a phurdeb, *fel i canlynem ei ol ef*. Ac fel na byddai arnom eiſiau annogaethau i'n rhwymo ni iw ddilyn ef, a wnaeth ini ddanguddiad eglur o farn i ddyfod. Ag o herwydd ei fod yn beth doeth a chymmwys i'r athrawiaeth honno, ag oedd i fod yn gyfraith gyffredinol a rheol bywyd, ag yn ammod o iechydwriaeth i ddynion o bob grâdd a galwad, fod yn hawdd ag yn rhwydd iw deall.

Am

Am hynny efe a'i traddododd ini gyda phob eglurder, a ſymlrwydd, nid mewn tywyll eiriau doethineb ddynol, nid mewn geiriau anhawdd eu deall, ond yn eglurhâd yr yſpryd a nerth; *gan ein dyſcu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſobr, yn gyſtawn ag yn ddduwiol yn y byd ſydd yrawron,* gan ddiſgwyl cael ein barnu yn ol ein gweithredoedd. Ag efe ei hun ſydd i fod yn farnwr arnom, yr hwn fel i mae St. *Paul* yn ei oſod allan, *fel i byddai yn archoffeiriad trugarog a ffyddlon, a ddioddefodd yn gyntaf ei hun mewn pob peth fel ei frodyr, ag a fedr gyd-ddioddef gyda 'n gwendid ni, gan iddo gael ei demptio ymmhob peth yr un ffunud a ninnau; ag a ddichon doſturio wrth y rai ſydd mewn anwybodaeth ag amryfuſedd gan ei fod ynteu wedi ei amgylchu a gwendid.*

Dyma rai o ddibennion ag amcanion pennaf yr efengyl. Ar gyfrif rhagoriaeth pa ddibennion, a chymmwyſdra rhyfeddol yr amryw foddion a arferwyd yn ddoethineb Duw iw cyflawnu hwynt, i gelwir Criſt *yn ddoethineb Duw, ag fod ynddo ef holl dryſſorau doethineb yn guddiedig; ag i râs Duw fod yn helaeth attom ni, mewn pob doethineb a deall* drwy 'r oruchwyliaeth hon;

fod

fod *pob peth arall iw gyfrif yn golled, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Criſt Ieſu ein Harglwydd.* Dyma nôd cyntaf doethineb, ardderchawgrwydd y dibennion a fwriedir, a chymmwyſdra 'r amryw foddion a luniaethwyd iw cyflawnu.

Y peth neſſaf ym mha un i dangoſodd Duw ei ddoethineb ei hun mewn modd enwedigol, yn cyflawnu 'r dibennion graſlon yma oedd, mai megis ag ir ymddangoſodd cnawdoliaeth Criſt wedi ei ddatguddio yn fodd cymmwyſaf ag ellid ei ddychymmyg, felly cyn ei ddatguddio ir oedd yn fodd mor rhyfeddol ag anawdd ei ddirnad gan ddoethineb terfynol a'i fod yn ddoethineb anchwiliadwy, nid yn unig i ddynion, ar ba gyfrif i mae St. *Paul* yn y geiriau o flaen y teſtun yn ei alw *dirgelwch Duw a Chriſt*; ag yn *ddoethineb Duw mewn dirgelwch, ſef y ddoethineb guddiedig, yr hon a rag-ordeiniodd Duw, cyn yr oeſoedd i'n gogoniant ni, yr hon nid adnabu neb o dywyſogion y byd hwn, y dirgelwch oedd guddiedig er oeſoedd ag er cenedlaethau, ond yrawron ag eglurwyd iw ſaint ef: ond ir oedd heſyd yn ddirgelwch, ar yr hwn ir oedd angylion yn chwennych edrych.* Ag yn gyfryw ddangoſiad doeth-

doethineb, ag i dichon nid yn unig pob dyn weled beth yw *cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y bya yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Ieſu Griſt*; ond hyd yn oed i'r *angylion uchaf hefyd, i'r tywyſogaethau, ag i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy 'r eglwys i bydd yn hyſpys fawr amryw ddoethineb Duw.*

Y peth diweddaf a ddaliaf ſulw arno, ym mha un ir eglurodd doethineb Duw ei hunan yn enwedigol yn yr efengyl yw, peri iddi lwyddo yn y byd trwy foddion mor anhebygol; trwy bregethiad dynion iſel ag annyſcedig, er gwaethaf holl allu dynol a doethineb y byd. Yr *Iuddewon*, y rhai chwennychent ſefydlu eu cyfiawnder eu hunain, a wrthwynebaſant gyfiawnder Duw a'u holl allu; ſef, yr athrawiaeth a'r drefn honno, mewn perthynas i grefydd, a gadarnhaodd Duw drwy 'r efengyl. Y *Cenhedloedd*, yn llawn o dŷb dda o'u doethineb ddynol eu hunain a philoſophyddiaeth, drwy eu holl ddyſc a'u medr o ymreſymmu, a wrthwynebaſant ddoethineb Duw, yr hon a eglurwyd yn yr unrhyw athrawiaeth o eiddo Criſt. Yn erbyn y ddeu ryw hyn o wrthwynebwyr i nerthwyd ychydig o ddynion

gwael

gwael ag annyſcedig i lwyddo yn rhyfeddol. A doethineb Duw yn peri iddynt wneuthur felly, drwy ddifetha doethineb y doethion, a dileu deall y rhai deallus, fel i mae St. *Paul* yn dangos yn y geiriau hynod yma; *a herwydd yn noethineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Dduw, fo welodd Duw yn dda trwy ffolineb pregethu, gadw y rhai ſydd yn credu. Oblegyd i mae 'r Iuddewon yn gofyn arwydd, a'r Groegwyr yn ceiſio doethineb; ond iddynt hwy, y rhai a alwyd Iuddewon a Groegwyr, yn Criſt gallu Duw, a doethineb Duw. Canys Duw a etholodd ffôl bethau y byd, fel i gwaradwyddei y doethion; a gwan bethau y byd a etholodd Duw, fel i gwaradwyddei y pethau cedyrn; fel na orfoleddai un cnawd gar ei fron ef.*

I mae yn eglurhau ag yn cadarnhau yr un peth etto ym mhellach, trwy eſampl arall a mwy neillduol o ddoethineb yngwaith Duw yn trefnu pethau yn y cyfryw fodd, ag i byddai i anghrediniaeth yr *Iuddewon* yn gyntaf, a throedigaeth y *Cenhedloedd*, derfynu o'r diwedd yn nhroedigaeth ag iechydwriaeth pob un o'r ddau. *Canys megis* (medd ef) *i buoch chwithau gynt yn anufudd i Dduw, eithr yn awrhon a gawſoch drugaredd,*

drwy anufudd-dod y rhai hyn; felly hwythau hefyd yr awrhon a anufuddhaſant, fel i caent hwythau drugaredd trwy eich trugaredd chwi. Canys Duw a'u cauodd hwynt oll mewn anufudd-dod fel i trugarhaei wrth bawb. O ddyfnder doethineb a gwybodaeth Duw! Mor anchwiliadwy yw ei farnau ef, a'i ffyrdd, mor anolrheinadwy ydynt! Rhuf. xi. 30—33.

Y defnydd a ddylem ni wneuthur o'r yſtyriaethau yma, ynghylch doethineb Duw wedi ei hegluro yn ei weithredoedd a'i lywodraeth, ag yn ei gyfreithiau, yw hyn: Ini oddiyma geryddu ag argyhoeddi yr annuwiolion a'r anffyddloniaid, drwy ddangos iddynt, mai po mwyaf ir yſtyrir gweithredoedd Duw, mwyaf oll o arwyddion a nodau doethineb a ganfyddir ynddynt. Ag ini, y rhai ydym mewn gwirionedd yn cydnabod y pethau yma, glodfori yr Arglwydd yn waſdadol, am holl weithredoedd ei ddoethineb, ag yn neilſduol am ei weithredoedd a welir ynnom ni ein hunain, pa un ai mewn perthynas i'n cyrph neu ein heneidiau. Na ddylem ni, er ein bod yn canfod amryw eſamplau o'i ddoethineb gwedi eu datguddio, er hyn ryfeddu, os na allwn ni gael allan holl ffyrdd doethineb anfeidrol,

nag

nag amgyffred holl ddirgeledigaethau rhagluniaeth. Ein rhan ni yw meddwl a phryderu am gyflawnu ein dyledſwydd ym mha ryw fuchedd bynnag i rhyngodd bodd i Dduw ein galw. *Y dirgeledigaethau ſydd eiddo 'r Arglwydd ein Duw, a'r pethau amlwg a roddwyd ini ag i'n plant hyd ſyth; fel i gwnelom holl eiriau 'r gyfraith hon.* Deut. xxix. 29. O herwydd yr un rheſwm, ni a ddylem ym mhob cyſtudd a blinder ymoſtwng yn ufudd iddo, gan yſtyried, i gwyr ei ddoethineb anfeidrol ef yn well na nyni, pa beth ſydd gymmwyſaf ini; a'i fod yn ddigonol i fynnu allan foddion anghynnefin o ymwared ini, pan welo ef fod yn dda, a gwneuthur i bob peth gydweithio er daioni, i'r ſawl ſydd yn ei garu ag yn ei ofni ef. Ac ym mhob cyfyngder, lle ni ymddengys dim moddion gweledig o ymwared, ni a allwn hyderu arno ef, rhagluniaeth yr hwn ſydd yn darbodi droſom, heb flino ein hunain a gormod ofal: gan yſtyried i bydd iddo ef, rhagluniaeth yr hwn ſydd yn edrych ar y pethau lleiaf, yr hwn *ſydd yn porthi ehediaid y nefoedd*, ag *yn dilladu lili 'r maes, heb yr hwn ni ſyrth un aderyn y tô i'r llawr, ag nis difethir un o wallt ein pen*, yn ſicer

ofalu yn fwy o lawer am danom *ni*: ag na ddichon un cyngor lwyddo, nag un dyfais ſefyll, er dyfned ag er doethed i tybyger iddi gael ei threfnu gan ddeall dynol, os na bydd yn gyttunol a'i ewyllys bendigedig ef, yr hwn fydd unig ddoeth, yn gyſtal ag yn unig dda.

Yn *ddiweddaf*. Os yw Duw yn anfeidrol ag yn unig ddoeth, bydded ini yn gyfatteb ol i'n gallu, geiſio gwir ddoethineb drwy ufuddhau iddo. *O bydd ar neb o honoch eiſiau doethineb, gofynned gan Dduw, yr hwn ſydd yn rhoi yn haelionus i bawb, ag heb ddanned, a hi a roddir iddo ef.* Iago i. v. *Ie, os gweeddi ar ol gwybodaeth, os cyſodi dy lef am ddeall, os ceiſi hi fel arian, os chwili am dani fel am dryſorau cuddiedig; yna i ei di ddeall ofn yr Arglwydd, ac i cei wybodaeth o Dduw. Canys yr Arglwydd ſydd yn rhoi doethineb: allan o'i enau ef, i mae gwybodaeth a deall yn dyfod: i mae ganddo yngnadw i'r rhai uniawn wir ddoethineb: tarian yw efe i'r ſawl a rodiant yn uniawn. I mae efe yn cadw llwybrau barn, ag yn cadw ffordd ei ſaint.* Dihar. ii. 3—8.

Duw mawr o'i drugaredd a roddo râs i bob enaid o honom iw glodfori a'i foliannu

ef, am ganiattau a chynnal ini foddion iechydwriaeth drwy Griſt, a'i ddoethineb anfeidrol yn ein tynnu ni o gaethiwed gelynion ein heneidiau, i rydd-did gogoneddus ei blant a'i bobl ef, megis ag i gallom ni gael cyfran gyda ei ſaint yn ei deyrnas nefol, yn nyfodiad Criſt ein prynwr. *Amen.*

PREGETH. XI.

Matth. xx. 6.

Ag efe a aeth allan ynghylch yr unfed awr ar ddeg, ag a gafas eraill yn ſefyll yn ſegur, ag a ddywedodd wrthynt, pa ham i ſefwch chwi yma ar hyd y dydd yn ſegur?

PWY bynnag a dyfal yſtyrio ei hunan, i ba ddiben i crewyd ef, ag i cynnyſcaeddwyd ei natur, a rheſwm, a dealldwriaeth, gyda llawer o ddoniau rhagorol eraill, uwchlaw 'r holl greaduriaid tan yr haul; nid eill amgen na chydnabod a gweled ordeinio 'r rhain, nid i fod fal eulynnod mudion, a llygaid ganddynt ond ni welant, ag a chluſtiau ganddynt ond ni chlywant; nag i fod yn dlyſau prydferthwch yn unig i edrych arnynt, ond i ryw waith mwy rhagorol; nid amgen nag i foliannu a gwaſanaethu Duw y rhoddwr, i weled a dyſcu ffordd ſanteiddrwydd a duwioldeb, ag i ddilyn llwybrau diniweidrwydd a daioni, ag

felly

ſelly i fodloni ein creawdr, fel i byddom hoff ganddo, ag i derbynniom ddedwyddwch tragywyddol trwy ei anfeidrol ddaioni a'i drugaredd ef. Canys dyma ddiben ein creadigaeth; trwy ddyfal waſanaethu Duw achub ein heneidiau, *a gweithio allan ein hiechydwriaeth trwy ofn a dychryn.* Phil. ii. 12.

Ond pwy yſywaeth ſydd yn ymroi o ddifrif ynghylch y gwaith hwn? Pwy ſydd yn yſtyried mor ddyledus, ie mor anghenraid yw? Llawer mwy yn hytrach, ſydd yn byw megis na thalai eu heneidiau mor gofalu am danynt, neu fel ped fai ond rhyw yſcafnwaith bychan, heb ofyn fawr boen na phryder iw hachub hwynt. Ef a godir yn fore i drîn y byd; nid arbedir poen a gofal i gaſclu 'r *mammon anghyfiawn*; ond os geilw Duw ni iw winllan; os gwahoddir ni i'r wlêdd nefol; os cawn ein hannog i ddawioldeb ag edifeirwch, fef i weithio yr unig waith angenrhaid hwn, cair pawb yn un ag yn gyttun yn dymuno cael eu heſguſodi, o leiaf dros ychydig etto. Rhaid i'r naill fyned iw faes, arall iw faſnach; rhaid i un ganu yn iach iw dylwyth, a'r llall fyned a gweled ei dyddyn; felly pob ammharodrwydd fydd rhag dilyn Criſt, a chynnyrfiad ei Lân

Yſpryd

Yſpryd ynnom, rhag ymroi allan o law i ymofyn ynghylch y pethau a berthynant i'n hiechydwriaeth; fel ped fai yn ddigon buan ddechrau buchedd dda, ar ol bodloni holl drachwantau 'r cnawd. Y cyfryw rai i mae Criſt yn eu ceryddu yn y teſtun; *Pa ham i ſefwch chwi yma ar hyd y dydd yn ſegur?* Pa ham i treuliwch y bore, ſef amſer eich ieuenctid, yr amſer gorau o'ch bywyd, mewn gwagedd a choeg-rodres y byd? Ag ir eſceuluſwch waith pwyſfawr eich eneidiau i'r hwyr, pan fo 'r haul yn machludo, y tywyllwch yn neſhau, pan nad ellir gweithio; pan fo 'r golwg yn pallu, y corph yn flinderog, a'i ſynhwyrau yn pylu, gyda llawer o rwyſtrau eraill a fydd yn lluddias dwyn y gorchwyl mawr angenrheidiol hwnnw i ben.

Nid trwy yſmalhawch ir ennillir teyrnas nêf. Nid wrth orchwyl awr neu ddwy i ſicerheir dedwyddwch tragywyddol. Mae crefydd yn ddigon o orchwyl ini holl ddyddiau ein heinioes. Ni roddwyd ini rhan yn y byd o'n bywyd iw dreulio ar chwantau 'r cnawd a gorwagedd y byd, ond i wrthryſela iw herbyn. Mae rhagoriaeth anfeidrol rhwng nêf ag uffern, rhwng cyflog

yr

yr annuwiol a gwobr y duwiol; am hynny rhaid bod rhagor mawr rhwng eu bucheddau hwynt.

I mae hwnnw yn camſynnied yn fawr, yr hwn ſydd yn diſgwyl byw yn ſegur yngwaſanaeth Criſt. Canys i mae i'r gwir griſtion lawer o wyniau cnawdol a chwantau afreolus iw gorchfygu; llawer o brofedigaethau taerion yn ffordd duwioldeb iw gwrthwynebu. Mae Satan yn ddyfal i'n hudo a'i ddichellion; y byd yn llawn o wag bleſerau ag oferedd i'n denu allan o ffordd bywyd tragywyddol, ag nid yw hawdd cael yr oruchafiaeth arnynt. Am hynny mae'n iachawdwr yn dywedyd, mai *cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd, ſydd yn arwain i'r bywyd.* Mat. vii. 14. Yr hyn ſydd yn arwyddoccau, mai nid trwy ddiofalwch a ſyrthni, ond yn hytrach, drwy ymdrech ag ymegniad, i cair myned i mewn i deyrnas nêf.

Gyrfa yw ein bywyd ni, a rhaid ymorcheſtu os mynnwn ennill y gamp. Rhaid ini goſpi ein cyrph, a'u dwyn yn gaeth yn ol eſampl St. *Paul*, os mynnwn gael y goron anllygredig. 1 Cor. ix. 24. Os, fel i dywaid St. *Pedr*, *braidd i mae'r cyfiawn yn gadwedig*,

gadwedig, y rhai ſydd yn adduno eu holl ddyddiau i waſanaeth Duw, pa ſodd i diſgwyl y ſegur oedwr, yr hwn ſydd yn eſceuluſo gorchwyl ei enaid, gael ei dderbyn yn deilwng i gyfrannu o'r wlêdd nefol? Yr hwn nid ydyw y wiſc briodas ganddo, a'r hwn ni fynnai, er ei alw, weithio yngwinllan yr Arglwydd.

Mae gwobr duwioldeb ag ymarweddiad crefyddol yn fawr, yn ormod iw diſgwyam fod yn ſegur neu yn eſceulus yn gorchwyl mawr ein iechydwriaeth. Rhaid iw gweithio yn ddyfal, a gwrando ar lais ein Harglwydd nefol yn ei air, cyn i derbynniom y wobr a barattowyd i'r ſawl a'i carant ag a'i gwaſanaethant ef. Er gwneuthur o berchen y winllan y diweddaf yn gyſdadl a'r cyntaf yn y ddammeg hon, etto nid oedd i'r diweddaf achos i ddiſgwyl y fâth gyflog: ag ni alwyd mo hono dan yr addewid hwnnw. Rhaid bwrw hynny yn unig ar ewyllys da Arglwydd y winllan. Cyflogwyd y cyntaf er ceiniog y dydd; ond ni addawyd i'r lleill ond a welai Arglwydd y winllan yn dda; *pa beth bynnag a fyddo cyfiawn, chwi a'i cewch.* Megis a phei dywedaſai, Ni ymrwyma i i roddi i i chwi gyflog

diwrnod

diwrnod am awr neu ddwy, ond gan eich bod yn dywedyd na chyflogodd neb mo honoch, ag am hynny, mai nid eich bai chwi ydyw eich bod yn ſegur etto, chwi a gewch fel ir haeddoch am yr amſer fydd yn ol. A chwedi i'r diweddaf lafurio yn ddiwyd am yr amſer i buont, a dangos eu hunain yn ewyllyſcar, yr ewyllys a dderbynniwyd yn lle 'r gwaſanaeth, a hwy a gawſant yr un gyflog. Felly pob pechadur dychweledig a wîr edifarhao am ei bechodau, ag a ddygo ffrwythau addas i edifeirwch, fel y lleidr ar y groes, yr hwn a gyffeſodd Griſt pan oedd ei holl ddiſcyblion wedi ei adael ef, a'i wadu; neu fel St. *Paul*, yr hwn a alwyd i fod yn Apoſtol ar ol y lleill oll, a'r hwn a addefodd nad oedd ef yn addas iw alw yn Apoſtol, am iddo erlid eglwys Dduw; etto, pan i troed ef i'r ffydd efe a lafuriodd yn y winllan yſprydol yn helaethach na hwynt oll. Felly meddaf, os pechadur edifeiriol a fydd diwyd a gwreſog yngorchwyl ei iechydwriaeth ar ol ei droedigaeth, i mae yn ol y cyfammod gràs yn Ghriſt Ieſu, yn cael ei gyfiawnhau a'i dderbyn i gymmod a heddwch Duw 'n nefoedd.

Ond

Ond beth yw hyn i'r ſawl ſydd yn cael eu hannog beunydd, a galw arnynt i edifeirwch, ac ni wrandawſant? Y rhai ni fynnant ymadael a'u drygioni ac ymchwelyd at Dduw, ond fel y neidr fyddar a gauant eu cluſtiau, ag er cyfarwydded fo'r ſwynwr ni wrandawant ar ei lais? Nid oes yma nag eſcus na nawdd i nêb na ddelo i'r winllan pan alwer arno. — Deliwch ſulw hefyd fod deuddeg awr o'r dydd fel i crybwyllir yn y ddammeg hon. Ag er bod amynedd a hirymaros Duw yn parhau i'n gwahawdd i edifeirwch a gwellhâd buchedd hyd yr unfed awr ar ddeg, etto ni alwyd neb ar yr awr ddiweddaf; nid oes dim ymddiried i edifeirwch clâf wely, a thranc marwolaeth.

Nid oes dim a allwn ni i wneuthur yn haeddu y fath gyflog ag i mae yn ei darparu i'r ſawl a'i hofnant ef. Pan wnelom ni ein gorau, *nid ym ni ond gweiſion anſuddiol.* Pa beth, gan hynny, ai oedi gorchwyl ein iechydwriaeth tan yr hwyr a wnawn ni? neu ofalu ond ychydig am deyrnas nêf a bywyd tragywyddol? na atto Duw. Ef a ddylai gobaith o'r fâth anfeidrol wobr, ein cynhyrfu yn hytrach i ymegnio i gyflawnu cyfiawnder Duw. Felly i cawn fod yn gymmeradwy

meradwy gan ein Tâd nefol, megis ag i cyflawnom ei orchymynnion ef.

Bellach. Os ydyw y gorchwyl yn fawr, oedi yn beryglus, a'r wobr yn ddymunol, oni ddylem ni yn hyttrach na deffygio a ſegura, ymoſod at y gwaith allan o law. Os digon bychan yr holl ddiwrnod, i mae 'n eglur mai angenrheidiol ini gymmeryd cyngor *y Pregethwr*; ſef, *cofio o honom ein creawdr, yn nyddiau ein ieuenctid.* Neu os darfu ini eſceuluſo gweithio yn y winllan yſprydol hyd onid aeth y tymmor hwnnw droſodd, ar ini o'r hyn lleiaf, wrando ar lais ein Harglwydd yn gwahawdd iw winllan; *pa ham i ſefwch chwi yma ar hyd y dydd yn ſegur?*

Nid oes un peth arall mor niweidiol i iechydwriaeth ag yw oedi edifeirwch, dim yn difetha mwy o eneidiau. Er dangos mor beryglus yw ſyrthni yſprydol, ag ymddiried ein heneidiau i edifeirwch ddiweddar, yſtyriwn,

Yn *gyntaf*, Mai dyma ewyllys Duw, ſef, torri-ymmaith ein hanwireddau yn ebrwydd, a'i waſanaethu ef mewn pryd. *Y ſawl a'm ceiſiant i yn fore, a'm cânt*, medd y gwr doeth. Dihar. viii. 17. Y blaenffrwyth i mae Duw

yn ei ofyn; a dyma ei rann ef o bob peth, o'r tir, o'r anifeiliaid, ag o'n hamſer hefyd. Ni bydd ef fodlon i weddillion ſatan a'r byd. Y neb ni roddo i Dduw ond gwaddod ei amſer, a dderbyn ganddo ef waddod cwppan ei lidiawgrwydd.

Yn *ail.* Bo cyntaf ir ymroddom ni i waſanaethu Duw, mwyaf diogel fyddwn.

Pwy a all addo iddo ei hun ddim ond yr amſer preſennol? Beth ſydd mor anwadal a'r bywyd yma? *O ynfyd! y nôs hon i gofynnant dy enaid oddiwrthyt.* Luc xii. 20. Edifarhau ſydd dda, a gwellhau ſydd boſſibl ar yr awr ddiweddaf, ſef yn amſer henaint: ond pa ſiccrwydd ſydd gan un enaid o honom, o eſtynniad ein dyddiau? Fo addawodd Duw faddeuant i'r edifeiriol, ond ni addawodd efe drannoeth erioed i'r oedwr. Nid yw holl amſer edifeirwch ond diwrnod, yn iaith yr yſcrythur lân; ond nis gwyddom pa faint yw hyd hwnnw fel dyddiau eraill. Nid oes yn waſdad ddeuddeg awr ynddo: canys pa gynnifer a welwn ni y dydd yn machlud arnynt ganol dydd, y rhai a gymmerir ymmaith ym mlodau eu dyddiau. *Am hynny, byddwch barod bob amſer, canys ni*

wyddoch

wyddoch ar ba awr i daw mab y dyn, ai'r bore, ai prydnawn, ai canol dydd.

Na fyddwch fwy diofal am eich eneidiau gwerthfawr, nag ydych arferol o fod am bethau bydol? I mae pawb yn gofalu am ddarparu cynhaliaeth erbyn henaint; ag a rown ni iechydwriaeth ein heneidiau mewn cymmaint o enbydrwydd, drwy eſceuluſo parattoi erbyn dydd marwolaeth? Oni ddylem ni fod yn fwy gofalus i dryſori tryſor yn y nêf, yr hwn ni phall byth? ſef, i wneuthur daioni bob amſer, ag i bob dyn, hyd ag i gallom ag i caffom gyfleuſdra? Bwrw fod iti amſer terfynedig o'th oes, fal *Hezekiah*; etto pa ſicrwydd ſydd genyt i ei di râs i edifarhau ar yr amſer hwnnw? Oni eill Duw naccau rhoddi ei râs iti, yr hwn a wrthodaiſt o'r blaen? Yſtyriwch beth a ddywaid *y Salmydd* am yr *Iſraeliaid* anufudd, a phobl gyfeiliornus yn eu calonnau, ddeugain mlynedd: *Eſe a dyngodd yn ei lid, na chaent fyned i mewn iw orphwyſfa ef.* Salm xcv.

Beth os blinaiſt ei ddaioni a'i amynedd ef? Megis ag na iacheid y cleifion a ddeuent i lŷn Bethesda, ond pan gynhyrfwyd y dwfr; felly nid ellir edifarhau ond pan roddo Duw ei râs a'i yſpryd i'n cynnorthwyo ni i hynny.

Na thwyllwn mo honom ein hunain, fel pei parhaei cynnygion grâs Duw byth ag yn waſtadol, ag i byddai yn barod i'n gwrando a'n cynnorthwyo bob amſer. Yſtyriwch pa beth a ddywaid y gwr doeth am y fawl fydd yn eſceuluſo y pethau ſydd yn perthyn iw heddwch. *Yn gymmaint ag imi wahodd ag i chwithau wrthod; imi eſtyn fy llaw a neb heb yſtyried; ond diyſtyraſoch fy holl gyngor i, ag ni fynnech ddim o'm cerydd: minnau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan ſyrthio arnoch yr hyn ir ydych yn ei ofni; pan ddêl arnoch yr hyn ir ydych yn ei ofni megis deſtryw, ag i dîl eich dialedd arnoch megis corwynt: yna i galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore i'm ceiſiant, ond ni'm cânt; canys câs fu ganddynt wybodaeth, ag ofn yr Arglwydd ni ddewiſaſant.* Yſtyried pob pechadur rhyfygus, a phawb ag ydd yn oedi ediſeirwch, y geiriau hyn, cyn i bo hi yn rhy ddiweddar. I mae 'r yſcrythur lân ym mhob mann, yn llawn o'r cyfryw gynghorion deffrous, i'n hattal rhag caledu mewn pechod, ag na ddichon neb o honom achwyn na chawſom ni rybuddion teg i ffoi rhag y llîd a fydd. O na fydded ini gan hynny, *dryſori digofaint erbyn dydd digofaint a datguddiad*

guddiad cyſiawn farn Duw; eithr *bydded i ddaioni a hir-ymaros yr Arglwydd ein tywys ni i edifeirwch. Yrawron yw'r amſer cymmeradwy, yrawron yw dydd yr iechydwriaeth.* Bydded ini felly drîn ein talentau, tra byddo moddion grâs yn ein dwylo, megis pan ddelo ein Harglwydd mawr i'n galw ni i gyfrif, i gallom fyned i wynfyd tragywyddol. Pediawn yſtyriem yr awrhon, y pethau ag ſydd yn perthyn i'n heddwch tragywyddol, a phawaſcfa a ddaw arnom os eſceuluſwn ni hwynt, ni roddem ni ddim cwſc i'n llygaid na hûn i'n hamrantau, nês gwneuthur ein cymmod a'n heddwch a Duw 'r nefoedd, tra fyddo porth trugaredd yn agored, a ninnau etto ar y ffordd, *a chyfrifwch hir-ymaros yr Arglwydd yn iechydwriaeth.*

I mae rhai yn myned beunydd i dragywyddoldeb; ag ni wyddom ni na 'r awr na 'r ennyd i cawn ni ddyfyn ein hunain i ymddangos o flaen y mawredd nefol: o edrychwn, am ein bod megis morwynion câll; *a'n lampau wedi eu trwſio, gan ddiſgwyl ei ddyfodiad.* Na adewch i ſyrthni a chwſc yſprydol, beri ini eſceuluſo yr un peth angenrheidiol; eithr *dewiſwn y rhan dda yr hon;*

ni ddygir oddiarnom. Os darfu ini trwy falais y gelyn, a gwendid a llygredigaeth ein natur, adael y pethau hyn yn ol, nyni a ddylem wrando ar hyfryd wahoddiad ein iachawdwr yn y teſtun, *pa ham i ſefweh chwi yma ar hyd y dydd yn ſegur?* Nyni a ddymunem oll ar awr angau, ein bod wedi parattoi erbyn amſer ein cyſnewidiad mawr. Nid oes un dyn mor anraſſon nad yw dymuniad *Balaam* yn ei galon y pryd hwnnw; *Marw a wneliwyf o farwolaeth y cyfiawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo ynteu.* Cofied pob un o honom yr addewidion graſſon i bawb gan edifeirwch calon a gwir ffydd a ymchwelo at yr Arglwydd, ag yna e fydd gennym galon ag ewyllyſcarwch i droi oddiwrth ein ffyrdd drygionus, megis ag i caffom fywyd tragywyddol. *Ceiſwch yr Arglwydd tra i gellir ei gael, gelwch arno tra fyddo yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ag efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd efe a arbed yn helaeth.* Dyma 'r amſer i wneuthur ein heddwch a Duw ag i dorri ymmaith ein pechodau, drwy wir edifeirwch a mynych gyrchu at orſedd-

fainc

fainc grâs, i gael cynnorth cyfamſerol. I mae ein harchoffeiriad mawr yn y nefoedd yn dadleu yn ein plaid er gwerth ei waed; ag i mae ef drwy ei air a'i yſpryd yn ein cymmell i atgymmodi a Duw. O na bydded i neb o honom, ſefyll ar ol drwy anghrediniaeth neu galon galedwch; eithr gwnawn ein gorau *er mwyn ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn ſicr.*

Yrawron i mae Duw yn ein galw ni oll iw winllan, ag yn cynnyg y cyflog gorau: awn yntau iddi yn ddiattreg, a gweithiwn tra byddo hi yn ddydd, cyn dyfod y nôs, pan nad allo neb weithio. Yſtyriwn mai ein brenin a'n barnwr fydd yn ein cymmell i ofalu am ein iechydwriaeth, ag fod nawdd a thrugaredd iw cael er mwyn ei ddioddefaint ef, er na ddarfu ini ddwyn pwys y dydd a'r gwrês. I mae ef yn mynegi fod gorfoledd yn y nefoedd oblegid un pechadur a edifarhao; ag i mae ef yma yn gwneuthur y ſawl a aethant i'r winllan ar yr unfed awr ar ddeg ar ei air ef o'r un fraint a'r ſawl a aethant iddi yn gynnar. Ni ddichon dim roddi mwy calondid i bechaduriaid truain edifeiriol na 'r cymmelliad graſlon yma: o herwydd

herwydd i mae ef yn Arglwydd hollol ar ei eglwys, ag efe a fu farw dros bawb o'r rhai gwir edifeiriol, ag i mae addewidion yr efengyl yn perthyn iddynt yn rhâd. O herwydd ef ei hunan a gyflawnodd bob cyfiawnder; a gwyn eu byd y ſawl oll ag ſydd yn newynu ag yn ſychedu cael eu cyfiawnhau trwy ei gyfiawnder ef, canys hwy a ddiwellir.

O bydded i bawb o honom wrando ar y lleferydd nefol, a dyfod yn ebrwydd o gaethiwed ſatan, *i rydd-did ogoneddus plant Duw.* I mae Criſt yn dywedyd fod ei ddefaid ef yn adnabod ei lais ef. Dangoſwn ein bod yn perthyn iddo drwy ein buchedd a'n hymarweddiad; ag os bu neb o honom yn blant yr anufudd-dod, ag yn gaethweiſion i'n gelyn yſprydol hyd hyn o'n bywyd, bydded ini weithio allan ein iechydwriaeth trwy ofn a dychryn yn yr amſer ſydd i ddyfod, a chofiwn i Griſt farw droſom i'n rhyddhau ni oddiwrth lywodraeth pechod. Os na wrandawn ni arno ef yrawron yn ei air, ef a ddaw ei hunan i draethu barn yn ein herbyn, am ini wrthod ei drugaredd yn yr efengyl; ag yna yn wir hi a fydd ry hwyr i neb

neb feddwl am iechydwriaeth. O herwydd amſer ein prawf, ag amſer gweithio yn ei winllan ef a darfydd dros byth, a rhaid i'r gwrthodedig dirâs fyned i'r lle hwnnw *lle mae wylofain a rhincian dannedd.* Mi a ddymunwn i bob enaid ddwys yſtyried y pethau hyn, tra byddo moddion grâs ag iechydwriaeth iw cael. Chwi a glywch ein iachawdwr yn gofyn i bob pechadur anedifeiriol, annychweledig, *pa ham i ſefwch chwi yma ar hyd y dydd yn ſegur?* Yn wir i mae y ſawl ag ſydd yn gwaſanaethu pechod yn derbyn cyflog, ſef, yr ail farwolaeth a cholledigaeth dragywyddol. Ond i mae y ſawl ſydd yn gwrando ar leferydd Criſt, ag yn troi oddiwrth eu pechodau, yn cael taliad haelionus iawn. I mae eu pechodau oll yn cael eu maddeu er mwyn ei werthfawroccaf waed ef, yr hwn a dywalldwyd dros bechodau 'r byd. I mae ef yn mynegi yn eglur, *na ddaeth ef ddim i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch. Deuwch,* meddai ef, *attafi, bawb ag ſydd yn flinderog ag yn llwythog, ag mi a yſcafnhâ arnoch; o herwydd fy iau i ſydd eſmwyth, a'm baich ſydd yſcafn, a chwi a gewch orphwyſfa i'ch eneidiau.* Mat. xi. 29.

Duw

Duw 'r nefoedd a ganiattao i bob enaid o honom râs felly i wrando ar leferydd Criſt yn ei air yn y bywyd yma, gyda phob difrifwch ag ufudd-dod, modd i gallom yn gyſſurus ddiſgwyl ei ddyfodiad i farn, a gael cyfran gyda 'r ſaint yn y goleuni. *Amen.*

PREG-

PREGETH XII.

2 Cor. xiii. 5.

Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, ſef, bod Ieſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi fod yn anghymmeradwy?

MEGIS ag i dylai pob criſtion gadw ei hunan oddiwrth y ddau berygl o ryfyg diſail ar y naill du, ag anobaith o'r tu arall; felly ef a ddylai yn ofalus ymroi i gyrraedd ſiccrwydd mewn perthynas iw gyflwr rhagllaw. Meddwl ein bod ni mewn cyflwr o râs pan nad ym ni ddim felly, a gobeithio am y nêf a gochel uffern, ar achoſion diſail, yw 'r pechod enbyd o obaith gau a rhyfyg afreſymmol; a pheth arall yw diofalwch ynghylch cyflwr ein heneidiau ond difrawch cnawdol ag enbydus? Os bydd dyn yn meddwl fod ei dda bydol mewn cyflwr ag anſawdd amheuus a phetrus, pa gymmaint

gymmaint o boen a gymmer iw diogelu! ag a feiddia dynion fodloni eu hunain a ſeiliau egwan, diſdadl, ynghylch matter mor bwysfawr a'u gobaith am fywyd tragywyddol! Pa ynfydrwydd, pa erchyll wallcof yw hyn! Mor ffôl ydyw ag eiddo 'r rheini ag ſydd yn cychwyn i daith bell, ag nid oes ganddynt mo'r modd iw cynnal ar eu taith, ag ni wyddant ychwaith i ba ddiben i maent yn ymdeithio.

I mae 'r apoſtol yn y geiriau hyn yn cynghori *y Corinthiaid* ddyfod i ryw ſiccrwydd ynghylch cyflwr eu heneidiau; ag i mae yn dangos iddynt y modd iw chyrraedd. *Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain?* medd ef; a ydych chwi, y rhai ydych mor wybodus mewn pethau eraill, yn anwybodus o'r hyn ag ſydd o'r pwys mwyaf oll i chwi, ſef, eich calonnau a'ch cydwybodau? a ydych chwi anwybodus o wirionedd mor bwysfawr, mor angenrheidiol, ag mor eglur? ſef, os nad yw Criſt ynnoch drwy ei radau, a thrwy y cynneddfau ſanctaidd a ddyſcodd ag a ymarferodd efo honynt, a'r rhai i mae ef yn eu gweithredu yn eneidiau pawb o'r gwir griſtianogion: eich bod chwi yn anghymmeradwy, yn gyfryw ddynion nad

yw

yw Duw yn ymfodloni ynnoch, ond a'ch bwrw chwi i ddeſtryw tragywyddol o'i wydd? Ag am hynny, gan fod hwn yn beth mor bwysfawr, *profwch chwychwi eich hunain, holwch eich hunain, a ydych yn y ffydd.* Hynny yw; a'i ydych griſtianogion mewn gwirionedd, ai yntau mewn enw yn unig. Nid digon oedd ganddo ef roddi un rhybudd, ond i mae yn ei ddyblu ag yn ei gymmell arnynt gyda mawr ddifrifwch, gan ddangos mawr bwys ag angenrhaid y ddyledſwydd, a'i zêl ei hunan am iddo gael ei gyflawnu. *Profwch chwychwi eich hunain; holwch eich hunain. Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, ſef, bod Ieſu Griſt ynnoch, oddieithr i chwi fod yn anghymmeradwy?*

Oddiwrth y geiriau wedi eu heglurhau yn y modd hyn, ni a allwn dynnu yr yſtyriaethau pwysfawr hyn:

Yn *gyntaf.* Sef, ar ymroi o honom i gyrraedd gwybodaeth a ſicrwydd ddigonol, pa un ai 'n bod ni mewn cyflwr o iechydwriaeth, ai nad ym; a bod yn boſſibl ini gyrraedd hynny, mor belled ag i mae yn angenrheidiol ini yn y cyflwr yma. *Ai nid ydych yn adnabod eich hunain, ſef, bod Ieſu Griſt ynnoch, oddieithr eich bod chwi yn anghymmeradwy?*

Yn *ail* Fod y ſiccrwydd yma, mewn gwybodaeth o honom ein hunain, mewn perthynas i ffydd ag efengyl Grift.

Yn *drydydd* Fod y ſiccrwydd hon ſiw chael drwy holi ein hunain yn ol rheolau'r efengyl. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd, halwch eich hunain.*

Yn *gyntaf.* Efa ddylai griftion ymofyn am ſiccrwydd pa un ai fod mewn cyflwr iechydwriaeth a thragywyddol wynfyd, ai peidio; ag i dichon efi gyrraedd gymmaint o wybodaeth ynghylch hynny ag a fo angenrheidiol yn y cyflwr yma.

I mae'r yſgrythur yn dyſcu hyn yn olau, pan yw yn gorchymmyn ini *fod yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn ſicr.* 2 Pedr ii. 10. Ag os nad allwn ni ei gwneuthur hi yn ſiccr ag yn ddiogel, pa ham i gorchymmynnir ini arfer diwydrwydd i'r diben hwnnw? Pa ham i mae cynnifer nodau, arwyddion, a gwahaniadau wedi eu goſod i lawr yn yr yſgrythur lân, drwy bai rai i dichon y drygionus a'r duwiol gael eu hamlygu y naill oddiwrth y llall, os nad allwn ni wybod yn ſiccr i bwy i maent hwy yn deiryd? Pa gyffur a ddichon dyn gymmeryd yn addewidion Duw,

oni

oni ddichon ef ddywedyd pa un ai bod gan-ddo ef hawl ynddynt ai peidio? I mae'r Apostol yn mynegi fod addewidion Duw yn sicr ag yn ffyddlon i'r ffyddloniaid ledyd-wrueth, *modd i gallont gael cyffur.* Heb. vi. 11. Ag i mae yn siarad am lawn sicrwydd ffydd a gobaith, y rhai a allant eu cyrraedd a'u mwynhau eu hunain ynddynt, megis wrth *Angor yr enaid, yn ddiogel ag yn sicr.* Ag i mae yn gweddio ar iddynt gael *yr ysprydoedd o'u ffaith sevyr eiriol*, gan ddywedyd wrthynt; mai trwy Jesu Grist i mae iddynt ddyfodiad at Dduw gyda hyder a sicrwydd. A'r unrhyw Apostol, pan oedd agos a gorphen ei ffyfl gwiflanogol, fydd mewn modd gorfoleddus yn difgwyl coron a gwobr ei ffuddugoliaethau: *Mi a ymdrechais ymdreth deg; mi a gedwais y ffydd; o hyn allan rhoddwyd i'm coron cyfiownder i'w rhoddi imi, yr hon a rydd yr Arglwydd y Barnwr cyfiawn imi yn y dydd hwnnw*; ag nid imi yn unig, *ond hefyd i bawb a garant ei ymddangofiad ef.* I mae *Pedr* yn dywedyd wrth Grift, ei fod ef yn ei garu, ag i gwyddai Grift ei fod ef yn gwnethur felly. Ac i mae St. *Joan* yn ei epiftol cyntaf, yn rhoi lawer o arwyddion trwy ba rai i dichon dynion

wybod, pa un a'u bod yn adnabod ac yn caru Duw, a pha un ai bod ei gariad ef wedi ei berffeithio ynddynt, ai peidio, ac i mae amlwg nodau wedi eu rhoddi trwy ba rai i gellir yn eglur wybod gwahaniaeth rhwng plant Duw a phlant diafol: *wrth hyn i gwyddom ir adwaenom ef, os cadwn ei orchymynion.* Joan ii. 3. *Yn hyn i mae yn amlwg plant Duw a phlant diafol: pob un ag ydd heb gyfiawnder, nid yw o Dduw, na'r hwn nid yw yn caru ei frawd.* A ydyw nodau gwahaniaeth rhwng plant Duw a phlant diafol mor anamlwg a dirgel, fel nad ellir eu hadnabod gennym ni? Ai amhoſſibl ini wybod pa un ai'n bod ni yn credu ag yn ufuddhau yn ddiffuant i orchymmynion Duw, ai nad ydym? Onid yw natur gweithredoedd a delw diafol, yn hawdd eu gwahaniaethu oddiwrth ddelw Duw? Ag onid yw yn hawdd canfod y rhagoriaeth ſydd rhwng y ffordd lydan ſydd yn arwain i ddeſtryw, a'r ffordd gul ſydd yn arwain i'r nefoedd? Yn wir i mae yn anhawdd, ond nid amhoſſibl ini wybod ein calonnau twyllodrus ein hunain a ſiccrwydd ddigonol, ag onid e, ni buaſid ſyth yn peri ini eu chwilio, a'u profi a'u holi; ag ni buaſai yr Apoſtol

ddim

ddim yn dywedyd iddo ef yſurifennu y pethau hyn, megis i gallai y rhai oedd yn credu wybod neu gael ſicrwydd, fod ganddynt hwy hawl yn y bywyd tragywyddol; a hynny trwy arwyddion a ſeiliau Duw wedi ei hargraphu ar eu natur, ac yn eu hamlygu hwy yn eu bucheddau s'u gweithredoedd; ar ymddangoſiad pa rai ef a prchyttnynnwydiddynt orfoleddu, ie a gorfoledd anrhaethol a gogoneddus: Yr hyn ni allent hwy wneuthur, oni bai ganddynt hyw ſicrwydd, a allai roddi achos he gorfoledd, ag fod ganddynt arwyddion drwy ba rai i gallynt wybod pa un ai darfu iddynt gyflawnu yr ammod, ar ba un ir oeddynt wedi adeiladu eu ſicrwydd.——Ond,

Yn *ail.* I mae yn rhaid ini yſtyried ymmha beth i mae'r ſicrwydd hon yn ſefyll, a pha fodd i mae ini ei chyrraedd. A chan fod hyn yn beth o fawr bwys, mi a wnaf fyngorau er ei egluro.—Ac,

Yn *gyntaf*, drwy yr hyder neu y llawn ſicrwydd yma, am dan ein cyſlwr mewn perthynas i râs yma a gwynfyd rhag-llaw, a gyrrhaeddir drwy holiad o honom ein hunain drwy reol gair Duw. I mae'r enaid, drwy gyfarwyddyd yſpryd Duw, yn edrych

yn ol ar ei weithredoedd ag yn eu cymmharu hwy a gair Duw, ag oddiyno yn cael gwybodaeth o'r gwirionedd a'r purdeb sydd ynddynt, a'u cyttundeb ag ewyllys Duw, ag oddiyno i mae yn tynnu barn siccr o'i gyflwr ei hunan mewn perthynas i ddedwyddwch tragywyddol. I mae ef yn teimlo, yn profi ag yn gwybod, ei fod yn credu ag yn adnabod ewyllys Duw, ag iddo hyd yn hyn ufuddhau iddo; ag o herwydd drwy y manwl a'r cywir ymofynniad yma, nad yw ei gydwybod neu ei galon yn ei farnu yn euog, i mae gantho hyder tuac at Dduw. Ond fo ellir gofyn yma, drwy ba fodd i gellir cyrraedd yr hyder neu y llawn siccrwydd yma? Ir wyf yn atteb, fod yr enaid grafol yn yftyried pa beth yw ammodau dedwyddwch tragywyddol yn yr yfgrythur lân; a hyn i mae yn ei ganfod drwy graffu ar air Duw yn gyffon ym mhob lle, yw ffydd ag ufudd-dod iw orchymmynion. *Yr hwn ag fydd yn credu ag a fedyddiwyd a fydd cadwedig; end yr hwn nid yw yn credu a gondemnir. Gwyn eu byd y fawl fydd yn gwneuthur ei orchymmynion ef, fel i byddo iddynt fraint ym mhren y bywyd, ag i gallont fyned i mewn drwy'r porth i'r ddinas.* Datg. xxii.

xxii. 14. Ym mha lecedd i mae hawl i fywyd tragywyddol wedi eu gosod i lawr ar ammod ufudd-dod i orchymmynion Duw.

Yn *ail.* I mae'r enaid grasol yn gofyn iddo ei hunan, pa beth yw crêd neu ffydd. Wrth fyfyrio ar yr hyn a ddyscodd allan o'r yscrythur, i mae yn canfod ei bod yn sefyll, yn gyntaf, mewn ymddiried a hyder yn y gwirionedd o'r hyn a ddatguddiodd Duw a Chrift ini yn yr yfgrythur, megis i mae wedi ei ofod allan yn y geiriau hyn a draethodd ein Iachawdwr, o flaen ei escynniad i'r nefoedd: *Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a gredo ag a fedyddier a fydd cadwedig.* Marc xvi. 15, 16. Trwy grêd i'r gwirionedd i deellir yn eglur gydfynniad a'r efengyl; yr hon yn fynych yn yr yfgrythur lân a gyfenwir gwirionedd, o herwydd hi a ddatguddiwyd gan Dduw, *yr hwn ni ddichon ddywedyd anwir*; o herwydd paham, o ran ffyddlondeb a gwirionedd Duw, i mae yr enaid cywir grasol yn credu yr hyn a ddatguddiodd ef. Ond yn *ail*, i mae'r enaid grasol yn canfod fod ffydd yn cynnwys ynddi, nid yn unig gydfynniad i holl wirioneddau yr efengyl, ond hefyd gydfynniad cyfammodol a hwynt, a

gyflawnwyd

gyflawnwyd mewn bedydd; ym mha un ir ym ni yn proffeſu credu holl bynciau y grefydd griſtianogol, ymadaw a phechod, a chadw ewyllys Duw a'i orchymmynion. I mae y broffes, yr ymroad, a'r addüned ſantaidd yma, y ſydd yn gofyn ini roddi ein hunain i fyny i Dduw Tad, y Mab, a'r Yſpryd Glan, i gael ein prynu, ein ſanteiddio, a'n hachub, mewn cred o'r hyn a addawodd, ag mewn bwriadau diffuant o wneuthur yr hyn a orchymmynodd, yn cael ei galw yn ffydd yn yr yſgrythur lân; o herwydd yno ir ym ni nid yn unig yn credu i air Duw, o herwydd ei wirionedd a'i ffyddlondeb, ond ir ym ni hefyd yn cytſynnio yn ffyddlon ag yn gywir gyflawnu yr ammodau, gan hyderu ag ymddiried ynddo ef am gyflawniad ei addewidion; gan addo yn hollol drwy eraill yn ein mebyd yn ein bedydd, a thrwom ein hunain pan ddelom i oedran, gan ymroi yn ddiattreg eu cwpplhau, megis i trefno Duw ini einioes ag odfeydd. Trwy fod Duw wedi danfon ei fab i'r byd i wahodd pechaduriaid i fyd arall o dragywyddol wynfyd; trwy gyflawnu llawer o brophwydoliaethau, a thrwy wneuthur llawer o wyrthiau, i gweithio ym

meddyliau

meddyliau dynion grêd o wirionedd yr athrawiaeth a draddododd, yr rhai ſydd o'r achos hwnnw yn credu ynddi. Ond ni wasanaethau hyn, oni chydſynniant hwy hefyd a'r ammodau a gynnygiodd efe iddynt, yr hyn a wnair yn y bedydd. Ond os rhan Duw einioes ni wasanaetha y naill na'r llall i gaffael bywyd tragywyddol, oni chyſtewnir hefyd yr ammodau a ddarfu ini gytſynnio a hwynt. Y cytſynniad a'r cyttundeb a'r ammodau, a elwir ffydd neu ffyddlon bruſſes o'r hyn ir ym ni yn ei gredu yn yr yſgrythur lân. Ag ymwrthod a'r ffydd gyntaf, yw torri yr addewid ffyddlon a'r cyſſegriad o honom i Ddnw a wnaethom ni ar y dechreuad. A bod o honom wedi cadw ein ffydd, yw fod o honom wedi bod yn ffyddlon ag yn ddianwadal yn ein helynt griſtianogol yn ol rheolau'r efengyl. Yrawron i mae'r criſtion ffyddlon pan yw ef yn ei holi ei hunan, yn gofyn iw enaid ei hun yr ymofynniad yma: A ydwyſi yn credu, hynny yw, a ydwyſi yn cytſynnio a gwirioneddau'r efengyl ar awdurdod a thyſtiolaeth Duw, yr hwn yw gwirionedd ei hunan, a'r hwn a'i datguddiodd imi? A wyſi yn cytſynniaw ar ammodau y cyfam-

mod

mod a ofynnwyd o'm rhan i, gan ymddi-ried yn Nuw am gyflawniad ei addewidion, ag ymroi ymarfer ei gyfreithiau a'i orchymmynion gan ufuddhau iddynt? Gadewch imi yſtyried, pa bryd i cyflawnwyd hyn gennyfi? Ef am cyflawnwyd i Dduw yn fy medydd; ag yno i darfu imi addaw hyn mewn modd arbennig drwy y ſail a'm cyflegrodd iw waſanaeth; y pryd hwnnw i'm hoddwyd mewn cyflwr iechydwriaeth. A phan ddarfu imi gymmeryd arnaf fy hun gyflawniad yr addunedhon drwy brofes grifiianogol, pan ddaethum i oedran a fynwyr, a thrwy gael fy addyſcu yn egwyddorion crefydd, a thrwy gyfrannu wedi hynny o'r ſacrament bendigedig, ym mha un ir adnewyddais yr addewid a'r addunedd a wnaethpwyd gennyfi, ir wyf yn gweled fyth fy mod mewn cyflwr cadwedig, gan na ddarfu imi trwy râs Duw erioed golli fy hawl iddi drwy unrhyw bechod gorthrwm. Dedwydd yr enaid a ddichon fyned mor bell a hyn, ag a ddiangodd rhag fyrthio i'r profedigaethau hynny ag i mae ieuengctyd yn ddaroſlyngedig iddynt. A dedwydd yw'r rhieni hynny ag a gymmeraſant ofal dyledus am ddwyn i fynu a meithrin

thrin eu plant yn ofn ag addyſc yr Arglwydd; gan yſpyſu iddynt yr addewid a wnaethant yn eu bedydd, ag nid ydynt yn gadael iddynt dorri ei hadduned a Duw. Ag yn y modd hyn i mae'r enaid graſol yn myned ymlaen drwy bob parth o'i fywyd, gan brofi a holi ei hunan drwy air Duw; ag oddiyno i mae yn cynnull y cyfryw ſiccrwydd am ei gyflwr rhagllaw, ag ſydd yn gweddu iw brofiad yn y byd hwn. Os yw ef yn canfod fod ganddo gariad parhaus a diymmod tuac at Dduw, y cyfryw ag a ymddangoſo yn ymarweddiad ei fuddedd, ag iddo ei gadw rhag ſyrthio i unrhyw bechod, neu o'r lleiaf rhag aros mewn unrhyw droſſedd anfad, heb edifarhau am dani ag ymadaw a hi.—Ond,

Yn *drydydd*, Ir ym ni i ymofyn, pa fodd i mae yr enaid cywir graſol yn holi ei hunan, modd i gallo gyrraedd ſail ddigonol o ſiccrwydd. Yn y lle cyntaf i mae'r enaid graſol yn yſtyried, pa beth yw ammodau tragywyddol ddedwyddwch yn yr yſgrythurlan, ag oddiwrth holl ergyd ag amcan gair Duw i mae yn canfod eu bod yn gynnwyſedig yn y ddau bwnc yma, *edifeirwch tuac at Dduw, a ffydd tuac at ein Harglwydd Jeſu*

Jeſu Griſt; neu gariad Duw o flaen pob peth, a chymmeriad o Griſt yn gyfryngwr ini, i fod yn brynwr neu offeiriad, yn broph-wyd neu ddeddfwr, ag yn frenin neu ly-wodraethwr; cyfreithiau yr hwn ir ym ni i ufuddhau iddynt, neu yntau mewn geiriau byrrach, ffydd ag ufudd-dod; pa bethau oll ydynt yn arwyddoccau yr un peth. Am ba rai i mae yn eglur y teſtunau canlynol, ymhlith amryw eraill yn yr yſ-grythur lân, *Y neb a gredo ag a fedyddier a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir.* Marc xvi. 16. *Gwyn eu byd y rhai ſydd yn gwneuthur ei orchymmynion ef, fel i byddo iddynt fraint ym mhren y bywyd, ag i gallo ef fyned i mewn trwy'r porth i'r ddinas.* Datg. xxii. 14. Lle mae ein hawl ni i fywyd tragywyddol gwedi ei ſeilio ar ufudd-dod i orchymmynion Duw, a'r hawl honno wedi ei ſefydlu a'i ſiccrhau ini trwy'r cyfammod grâs, neu drwy fatwolaeth a chyf-ryngiad Criſt. Yrawron gan fod yr enaid graſol yn canfod fod y ddeu beth yma yn ammodau bywyd tragywyddol, i mae ef yn ymholi ei hunan yn gywir ynghylch y ddau. Yn y lle cyntaf mewn perthynas i ffydd. I mae yn canfod wrth yr hyn a ddyſcodd

drwy

drwy fyfyrio ar yr yſgrythur lân a gweinidogaeth gair Duw, mai cynneddf raſol yr enaid ydyw, drwy ba un i mae yn cytſynnio a'r holl wirioneddau nefol, a hynny ar awdurdod gair Duw yn eu datguddio, yn ol yr wybodaeth, a'r dyſtiolaeth, a'r ſiccrwydd a roddir yno am danynt, yr hon ffydd ſydd yn dwyn ffrwythau cyfaddas iddi. Ag yno i mae yr enaid graſol yn profi a holi ei hunan, a oes ganddi hi y cyfryw ffydd a hon, ai nad oes? A ddarfu imi, meddai ef, chwilio yr yſcrythurau yn ddyfal ag yn ddiwyd, megis i gallwn wybod ewyllys Duw, heb yr hyn ni ddichon fod gennyf ffydd? Canys pa fodd dichon dyn gredu yr hyn nid oes ganddo ddim gwybodaeth ddyladwy yn ei gylch? A wyfi yn credu mai Duw yw gwirionedd ei hunan? a thrwy yſtyr y rheſymmau pwysfawr ag ſydd yn fy annog, a wyfi yn credu mai gair Duw yw 'r yſgrythurau; ag a ydwyfi yn cytſynnio a'r pethau a draddodir ynddynt, ar awdurdod Duw, yr hwn ni ddichon fy nhwyllo i na chael ei ſiommi ei hunan? A ddarfu imi yn fynych yſtyried y gwirioneddau nefol a gynnwyſir yn yr yſgrythurau? Ag a ydynt hwy wedi eu ſefydlu

a'u gwreiddio yn ddwfn ar fy meddwl, a'u bod hwy yn gymhefin yn breſennol ag yn barod pan fo achos imi ymarfer a hwynt? Ag a ydynt hwy yn dwyn ynnoſi y cyfryw ffrwythau ac effeithiau ac i bwriadwyd hwynt iw dwyn ynnof? A ddarfu i'm crêd i ym mygythion Duw, weithio ynnof ofn ſantaidd o hono? Ag a ydyw cariad, ymddiried yn Nuw, a hyder arno, yn gweithio ynof ffydd yn ei addewidion? A ddarfu ffydd yngwaed a marwolaeth Chriſt, weithio ynnoſi daliad cyfattebol o gariad, ymddiried am faddeuant, ag iechydwriaeth, a holl ddoniau eraill ei ddioddefaint ef? A hyn yw arwydd ddiſgymmynion a bwriadu eu cwpplau hwynt ag ufuddhau iddynt, yn unig ar ddiſgwyliad o wobrwyau rhagllaw yn y nefoedd? A phan hudwyd ſi gan bleſſerau preſennol neu fudd am eu torri, a ddarfu i mi droſeddu? Ag os parheais i yn ddianwadal yn fy nyledſwydd, oni ddichon fod gennyſi hyder tuac at Dduw gan fod fy ffydd i yn wirioneddol, gan weled iddo gael y fuddugoliaeth ar ddiafol, y byd a'r cnawd yn amſer perygl a phrofedigaeth; ag a eglurodd ei hunan

drwy

drwy weithredoedd cariad, y rhai ydynt nodau ag arwyddion ffydd ddiffuant yn yr yſgrythur lân. Os cenfydd yr anaid grafol wrth holi fod ganddi yn cyfryw ffydd a hon; ffydd ag fydd ynglŷn a chariad gwreſog a damuniana o Dduw a Chriſt, ag o'i pethau anwelediig gwerthfawr hynny, y rhai a addawodd Duw ag a brynodd Criſt iw ffyddloniaid; y cyfryw ffydd ag a orchfygo bob damuniadau eraill, a'r hon fydd yn ſefydlu yn y meddwl fwriad diyſcog o wneuthur neu ddioddef unrhyw beth yn hytrach na digio Duw, colli ei ffafr, neu ddyfod yn fyrr o'i addewidion; yna i dichon fod yn ſiccr fod ganddo y cyfryw ffydd ag fydd ddigonol tuac at iechydwriaeth, megis i mae yn eglur oddiwrth fod maddeuant pechodau wedi ei haddaw iddi yn y cyfammod grâs ir ym ni yn myned dano yn ein bedydd. Ag os yw helynt einioes dyn yn cael ei llywio a chariad tuac at Dduw ag ufudd-dod iw orchymmynion, hi ddwg allan ffrwythau ffydd yn ei ymarweddiad, yr hyn yw gweithredoedd da, heb ba rai i mae St. *Iago* yn mynegi, *mai marw yw ffydd*; a'r rhai i mae St. *Paul* yn cynghori *i'r ſawl a gredaſant*, i Dduw flaenori yn-

ddynt, gan eu bod yn dda a buddiol i ddynion, ag megis i gallont drwy barhau yn gwneuthur felly, etifeddu bywyd tragywyddol. Yr hyn Duw mawr o'i drugaredd, a ganiattao i bob enaid o honom râs iw wneuthur, trwy Grift ein Prynwr. *Amen.*

PREG-

PREGETH XIII.

Matt. vi. 13, *rhan gyntaf.*

Ag nag arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg.

NID oes dim ammau nad yw cyflwr y gwir edifeiriol yn dwyn ei chyfur a'i diddanwch gyda hi. Canys y gobaith fydd ganddo am faddeuant trwy ymyscaroedd a thrugareddau Crift, ynghyd a'r bwriad daionus i mae yn ei gahfod ynddo ei hunan, o ufuddhau i'r ammodau efmwyth a rhefymmol, ar ba rai i cynnigir hi iddo, ydyw'r fail fwyaf cyffurus o hyder a ffecrwydd ag a ddichon fod yn y bywyd hwn. Ond etto er hyn, er i dichon ef ar yr ammod yma fod yn ddiogel am faddeuant ei bechodau aethant heibio, ni ddichon ef er hyn ddim feddwl i pair hyn iddo fod yn rhydd oddiwrth

bechu yn yr amſer a ddaw. Canys er i dichon ei fod ef wedi ei ryddhau oddiwrth ei bechodau, etto ni ddichon ef ddim gael ei waredu oddiwrth ei wendidau a'i freuolder, canys parodrwydd yr yſpryd a rwyſtrir yn waſdadol gan wendid y cnawd. Ag heblaw hyn, i mae'r ffordd i mae ef i rodio ynddi yn llawn o beryglon a rhwyſtrau, o byllau a maglau, y rhai oll a allant beri iddo dramcwyddo. Ag am hynny yr edifeiriol, pan ſo ef yn ſefyll yn fwyaf unionſyth trwy ffydd, ſydd raid iddo wylied rhag iddo ſyrthio, a rhag i'r ail cwymp fod yn waeth ag yn fwy anafus na'r cyntaf. A pho lleiaf achos a ſo ganddo i ymddiried yn ei nerth ei hun, mwyaf oll yw'r eiſiau ſydd arno i weddio am raſol amddiffynniad ag ymwared, oddiwrth Dduw 'r holl allu a'r nerth; yr hyn yn ol cyfarwyddyd ein Harglwydd ei hun, ſydd yn gynnwyſedig yn yr erfynniad hon yma; *Ag nag arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg.* Ag megis i dyſcom ni oll weddio, megis i'n haddyſcir yma, mi a roddaf,

Yn y lle *cyntaf*, Gywir ſeddwl ag yſtyr yr erfynniad hon yma.

Yn

Yn *ail*, Mi a grybwyllaf dymmerau a chynneddfau cyfaddas yr enaid, a pha rai i dylem eu chyflwyno.

Yrawron tuac at iawn ddirnad yſtyr yr erfynniad, buddiol fydd yſtyried yn *gyntaf*, Pa beth a ddeellir wrth *Brofedigaeth*.—Yn *ail*, Pa beth a ddeellir wrth gael ein harwain i brofedigaeth.—Ag yn *drydydd*, Pa beth yw'r drwg hwnnw, oddiwrth ba un ir ym ni yn gweddio am gael ein gwaredu.

Yn *gyntaf*. Gadewch ini yſtyried, pa beth a ddeellir wrth *brofedigaeth*, o herwydd i mae amryw yſtyriaethau i'r gair. Weithiau i mae yn arwyddoccau yn unig, brawf a chwiliad cymmwys i wybod beth yw tymmer, tueddiad, neu fwriadau dynion. Yn y modd hyn i dywedir i Dduw brofi *Abraham*, pan orchymmynodd iddo aberthu ei fab *Iſaac*, ag a wnaeth brofiad o'i ffydd yn groes i ſerch naturiol, ag yn wrthwyneb i'r hyn a debygin ei fod boſſibl. Yn y modd hyn i profodd ef yr *Iſraeliaid, gan eu harwain ddeugain mlynedd trwy'r anialwch, er mwyn eu cyſtuddio hwynt, gan eu profi i wybod yr hyn oedd yn eu calonnau, a gadwent ei orchymmynion ef, ai nas cadwent.* Deut. viii. 2. Nid am fod eiſiau hyſpyſrwydd ar Dduw, *oddiwrth yr hwn ni ddichon fod dim dirgel*

yn

yn guddiedig; ond o ran fod y profiad yma mewn ffordd o addyſc yn tueddu fwyaf at ei ogoniant ef, ag yn fwyaf lleſol iw bobl, megis i mae yn defnyddio ag yn chwanegu eu ffydd a'u hyder yn Nuw, ag yn eu cadarnhau yn eu hufudd-dod.

Ond diau yw, nad dyma fath brofedigaeth ag i'n haddyſcir ni i weddio yn ei herbyn: yn gyntaf, o herwydd mai iawn a chymmeſur yw i Dduw, yr hwn yw gwneuthurwr a barn wr yr holl ddaear, arferyd ei oruchel awdurdod tuac at gynneſino a phrofi meibion dynion, drwy amryw dreſniadau ei raglunieth, megis ag i gwelo ei ddwyfod ddoethineb ef fod yn dda, a thrwy holi a chwilio eu holl ffyrdd, megis ag i cyflawnhaer yn ei holl farnedigaethau tuac attynt, ag yn enwedig mewn perthynas i'r farn fawr gyffredinol ddiweddaf. Yn ail, am fod y fath yma o brofedigaeth, mewn gwirionedd wedi ei hamcanu er ein lles, ag i mae yn fuddiol tuac at ei ddwyn i ben; gan ei fod yn orcheſt ag yn brawf godidog o rinwedd dda, a'r achlyſur gorau i ddangos ein purdeb, ein calondid a'n dianwadalwch yngwydd Duw; a'r hyn o'r diwedd a rydd ini hawl i wobr mwy gogoneddus.

Ag

Ag am hynny, os iawn farnwn ni, ni a ddylem fel i dywaid St. *Iago, ei gyfrif yn bob llawenydd, pan ſyrthiom mewn amryw brofedigaethau.* Ac i mae ein Hiachawdwr ar yr achos yma, yn addaw rhoddi bendith mwy rhagorol; *Gwyn eich byd pan i'ch gwaradwyddant, ag i'ch erlidiant, ag i dywedant bob drygair yn eich erbyn er ſy mwyn i, a hwy yn gelwyddog. Byddwch lawen a hyfryd canys mawr yw eich gwobr yn y nefoedd.* Matt. v. 11, 12.

Yn *ail*, I mae'r gair *profedigaeth*, yn cael ei arfer yn fynych mewn yſtyr ddrwg, megis achlyſur wedi ei roddi gan ryw achos ddrygionus, neu wedi ei gynnyg a rhyw ddiben anfad, anghyfreithlon, i'n hudo ni oddiwrth ein dyledſwydd, ag i'n bradychu ni i bechod. Hyn i mae St. *Paul* yn ei alw yn brofedigaeth a magl; ag yn yr yſtyr yma i mae St. *Iago* yn ſiccrhau i ni, *Nad yw Duw yn temptio neb*; hynny yw, nid yw, ag ni ddichon nag amcanu na chynnyg, tynnu un dyn i bechod. Ag etto tra byddun ni mewn byd drygionus, ag yn dwyn y cnawd llygredig hwn o'n hamgylch, a chennym elyn mor beryglus a thaer ddrwg ag yw'r Diafol, ni bydd dim eiſiau profedigaethau.

O herwydd i mae'r byd yn llawn o wrthddrychau, ag ſydd yn cyffroi ein gwyniau a'n hanwydau, ag i mae'r pethau hyn oll o ran eu bod feunydd o flaen ein llygaid, yn troi yn brofedigaethau, ag yn ein denu ni i weithredu pechod ag ynfydrwydd. Ag megis mai byd drygionus ydyw, i mae yn llawn o ddrwg ddefodau ag arferion, ag ſydd yn mallu rhinwedd dda a daioni, ag yn cynnyddu ac yn tannu ar led annuwioldeb a drygioni. A'r hyn ſydd etto yn ychwanegu at rym profedigaethau, yw ein gwendid a'n breuolder ein hunain, a bradwriaeth ein trachwantau llygredig, y rhai ſydd, heb waethaf rheſwm a gras, yn ein traddodi ni i allu'r gelyn, a hynny er dirfawr enbydrwydd ein heneidiau anfarwol. A'r hyn ſydd yn peri i'n perygl ni fod etto yn fwy, i mae Satan yn waſtad wrth law gan gynnyg ini amrafaelion hudoliaethau eraill at y profedigaethau hyn; a thuac at y diben yma i mae ef yn fynniaw beth yw tymmer, gogwydd a thueddiad ein natur, a chyflwr ein bywyd; pa fath gyfeilliach a mafnach ir ym yn eu dilyn; y llwyddiant neu'r aflwydd ſydd yn ein dilyn wrth drin ein hamryw orchwylion a'n galwedigaethau,

megis

megis i gallo ef gael rhyw adeg i'n bachellu ag i'n maglu. Yrawron yn erbyn yr holl brofedigaethau hyn, ſef pob annogaeth beryglus i bechod, i'n cyfarwyddir i weddio yn yr erfynniad yma. Nid ym ni ychwaith i weddio am ein gwaredu yn hollol oddiwrth y profedigaethau yma, o herwydd ir ym ni yn byw ynghanol profedigaethau beunyddiol, a thra bo rhaid ini wneuthur felly, rhaid ini ddiſgwyl beunyddiol ruthrau oddiwrth elynion ein heneidiau. Cyflwr y criſtion ſydd gyflwr o brofiad; a pha fodd i gallwn ni ddangos ein hunain yn gymmeradwy, oni chawn ni ein profi beth ydym? *Od ymdrech neb* (meddai St. *Paul*) *ni choroner ef onid ymdrech yn gyfreithlon.* Heblaw hynny, oni byddai profedigaeth, ni byddai ddim rhinwedd dda na daioni. I mae rhinwedd dda yn ſefyll ar ein dewiſiad ewyllyſcar a gwirfodd ein hunain, ag ni byddai raid wrth y dewiſiad hwnnw, oni byddai ryw brofedigaeth o'r tu arall. Ag anhawſtra y brofedigaeth ſydd yn ei gwneuthur mor werthfawr yngolwg Duw; o herwydd i mae yn dangos ei bod yn dyfod oddiwrth y ffydd a'r cariad hwnnw, ag ſydd yn gorchfygu 'r byd. Mewn gair, profedigaeth

yw

yw 'r hyn ſydd yn harddu ag yn perffeithio ein rhadau ni yma, ag a chwanega at bwys a phrydferthwch, y goron anllygredig honno o ogoniant, a gawn ni ei hetifeddu rhagllaw. *Yn hyn gan hynny, ni a ddylem fawr lawenhau, er ein bod ychydig yrawron (os rhaid yw) mewn triſtwch, fel i caffer profiad ein ffydd ni, yr hwn ſydd werthfawruſach na 'r aur volladwy, cyd profer ef drwy dân, er mawl ag anrhydedd, a gogoniant yn ymddangoſiad Ieſu Griſt.* 1 Pedr i. 6, 7. Nid ym ni ddim i weddio am gael ein gwaredu yn hollol oddiwrth brofedigaeth; ond yn unig oddiwrth ruthr gorthrwm, a nerthol hudoliaeth y cyfryw brofedigaethau nad ym ni barod iw derbyn, na digonol iw gwrthſefyll. Ag mai dyma fwriad ag amcan yr erfynniad hon yma, a ymddengys ymmhellach, os yſtyriwn ni,

Yn yr *ail* lle, Pa beth a feddyliir wrth gael ein harwain i brofedigaeth.

Cael ein arwain i brofedigaeth, yw cael ein hamgylchu a pherygl, ag ymddyryſu yn y fagl yn y cyfryw fodd ag nad allwn ni fyned yn rhydd o honi. Ag ef a ddywedir fod Duw yn arwain neu yn dwyn dynion i brofedigaeth, er nad yw ef yr union

union a'r digyfrwng achos o honi; canys na ddyweded neb pan demptier, mai gan Dduw i temptir; pan yw dyn meddaf yn cael ei lithio a'i ddenu gan ei drachwantau, pan trwy yr hudoliaeth honno i dygir ef i weithrediad bai ag anwiw o bechod, ag ir annoger i groeſawu a chofleidio ei ddiniſtr a'i golledigaeth. Ond etto, o rann nad oes dim yn digwydd na da na drwg heb ganiattâd Duw, neu drwy drefnid ei lân ragluniaeth ef; ag o rann fod ei farnedigaethau anghynnefin ef weithiau yn achoſion amlwg o fod dynion yn ſyrthio i brofedigaeth; ag o rann fod ei ymadawiad ef mewn barn yn eu gadael yn ddigymmorth ag yn ddiallu iw gwaredu eu hunain; ag am hynny yr hyn i mae Duw yn ei ganiattau i ddigwydd ag heb ei attal, ſydd mewn rhyw yſtyr yn cael ei gyfrif iddo, megis yr achos o hono. Yn y modd hyn i dywedir i Dduw annog *Dafydd* i rifo 'r bobl, er mewn gwirionedd, mai Satan a'i hannogodd ef. Gwagedd ei galon ei hun ag ymddiried ym mraich o gnawd, a'i hudodd ef i hynny, megis i mae yn ymddangos oddiwrth yr hanes, ag oddiwrth y rheſymmau a arferodd *Joab* iw luddias ef.

Yn y modd hyn drachefn, yn yr eſampl hynod o *Pharaoh*, ef a ddywedir i Dduw galedu ei galon ef; nid o ran i Dduw wneuthur dim mewn ffordd naturiol iw chaledu, ond iddo ef, megis adyn truenus, gymmeryd achlyſur iw galedu ei hunan yn ei gyndynrwydd, ie pan oedd y gweithredoedd nerthol hynny, a'r barnedigaethau ofnadwy wedi ſyrthio arno, y rhai oeddynt ddigonol iw meddalhâu ali daroſtwng. Canys pan ganfu ef fod yr ſwynwyr yn gallu dynwared yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wnaeth *Moſes*, ef a debygodd ei fod yn gyſtadl a'r hollalluog, ac ni fynnai ymoſtwng iw allu. A phan oedd barnedigaethau oddiuchod mor drwm arno, ali fod ef weithiau yn gorfod llaryeiddio; etto mor ebrwydd ag i cai ef ychydig o ſeibiant, efe a galedodd ei galon drachefn, gan ryfygu i byddai diwedd ryw ddydd ar ei blâau, ag i gallai ef fod yn Arglwydd hollol ar ei gaethweiſion, er y cyfan a wnaethai Duw yn eu plaid. Ag yn y modd hyn i caledwyd ef, ag i dygwyd bob yn ychydig i'r brofedigaeth ddiweddaf, ddiniſtriol honno, o erlid *Iſrael* i'r mor coch, lle i darfu am dano ef a'i luoedd. Unwaith etto: Ef a ddywedir fod

Duw,

Duw, *wedi rhoddi y cynnedleddeulun-addolgar, i wyniau gwarthus, ag i feddwl anghymmeradwy.* Qnid nid yw hyn ddim yn cynnwys unrhyw weithred bennodol o eiddo Duw, amgen na'u gadael hwy iw trachwantau a'u gwyniau gwaradwyddus, o rann yr anfeion a'r defodau aflan a arferynt yn eu haddoliad, ag i feddwl anghymmeradwy. yn yr hwn yr oedd pob gweddeidd-dra a gwyldeb, a gwahaniaeth da a drwg, wedi diflannu ymmaith. A chyfiawn oedd i Dduw eu gadael hwynt yn y cyflwr hwnnw ag i dygaſent eu hunain iddo; canys megis i mae yn wrthwyneb iw ſanteiddrwydd a'i burdeb ef dempio neu ogwyddo, llai o lawer ar iddo ddirio neb i bechu; felly hefyd ni weddai iddo gymmell neb i fod yn dda o drais, yn enwedig y ſawl a'u gwnaethant eu hunain yn anfad ddrygionus: a hynny yn fwy enwedigol, lle mae nid yn unig theſwm naturiol ond cydwybod hefyd yn cael eu diyſtyru, a barnedigaethau Duw yn cael eu dirmygu, ei drugareddau yn cael eu camarferu, a'i râs yn cael ei gwrthod gydac ammarch. Yna i mae yn dra chyfiawn a chymmwys i Dduw dynnu ymmaith gymmorth ei lân Yſpryd, a goddef o hono i'r

cyfryw ddynion ymdrechu yn ofer dros ychydig, ag yno ſuddo yn aneſcorol dan allu profedigaeth, nad ellir na'u rhagod na'u gochel. Ag yn y modd hyn i gellir dywedyd fod Duw mewn rhyw feſur yn arwain i brofedigaeth; nid trwy unrhyw weithred bennodol o hono ei hun, ond trwy ei oddefiad yn unig, neu drwy gyfrwng trefniadau ei ragluniaeth; megis i mae dynion o'u gwirfodd yn eu camddefnyddio, ag yn eu troi iw niwaid a diniſtr eu hunain; neu yn ddiweddaf drwy ymadawiad yr Yſpryd glân oddiwrthynt; yr honn yw 'r farnedigaeth drommaf ag i mae Duw yn ei danfon ar blant yr anufudd-dod, a'r honn nid yw ef un amſer yn ei rhoddi arnynt hyd oni thriſtaont ef, ag i cythruddont iw ddwyn ef oddiarnynt. Ag megis na 'n gadawer yn y modd hyn i ſyrthio i brofedigaeth, ag na 'n dalier dan ei gallu pan i ſyrthiom, i'n dyſcwyd ni i weddio, *nag arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg.* Mi a yſtyriaf weithian,

Yn *drydydd*, Pa beth yw y drwg hwnnw, oddiwrth yr hwn ir ym ni yn gweddio am gael ein gwaredu.

I mae

I mae rhai yn meddwl i dirnedir yma Satan, prif ddechreuad pob drwg; yr hwn, hyd i mae ei allu yn cyrraedd, ſydd yn ei annog, a'i dannu, a'i chwanogu yn y byd. Ond ef a ddeellir yn fwy cyffredinol am ddrwg pechod, yr hwn ſydd ffrwyth ei annogaeth ddrwg ef, yn cael ei fagu a'i feithrin gan ein trachwantau ein hunain. Ag oddiwrth y gelyn cartrefol a'r drwg diniſtriol hwn, i'n dyſcir ni i weddio ar i Dduw ein noddi a'n gwaredu, yn y cyfryw ffordd a modd ag i gwelo ei dadol ddoethineb ef, fod yn orau er ein lles; naill ai trwy ein cadw ni allan o ffordd profedigaethau mawrion, neu trwy gymmwyſo y profedigaethau i mae yn gweled yn dda ymweled a ni a hwynt, i faintioli ein nerth, a rhoddi o hono ini ei gymmorth enwedigol, yn gyfattebol i faint a grym y profedigaethau, a pha rai ir ym ni i ymdrechu.

Y modd cyntaf drwy ba un i gallwn ni weddio ar Dduw ein *gwared ni rhag drwg*, yw ein cadw allan o ffyrdd profedigaethau mawrion. Canys er nad allwn ni ddiſgwyl na damuno cael ein gwaredu yn hollol oddiwrth bob profedigaeth, etto oddiwrth y

cyfryw ag ſydd beryglus ag yn debygol o fod yn rhy drêch na ni, yn ſicer ni a allwn wneuthur ein hymbiliau at orſeddfainc grâs, a'n dyledſwydd ni yw hynny. Canys er megis milwyr Criſt, na ddylem ni ochel yr ymdrêch, pan fo rhagluniaeth Ddûw yn ein galw ni i ymladd tan ei faner ef yn erbyn ein gelynion yſprydol; etto os rhydd ei ragluniaeth ef ini gennad, ni allwn ei gochel cymmaint ag i bo modd. A thuac at y diben hwnnw, cyfreithlon a chall hefyd iw gweddio ar i Dduw weled yn dda ein cyfleu ni yn y cyfryw gyflwr, ag a fo fwyaf diogel oddiwrth ruthrau a dichellion y gelyn. Y cyfryw ydoedd gweddi *Agur* ddoeth. *Na ddyro imi na thlodi na chyfoeth; portha fi a'm digonedd o fara; rhag imi ymlenwi a'th wadu di, a dywedyd, pwy yw yr Arglwydd? a rhag i mi fyned yn dlawd a lladratta, a chymmeryd enw fy Nuw yn ofer.* Diar. xxx. 8, 9.

Yn *ail.* Nyni a allwn weddio a hynny yn gyfreithlon, ar iddo ryngu bodd Duw gymmwyſo y profedigaethau a pha rai i mae ef yn gweled yn dda ein profi ni, at faintioli ein nerth, a'n tymmer, a'n naws, o herwydd nid yw pawb o'r un wneuthuriad. I mae

rhai

rhai wedi eu cymmwyſo i ddwyn gorthrymderau adfyd, ag yn ſefyll yn ddiyſcog danynt. Eraill drachefn a ſedrant ddwyn llwyddiant a hawddfyd yn gymmedrol ag yn gymmeſur; y rhai os digwydd aflwydd iddynt, a ſyrthiant i ddirfawr anghyſſur a blinder. I mae yn gyfreithlon gan hynny ar yr achoſion yma, allan o ofn dwyfol weddio ar Dduw, ar iddo drefnu pethau felly o'i lân ragluniaeth, megis i gweithio pob peth er daioni ini, ag megis i bo 'r ymoſod arnom yn y lle i bom ni fwy parod i dderbyn yr ymgyrch, ag nid lle i bom ni yn annigonol i wrthſefyll yn wrol.

Yn *drydydd.* Os gwêl Duw yn dda o'i ddoethineb anchwiliadwy ein profi ni a'r profedigaethau garwaf, drwy watwor a ffrewyllan creulon, drwy rwymau a charchar, a thrwy boenau marwolaeth, i mae yn addas ini weddio, megis i bo yr achos yn gofyn, am gynnorthwyon rhagorol o râs, a *chymmeryd o honom attom holl arfogaeth Duw, fel i gallom ſefyll yn y dydd drwg, ag wedi gorphen pob peth, ſefyll.* Eph. vi. 13. Ag yn y cyfamſer, megis i'n llenwir a diddanwch cyffurus ei lân Yſpryd; megis i'n cefnoger a'r eſampl odidog honno, a ddarfu i

Griſt, pentywyſog a pherffeithydd ein ffydd ni, a'r rhai oll a ſuant gyfrannogion o'i ddioddefiadau ef, eu goſod o'n blaen ni; ag megis i gorphwyſo yſpryd y gogoniant arnom ninnau hefyd, i'n cyſſuro a'n llonni a diſgwyliad y tra rhagorol a thragywyddol bwys gogoniant, yr hwn a fydd ein gwobr rhagllaw.

Ag yrawron i grynhoi ynghyd iawn yſtyr yr erfynniad, oddiwrth yr hyn a ddywedpwyd.

Dyma mewn byrr eiriau ei harwyddocâd, ar ini drwy ddyledus deimlad o'n gwendid, ag ofn cyfaddas o'r amryw beryglon ſydd yn ein hamgylchu, gyrchu at Dduw am gymmorth, gan eiriol arno ef, na 'n traddoder i fynu i brofedigaeth, na thrwy gynnefin reol ei rageluiaeth na thrwy doſtrwydd ei farnedigaethau; ar na orthrecho ni, ag na 'n maglo ag na 'n dalio ychwaith dan ei gorthrymder. A thuac at y diben hwn, ir ym ni yn gweddio am ei raſuſol nodded, ei gymmorth a'i ymwared, megis na bom ni wedi ein daroſtwng ormod i brofedigaethau mawrion a pheryglus, neu o'r hyn lleiaf, megis i bont wedi eu cymmwyſo i faintioli ein nerth a'n gallu; neu yſiteu,

os gwêl ef fod yn dda, tuac at ei ogoniant ef a'n lles ninnau, beri ini ſyrthio i'r fath doſtaf o brofedigaeth, ar i gynnorthwyon a rhadau ei lân Yſpryd, fod yn gyfattebol i'n anghenion; ag ar iddo ef, yr hwn a fedr ein gwared oddiwrth brofedigaeth, wneuthur hynny yn effeithiol, a pheri ini yn llwyr ſuddugol a gorfoleddus trwyddo ef yr hwn a'n carodd ni. Nid oes dim iw chwanegu, ond dwyn ar gôf yn fyrr i chwi y cynneddfau a'r tueddiadau ſantaidd ag a ddylai ddilyn yr erfynniad hon.

Y gynneddf ddaionus gyntaf a ddylem ni ei dwyn gyda ni pan fom ni yn cyflwyno yr erfynniad hon i'n Tad nefol, yw teimlad gydwybodol o'n gwendid a'n hammerffeithrwydd yn ein cyflwr preſennol; a hynny mewn perthynas i'n nerth naturiol a'n gallu yſprydol. Nid allwn ni ddim llai na bod yn deimladwy fod ein hanian wedi gwanhychu gymmaint trwy bechod, ag nad ydym ni ddigonol o honom ein hunain i ddim ag ſydd dda; ag am hynny ir ym ni yn ymbilio ar Dduw yn ein gweddi am faddeuant pechodau, ag am ei radol gynnorthwy hefyd. Ag i mae yn rhaid ein bod ni yn deimladwy hefyd, mai er ei dichon

methiant

methiant natur gael ei chyweiriо gan râs Duw, etto nad oes dim perffeithrwydd tu yma i'r nêf. Fo ſydd tueddiant i bechod fyth yn y goraû o ddynion, a rhyw weddillion llygredigaeth yn y ſeintiau mwyaf; ag i mae eſamplau eu tramcwyddiadau wedi eu goſod i lawr yn yr yſgrythurau ſantaidd, i ddyſcu ini fod yn ofalus a goſtyngedig gyda theimlad dyladwy o'n gwendidau, y rhai ſydd yn glynu wrth ein natur. Ni a ddylem weddio megis i'n cyfarwyddir yma, am gymmorth a nodded yr hollalluog; a hynny a hyder ddianwadal ar holl ddigonoldeb grâs Duw; canys er ein bod ni wrth natur yn egwan ag yn frau, etto ni a allwn ddyſod yn gryf yn yr Arglwydd, canys *i mae ef yn darpar ddigel i'r ſowl a raddant eu hymddiried yndo.* Nyni a ddylem gan hynny weddio gyda 'r hyder yma, megis i gallo gallu grâs Duw gael ei mawrygu ynnom; ag os yn y modd hyn i gweddiwn, nid rhaid ini ddim ammau na bydd ein holl anghenion a'n gwendidau yn cael eu llwyr ddiwallu a'u digoni. Canys er cyſſur ini i mae yn yſcrifennedig, *digon iti fy ngrâs i; canys fy nerth i a berffeithir mewn gwendid.* 2 Cor. xii. 9. Canys er ein bod ni wedi

ein

ein hamgylchu a gwendidau, etto os hyderwn ni a goglud ſantaidd ar Dduw, gallu Criſt a orphwys arnom, a diddanwch ei lân Yſpryd a ddyliſa i'n heneidiau.

Achos arall o'r tueddfryd duwiol a ddylai ddilyn yr erfynniad yma, yw gwyliadwriaeth. *Gwyliwch a gweddiwch*, medd ein Iachawdwr bendigedig, *fel nad eloch i brofedigaeth.* Ofer a dilês a fydd ein gweddiau onid arferwn ni ein holl ofal a'n gwyliadwriaeth. Canys er i Dduw addo ei lân Yſpryd i'r ſawl a'i gofynnant ganddo; etto nid yw hyn ddim yn tynnu ymmaith yr ymarfer o foddion cyffredinol: ag er fod ein digonedd ni o hono ef yn unig, etto i mae gofal a phryder dyladwy, yn rhwymedig o'n rhann ninnau. Canys i mae profedigaeth yn dra pheryglus i'r diofal anyſtyriol, ag i mae yn cyrchu arnynt ag yn ei gorchfygu yn ddiarwybod. Ein hymddiried yn Nuw gan hynny a ddylai beri ini fod yn ofalus am danom ein hunain, rhag ini, wrth ddiſgwyl cael ein cadw heb arferu 'r moddion, ei gyffroi ef i dynnu ymmaith y moddion hynny oddiwrthym, ag felly ein goſod yn noeth i brofedigaeth a helaethrwydd drygioni ein calonnau llygredig ein hunain.

I ddi-

I ddirweddu. *Bwriwn ein holl ofal arno ef; canys i mae efe yn gofalu droſom ni. Byddwn ſobr, gwyliwn, oblegid i mae ein gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuadwy, yn rhodio oddiamgylch, gan geiſio y neb a allu ei lyncu. Yr hwn gwrthwynebwn yn gadarn yn y ffydd, gan wybod fod yn cyflawnu yr un blinderau yn ein brodyr, y rhai ſydd yn y byd. A Duw pob grâs, yr hwn a'n galwodd ni iw dragywyddol ogoniant, wedi ini ddioddef ychydig, a'n perffeithio, a'n cadarnhao, a'n ſefydlo.* Iddo ef i byddo 'r gogoniant a'r gallu, yn oes oeſoedd. *Amèn.*

PREG-

PREGETH XIV.

IOAN iii. 36.

Yr hwn ſydd yn credu yn y Mab, i mae gandde fywyd tragywyddol: a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd; eithr i mae digo-faint Duw yn aros arno ef.

MEGIS ir oedd yr holl fyd tan y gyfraith yn cael ei gynnwys dan yr amrafael wahaniaeth o *Iuddewon* a *Chenhedloedd*, y naill tan gyfammod grâs, a'r llall hebddo; felly tan yr efengyl pawb a gynnwyſir tan y wahaniaeth yma, ſef *ffyddloniaid* ag *anffyddloniaid*. Ag megis nad oes ond y ddeuryw hyn o ddynion yrawron yn y byd, ſef cyflwr o ffydd a chyflwr o anghrediniaeth; felly yn gyfattebol i hyn, i mae dau gyflwr yn y byd ſydd i ddyfod, ſef bywyd a marwolaeth, a phob un o'r ddau yn dragywyddol: ag megis i mae ffydd fywiol yn rhoddi hawl ini o'r naill, felly mae anghrediniaeth ag anffyddlondeb yn ein gwneuthur

yn ddaroſtyngedig i'r llall. *Yr hwn ſydd yn credu yn y Mab, i mae ganddo fywyd tragywyddol; a'r hwn ſydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, eithr i mae digofaint Duw yn aros arno ef.*

Ym mha eiriau i mae ein Iachawdwr yn ymddwyn mewn modd eglur a thrugarog tuac attom; i mae ef yn goſod bywyd a marwolaeth o'n blaen, ag ammodau y ddau, ſef ffydd ag anghrediniaeth. I mae gennym ni yma ſwm a ſylwedd y cyfammod grâs, addewid o ran Duw o fywyd tragywyddol, a'r ddyledſwydd a ofynnir o ran dyn, ſef, ffydd yn Ghriſt, credu yn y Mab.

Yn *ail.* I mae gennym farn anghyfnewidiol yr anghredadun; *ni wêl fywyd, eithr i mae digofaint Duw yn aros arno.*——Mi a ddechreuaf a'r cyntaf, ſef,

Y ddyledſwydd a ofynnir ar ein rhan ni, megis ammod ein dedwyddwch, *ffydd ym Mab Duw.*

Wrth draethu ynghylch pa ddyledſwydd, mi a gâf yſtyried yn *gyntaf*, Pa beth yw ffydd. Yn *ail*, Pa fath ffydd yw honno, ag ſydd yn rhoddi hawl ini o fywyd tragywyddol. Ac oddiyno mi a gâf dynnu rhai cynghorion buddiol mewn perthynas i fu-

chedd

chedd ac ymarweddiad Criſtianogion, er adeiladaeth i'r ffyddloniaid.

Yn *gyntaf.* Pa beth yw ffydd. Os yſtyriwn ni amryw wrthddrychau ffydd, ni a gawn ganfod amrafael berthynaſau o honi. Mewn perthynas i addewidion Duw yn ei air, i mae 'r Apoſtol yn galw ffydd, *yn ſail y pethau ir ydys yn eu gobeithio, a ſiccrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled*; hynny yw, diſgwyliad hyderus ag ymddiried yn Nuw am gyflawniad ei addewidion, a chrêd ddiyſcog o wirionedd anweledig-bethau Duw, y cyfryw ac nad ellir eu canfod yrawron a'n ſynhwyrau corphorol: ag o'r nifer a'r anſawdd hyn i mae amryw, megis cyflwr o wynfyd a dedwyddwch, a bywyd tragywyddol mewn byd arall; yr hwn a addewir yn ſynych gan Griſt yn yr efengyl. Yrawron i mae y pethau nefol yma ynddynt eu hunain yn anweledig ini; ni ellir eu canfod etto a'n ſynhwyrau oddiallan, ag ni ellir gwneuthur dangoſiad ſylweddol gweledig o'r gwirionedd o honynt. Nid oes gennym ni ond addewid y gwir a'r anghyfnewidiol Dduw am danynt. Yrawron ſiccr gredu o honom, fod y fath ogoniant wedi ei pharattoi i'r rhai bendigedig, a bod mor ddiogel

o honom o'r cyfryw bethau gogoneddus anweledig, megis a phe 'r troſglwyddid gyda St. *Paul* i'r nefoedd, a'u gweled hwy a'n llygaid; bod gennym y fath obaith diammau o fwyniant y nefol Ganaan, a phed faemni mewn meddiant o honi eiſioes: dyma 'r ffydd o ran yr addewidion, yr hon i mae 'r Apoſtol yn ei galw, *ſylwedd y pethau i'r ydys yn eu gobeithio, a ſicerwydd y pethau nid ydys yn eu gweled.* Y fath ffydd a hyder a hon, oedd gan *Job* ynghylch yr adgyfodiad a bywyd tragywyddol. *Canys myfi a wnn fod fy mhrynwr yn fyw, ag i ſaiſ yn y diwedd ar y ddaear. Yr hwn a gâf im' fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ag nid arall.* I'r oedd dyfodiad Duw i'r farn, ag adgyfodiad y meirw, mor eglur i olwg ei ffydd ef, nregis ped fuaſent breſennol o flaen ei lygaid corphorol. Y cyfryw hefyd oedd ffydd St. *Paul*, ag nid yn unig yr eiddo ef, ond o ddilynwyr Crift yn gyffredinol; canys medd ef wrth y *Corinthiaid*, *Ni a wyddom os ein daearol dy o'r babell hon a ddattodir, fod ini adeilad gan Dduw; ſef, ty nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.* Ag ir oedd yr hyder fawr yma wedi ei ſeilio ar addewidion Duw, a phwy bynnag ag fydd gan-

ddo

ddo addewid y Duw mawr, anghyfnewidiol, i mae mor ſiccr ddiammau o hono, a phed fai yn ei berchennogi eiſioes. Ag yn y wedd hyn i mae St. *Paul* yn dangos pa beth yw ffydd mewn perthynas i'r addewidion; ei bod hi yn ſylwedd neu ddiſgwyliad hyderus o'r pethau ir ydys yn eu gobeithio, ag yn ſiccrwydd, neu lawn fodlonrwydd ynghylch gwirionedd y pethau na's gwelir.——Ond,

Yn *ail.* I mae ffydd mewn perthynas i ddioddefaint Criſt, yn ſefyll mewn ymddiried goſtyngedig, a hyder yr enaid ar haeddedigaethau ei farwolaeth am ollyngdod pechodau a chyfiawnhâd gar bron Duw. Nid oes le i'r ymddiried yma fod yn hyder rhyfygus, diowgſwrth ar ei farwolaeth, megis ped fai y cwbl wedi ei orphennu ganddo, ac nad oes gennym ni ddim iw wneuthur ar ein rhan ninnau: nid yw hyn ond dyfod atto am nawdd a chyſcod, i'n cadw rhag llidiawgrwydd Duw digofus, ac nid dyfod atto âm râs ag ymoſtyngiad iw lywodraeth ac iw waſanaeth. Dyma yn-fydrwydd echryſlon llawer pechadur diofal. Ef a ddaw ag a hydera yn ewyllyſcar ar Griſt, megis Iachawdwr ac offeiriad i farw

a gwneuthur iawn am ei bechodau ag i achub ei enaid; ond ni fyn ef mo hono megis brenin, i reoli ag i lywodraethu arno. I mae yn chwennych ei gael ar y groes i farw ag i waedu dros ei bechodau; ond pan fo ef yn eiſtedd ar ei orfeddfainc i ordeinio cyfreithiau ag i orchymmyn dyledſwyddau, i ddiwygio cyfeiliorni ac amryfuſedd, ag i geryddu pechodau; pan fo ef yn gwrthwynebu hunan gnawdol a thrachwantau halogedig, yna i mae ef yn gwrthryfelu ag ymoſod iw erbyn, a chyda 'r *Iuddewon*, yn unfryd yn ei lwyr wrthod ac yn llyſu ei lywodraeth; *ni fynnwn ni i hwn deyrnaſu arnom.* Pechaduriaid a dderbynniant yn roeſawgar, ac a gredant ac a ymddiriedant yn Ghriſt megis cyfryngwr, er gwneuthur o hono bob llês a daioni iddynt; iw hadgymmodi a'i Dad ag i ddadleu droſtynt yn y nefoedd, i ganiattau eu gofynnion a diwallu eu anghenion. Trugareddau Duw yn Ghriſt, iddo ef farw dros ein pechodau, a chyfodi drachefn er ein cyfiawnhâd; i mae 'r gwirioneddau mawr hyn yn bethau eſmwyth, hyfryd a bodlongar, ag a dderbynnir yn ddiattreg gan y dynion anraſonaf. Ond pan ddêl Criſt i gyflawnu ſwydd brenin, a goſod

a gofod ei dra-chyfiawn orchymmynion arnynt; yna i mae ei tau ef gan y cyfryw ddynion, yn edrych yn aneſmwyth, a'i orchymmynion yn anhawdd, a phwy a ddichon eu dwyn. Marwolaeth Chriſt yw 'r unig beth a fynnai 'r cyfryw ddynion i wneuthur y gwaith droſtynt. Os cânt hwy Chriſt yn aberth, yn iawn ag yn fodlondeb, i mae hynny yn ddigon ganddynt i achub eneidiau heb Chriſt y brenin; megis ped fai ef yn Iachawdwr i'r rheini na fynnent fod yn weiſion nag yn ddeiliaid iddo. Mewn gair, os dyma ffydd neb o honom; ag os yn ni yn cyrchu at Chriſt ag hyderu arno am nawdd ac nid am lywodraeth; os yn ni yn coffeidio ei groes yn unig, ac yn fengi ar ei deyrnwialen; os ei farwolaeth a'i ddioddefaint haeddiannol, ac nid ei uniawn gyfreithiau a'i orchymmynion yw gwrthddryeh ein ffydd a'n hyder; yna ir ym ni yn twyllo ein humain yn reſynus: o herwydd nad yw 'r ffydd hon ond rhyfyg ofer a diſaſl; nid yw hi ond ffydd farw, y cyfryw ac na rydd byth ini hawl yn Chriſt, na chyfran o'i deyrnas mewn gogoniant; canys ni fydd ef Iachawdwr i neb ond i'r rhai i mae ef yn frenin: ni chaiff neb ddim llês oddiwrth

ei

ei groes, ond y rheini a ymoſtyngaſant iw deyrnwialen, ag ſydd yn hyderu ar ei farwolaeth, ag yn ufuddhau ag yn ymoſtwng iw orchymmynion.

Yn *drydydd.* Ffydd yn gyffredinol mewn perthynas i'r yſgrythur lân, a holl fannau a phrif bynciau y ffydd griſtianogol, ſydd gydſynniad i un peth a ſo credadwy ar dyſtiolaeth Duw.

Yrawron nid yw y cydſynniad yma yn weithred o'r dealldwriaeth yn unig, ond hefyd yn weithred y galon, yr ewyllys a'r ſerch. O herwydd pe bai cydſynniad o'r dealldwriaeth yn unig, a gwybodaeth o'r yſgrythur lân, a chydſynniad i'r gwirionedd o honi, o herwydd ei bod wedi ei datguddio gan Dduw, na dichon gyfeiliorni na thwyllo; pe gwaſanaethai cydſynniad ymmhroffes oddiallan, a chyffes o'r grefydd griſtianogol, heb weithredoedd da yn ein bucheddau, pei hyn meddaf, ſyddai ffrwyth priodol a naturiol ffydd achubol, os gwnai hyn y tro, yna y rhagrithiwr mwyaf a ſyddai 'r ſant gorau; yna brenin *Agrippa*, yr hwn a argyhoeddwyd yn ei ddealldwriaeth am wirionedd athrawiaeth St. *Paul*, a ſyddai nid yn unig o fewn ychydig, ond yn gwbl

ag

ag yn berffaith gristion. Pe gwnai y fath ffydd ddiffrwyth, hanesawl a hon y tro, yna y cythreuliaid eu hunain a fyddent gadwedig; canys i maent hwy yn credu fod un Duw, ag wrth feddwl a chredu hynny i maent yn ofni ac yn crynnu. *Ir wyd di yn credu* (medd St. *Iago*) *mai un Duw sydd, iawn ir wyd yn gwneuthur.* I mae hwn yn bwnc angenrheidiol o'th ffydd; ond os nad yw dy fuchedd yn gyfatebol i'r rhan yma o'th ffydd, os nad wyt di yn gwasanaethu ac yn ufuddhau i Ddaw, yn gystal ag yn credu ei fod ef; os nad wyt ti yn dangos dy ffydd drwy dy weithredoedd, i mae 'r angylion drwg yn hyn o beth mor agos at iechydwriaeth ag ir wyd ditheu, canys *i mae 'r cythreuliaid hefyd yn credu ac yn crynnu.* Nage, nid dyna fel i mae 'r peth yn bod. I mae yn rhaid i ffydd achubol gael ei sail a'i grwndwal yn y galon; *o herwydd,* (medd St. *Paul*) *a'r galon i credir i gyfiawnder.* Ag i mae ef ymmhellach yn gosod y ffydd hon i lawr wedi ei sylfaenu yn y modd yma megis ammod ein iechydwriaeth; *Os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu, a chredu yn dy galon i Ddaw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi.* Y galon yw preswylfod ffydd, o herwydd

herwydd yno *i mae Criſt yn trigo trwy ffydd.* Dyma y gynneddf ir oedd *Philip* yn ei ofyn yn yr *Eunuch*, iw gymhwyſo tuac at ei fedyddio, megis ammod o'i iechydwriaeth, *os wyt yn credu a'th holl galon, ef a ellir dy fedyddio.* Yn gymmaint a bod ffydd ag anghrediniaeth yn weithredoedd priodol, nid i'r dealldwriaeth yn unig, ond i'r galon, a'r ewyllys, a'r ſerch, yn enwedig yr ewyllys; ſwydd yr hwn yw derbyn neu wrthod Criſt a'i addewidion; ac am hynny, pan ddywedir fod dyn yn credu 'r efengyl, ef a ddywedir yn yr yſgrythur ei fod ef yn derbyn Criſt. *Yr hwn a'ch derbynnio chwi ſydd yn fy nherbyn i.*

Yn *bedwerydd.* Pa feddyliau bynnag a fo gennym ynghylch ffydd, pa un bynnag ai wedi eu tynnu allan o air Duw neu ryw le arall, hyn ſydd wirionedd diammau, mai gwir a bywiol, achubol ffydd yw honno ag ſydd yn gweithio ar ein buchedd a'n hymarweddiad; honno yn unig a rydd dyſtiolaeth i Dduw a'r byd, ei bod hi yn ehelaeth mewn gweithredoedd o dduwioldeb a chariad, hon ſydd yn rhoddi ini hawl grêf yn Ghriſt, a bywyd tragywyddol trwyddo ef. Pa le bynnag i mae gwir ffydd nid ellir

ei

ei chelu; hi a ymddengys mewn gweithredoedd da, o herwydd mai 'r egwyddor cyntaf i mae Duw yn ei weithio ynnom ar ein troedigaeth, yw ffydd. Gwelwch yr effaith o honi yn y prif griſtianogion. Gwrandawyr *Pedr*, mor ebrwydd ag i credaſant ei athrawiaeth, a waeddaſant allan, *ha wyr, frodyr, pa beth a wnawn ni?* Ag ir ym ni yn darllen yn yr adnodau canlynol, iddynt yn ddiattreg gyflawnu gweithredoedd o dduwioldeb ag eluſeni. Hwy a ddaethant yn wrandawyr gwaſdadol i'r Apoſtolion a'u hathrawiaeth, ag a dreuliaſant eu hamſer mewn gweithredoedd da a duwiol eraill, megis mewn gweddi ag yn torri bara. Hwy a ymwrthodaſant a'u pechodau gynt, ag a ymgynnullaſant ynghyd i waſanaeth Duw; ac a ddaethynt yn haelionus ag ehelaeth mewn gweithredoedd o eluſeni a chymmorth i'r tlawd a'r anghenus, o herwydd *hwy a werthaſant eu meddiannau a'u da, ac a'u rhannaſant i bawb fel ir oedd yr eiſiau ar nêb.* Y gweithredoedd hyn oeddynt ffrwythau digyfrwng, ag eglur dyſtiolaeth o ffydd achubol. I mae hyn yn dangos fod ffydd wirioneddol yn egwyddor bywiog, ac nid yn gynneddf muſcrell, lleſc a diog anffrwythlon.

Y rhai

Y rhai a drowyd gan *Ioan ſedyddiwr*, a ofynnaſant yn ebrwydd pa beth a wnaent? a cheidwad y carchar, yr hwn o flaen ei droedigaeth oedd erlidiwr milain a chreulon yr Apoſtolion, pan unwaith i tynnwyd ymmaith ei anghrediniaeth, a phlannu 'r egwyddor o ffydd yn ei galon, ei ymofyniad cyntaf oedd, *pa beth a wnâf fel i byddwyf cadwedig?* Ac yn ebrwydd yn ol ei droedigaeth, i mae 'r hanes yn rhoddi dangoſiad pa gyfnewid a wnaeth ffydd ar ei galon, trwy gyflawnu o hono weithredoedd o drugaredd a chariad; *ac efe a'u cymmerth hwy ag a olchodd eu briwiau; ac wedi iddo eu dwyn hwynt iw dŷ, efe a oſododd ſwyd gar eu bron hwy, ac a fu lawen, gan gredu i Dduw, efe a'i holl deulu.*

Mi a dynnaf weithian, rai yſtyriaethau buddiol oddiwrth yr hyn a ddywedpwyd uchod, y rhai a ddylai pob cywir griſtion fyfyrio arnynt a gwneuthur yn eu hol.

Os mynnwch chwi gan hynny roddi tyſtiolaeth i Dduw ag i'r byd o burdeb eich ffydd, a dangos eich hunain yn wir griſtianogion, y cyfryw ag ſydd a hawl ganddynt i addewidion yr efengyl ac i wobrwyon tragywyddol gogoniant, i mae yn rhaid i chwi

wneuthur

wneuthur hynny trwy gywirdeb ag union-deb eich bucheddau, trwy fuchedd ſantaidd ac ymarweddiad mewn llwyr ufudd-dod i gyfreithiau Duw: canys bydded eich proffes a'ch gwybodaeth gymmaint ac i mynnont, ni ddichon dyn mewn gwirionedd gael ei gyfrif yn griſtion ddim ymmhellach nac i bo ef yn cyflawnu 'r rhwymedigaeth a'r dyledſwyddau i mae 'r efengyl yn ei goſod arno. Nid yw ymddiddanion ynghylch ffydd a chrefydd ond pethau diffrwyth a gorwag, mewn cyffelybiaeth i'r ymarfer o hon. E fydd un gweithred dda yn nydd mawr ein cyfrif, o fwy pwys na deugain mlynedd o broffes ddiffrwyth a ffurfiol, o herwydd ein gweithredoedd ag nid ein proffes, a'n canlyn ni i'r byd arall. Gwneuthur ac nid gwybod ewyllys ein Tad nefol, a rydd ini yr anrhydedd a'r clôd o fod yn wîr griſtianogion yma, ag yn feintiau gogoneddus yn y nêf. Nid cydſymiad ddiowgſwrth a gwirionedd yr yſgrythur yn ein hymmenny-ddiau, ond glynu wrthi yn ein calonnau, a'r ffrwyth o honi yn ein bucheddau, a rydd ddangoſiad a mynegiad eglur o burdeb ein ffydd ni. — Megis ac mai *gwnâ hyn a byw fyddi*, yw ſylwedd y gyfraith, felly *crêd*

hyn a bydd fyw, yw ſylwedd yr efengyl. Mi a rôf i lawr yma, ychydig o eſamplau hynod o ffydd allan o'r yſgrythur lân, tuac at eich adeiladaeth chwi, ac yno mi derfynaf.

Trwy ffydd *Joſeph* a wrthododd ac a wrthwynebodd brofedigaeth taer a digywilydd ei feiſtres odinebus: a oes gan y rheini ddim ffydd, y rhai yn ein plith ag ſydd yn gadael iw cyrph a'u heneidiau ymdrybaeddu mewn trachwant ag aflendid ffiaidd? — Trwy ffydd *Dafydd* Frenin yn ei drallod a ddioddefodd yn ammyneddgar gael ei enllibio gan *Shimei:* ag a oes gan y rheini yn ein myſc ffydd, y rhai ſydd yn bwrw allan o'u geneuau lwon a rhegfeydd yn erbyn y Duw mawr bendigedig, ac yn melldithio eu gelynion yn erbyn gorchymmyn Criſt? — Ffydd a barodd i *Noah*, pan rybuddiwyd ef gan Dduw, ofni; ag i *Joſiah* ddychrynnu wrth ei air: ag a oes ganddynt hwy ffydd, y rhai ſydd yn dirmygu gair Duw, ag yn gwrthod ag yn diyſtyru y pethau a berthynant iw heddwch tragywyddol, hyd oni byddont guddiedig oddiwrth eu llygaid, a hyd oni bo ry ddiweddar iddynt edifarhau a galw ar Dduw am faddeuant,

ddeuant, ag i attal ei farnedigaethau a'u ddialeddau oddiwrthynt? y rhai o herwydd eu hir yſtyfnigrwydd a'u hanffrwythlondeb dan foddion grâs er ys hir amſer a haeddaſant? Ffydd a barodd i *Abraham* roddi y gyllell ar wddf ei fab, yr hwn oedd etifedd yr addewid a'r fendith: ag a ddichon fod ganddynt hwy ffydd, y rhai ni aberthant eu trachwantau a'u pechodau halogedig, a'u hoferedd a'u maſwedd pan fo Duw yn gofyn hynny ganddynt? — Ffydd a barodd i *Foſes* oddef adfyd gyda phobl Dduw, yn hytrach na golud a mwyniant yr Aipht, a phleſerau pechod dros ennyd: ac a oes ganddynt hwy ddim ffydd, y rhai ni ymadawant a dim er mwyn Criſt, a rhai er mwyn hunan a budr elw darfodedig y byd, ag o achos ychydig ſfinder preſennol a ymwrthodant ag ef a'i efengyl? Pa mor irad o beth ydyw meddwl pa fodd i mae ffydd, o eifiau gweithredoedd da, yn farwaidd ag yn ddiffrwyth yn ein plîth! A phed fai mab Duw yn dyfod yn yr oes hon gyda gallu a gogoniant mawr i farnu 'r byd, gellid ammau yn ei eiriau ei hun am yr amſer hwnnw, yr hyn ſydd ry gyfaddas i'r amſer preſennol a'r modd i mae dynion yn bucheddu ynddo; *eithr Mab*

y dyn pan dél, a gaiff ef ffydd ar y ddaear? Os oes gan hynny, gennych ddim cariad tuac at eich heneidiau anfarwol; ag os ydych yn meddwl i talant eu hachub oddiwrth drueni tragywyddol; os ydych yn meddwl ei fod yn beth teilwng gael o honoch hawl yn Ghriſt a'i haeddedigaethau, a rhan o etifeddiaeth y ſaint yn y goleuni; gadewch i dduwioldeb a phurdeb eich buchedd ddangos a thyſtiolaethu gwironedd eich ffydd, megis i gallo pob un o honom pan i'n holer yn ei chylch, atteb yngeiriau St. *Iago*; *Mi a ddangoſaf ſy ffydd iti trwy ſy ngweithredoedd.* Yna i gellwch gael gobaith diammau, o fod yn ſcintiau gogoneddus ryw ddydd yn y nefoedd, yn gyſtal a chriſtianogion ffyddlon ar y ddaear; pan gaffom weled a mwynhau y peth ir ym ni yrawron yn ei gredu ag yn gobeithio am dano; ſef, bywyd a gogoniant, ac anrhaethol wynfyd dros dragywyddoldeb: yr hyn Duw mawr, o'i anfeidrol drugaredd yn Ghriſt Ieſu, a ganiattao yn ei iawn bryd i bob enaid o honom. *Amen.*

PREGETH XV.

Ioan iii. 19.

A hon yw 'r ddamnediaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni; canys ir oedd eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.

YN yr amſer ir ymddangoſodd ein Iachawdwr yn y byd, ir oedd drygioni ac annuwioldeb wedi gorchuddio wyneb yr holl ddaear, ac ir oedd gwir-grefydd o rann ymarfer wedi adfeilio a methu. Nid oedd gan yr *Iuddew* ond cyſgodau a ffurfiau diffrwyth o dduwioldeb. Y deml ei hunan a halogwyd, a thŷ gweddi a droed yn ogof lladron, a gwaſanaeth Duw, yr hwn a gedwid yno o'r blaen yn barchus ac yn ddyladwy, a aeth yn rhagrith Phariſeaidd. I'r oeddynt yn neſhau at Dduw a'u genau, ag yn ei anrhydeddu a'u gwefuſau, ond eu calonnau oedd bell oddiwrtho. Mewn gair, nid oedd ganddynt

ddim ond rhith crefydd. Dychymmygion dynion a gauaſant allan ordinhadau Duw, ag ir oedd hyd yn oed eu gweddiau yn faglau i ddal dynion anwybodus trwy dreulio eiddo y weddw ar ymddifad. Hyn a gwaeth na hyn, oedd cyflwr yr eglwys *Iuddewig* pan ymddangoſodd ein Iachawdwr yn ei ſwydd o blannu 'r efengyl yn y byd.

Am y *Cenhedlaedd*, nid oedd dim ond coel-grefydd ag eulun-addoliaeth yn eu gwaſanaeth, ag aflendyd a halogrwydd yn eu buchedd a'u hymarweddiad. Dyma gyflwr greſynus a thywyll y byd yr amſer hwnnw; yn gymmaint a bod mawr achos i bregethu edifeirwch, ag i annog dynion i wellhau a diwygio eu bucheddau, i blannu ag i ymhelaethu ſanteiddrwydd yn y byd. Ond etto, pan *ymddangoſodd gràs Duw, yr hon ſydd yn dwyn iechydwriaeth i'r byd, gan ddyſcu dynion i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſobr, yn gyfiawn ac yn ddduwiol*; pan ddaeth y *Meſſiah* a phregethu yr athrawiaeth hon, fod yn rhaid i ddynion ymwrthod a phob anllywodraeth ac ymarferion drwg, a byw bucheddau manylach a chaethach, i maent yn ei wrthod ef a'i athrawiaeth: canys yſywaeth, ir oedd y byd

byd yn rhy afreolus i dderbyn rheolau mor ddichlyn o dduwioldeb, ſobrwydd a chariad. Y cyfryw ydoedd caledwch calonnau dynion, a bod pob addyſc a roddid iddynt yn ddilês ag yn anfuddiol. *Y goleuni oedd yn llewyrchu yn y tywyllwch, a'r tywyllwch nid oedd yn ei amgyffred.* Ir oedd gan y byd feddyliau anaddas a chyfeiliornus ynghylch Criſt a'i efengyl: ni ddeallaſant y cennadwri graſol i daeth ef o'i herwydd. Ei neges ef oedd (nid i ddiniſtrio, ond) i achub yr hyn a gollwyd. Ni ddanfonodd Duw ddim mo 'i fab i'r byd i ddamnio 'r byd, na ddo; ir oedd digon o euogrwydd a damnedigaeth ynddo o'r blaen. Ef a ddaeth i wneuthur cynnygion o iechydwriaeth i bawb, i achub y ſawl a gredent ac a dderbynient y cynnygion yma; ond am y ſawl a'u gwrthodent ac a'u llyſent yn ol amcan a bwriad y cyfammod grâs, i maent yn ddaroſtyngedig i'r ddamnedigaeth drymmaf: o herwydd dyma fel i mae 'r farnedigaeth wedi ei datcan; *yr hwn ſydd yn credu yndda ef ni ddemnir; eithr yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eiſioes*; a'r achos ydyw, *o herwydd na chredodd yn enw unig-anedig fab Duw*, yr unig fodd ac ſydd wedi ei adael iw achub.

achub. Ac am hynny i mae Criſt ei hun yn mynegi yn y teſtun, *mai hon yw 'r ddamnedigaeth* i mae dynion yn ſyrthio iddi yrawron dan yr efengyl, *ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni, o herwydd fod eu gweithredoedd yn ddrwg.* Ym mha eiriau ni a allwn ddal ſulw ar y pethau canlynol, gwiw eu hyſtyried a myfyrio arnynt: ſef, Grâs Duw a'i ddaioni yn goruwchwyliaeth yr efengyl, *ddyfod goleuni i'r byd.* — Ymddygiad anniolchgar dyn, a'i yſcelerder dan yr oruwchwyliaeth honno; *fod dynion yn caru y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni*; — a'r rheſwm am hynny, *o herwydd fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.*

Ac yrawron am yr yſtyriaeth *gyntaf*, ſef, Grâs Duw a'i ddaioni yn goruwchwiliaeth yr efengyl, fod *goleuni wedi dyfod i'r byd.*

Mor druenus a greſynus yw cyflwr pechod a natur; mor llawn o ofn a dychryn a damweiniau arſwydus mewn perthynas i gorph ag enaid, a'i fod yn yr yſgrythur lân yn cael ei adrodd trwy dywyllwch a chyfgod angau. Cyflwr ydyw ac ni ddichon dderbyn iawn gyſſur. *Ir oeddem ni yn feirw mewn pechodau a chamweddau,* yn byw

byw megis eraill o'r byd cenedlig, *yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllyſiau y cnawd a'r meddyliau, ag ir oeddym wrth naturiaeth yn blant digoſaint megis eraill.* Ir oeddym *wedi ein dieithro oddiwrth wladwriaeth Iſrael, ag yn eſtroniaid oddiwrth ammodau 'r addewid, heb obaith gennym, a heb Dduw yn y byd.* Dyma ein cyflwr a'n trueni aneſcorol wrth natur. Yn gymmaint a phed fuaſai Duw yn ymddwyn yn doſt yn ol ei gyfiawnder tuac attom, nid oedd raid iddo ddim ond ein gadael ni heb ddal ſulw arnom, i ymdrybaeddu mewn euogrwydd a halogedigaeth, ag uffern a cholledigaeth a fuaſai ein diball gyfran; nyni a gollaſem ein diniweidrwydd, ac nid oedd gennym ni fodd iw ennill yn ol drachefn; nid oedd gennym ddim gallu o honom ein hunain i wared ein heneidiau oddiwrth ddamnedigaeth. Yn y greſynus gyflwr yma, Duw o'i anfeidrol ddoethineb a'i drugaredd, a ddychymmygodd y cyfryw foddion graſol i adfer dyn colledig, o ran cariad a thoſturi iw enaid anfarwol, a danfon o hono ei ymyſcaroedd ei hun i'n myſc, ſef ei unig anedig fab, i fod yn iawn am ein pechodau, tyſtiolaeth ac arwydd ryfeddol o drugaredd

garedd ddigymmar, a pheth a haeddai ei dderbyn yn deilwng; yn gymmaint a bod St. *Paul* yn ei epiſtol at *Timotheus*, yn ei dramawrygu megis gwirionedd fawrwyrthiog, ac yn cloi y cwbl i fyny mewn perthynas i ddiben mawr ag arfaeth dyfodiad ein Iachawdwr a goruwchwyliaeth yr efengyl, yn y pwnc hwn yn unig, ſef achub pechaduriaid: *gwir yw 'r gair, ag yn haeddu pob derbynniad, ddyfod Criſt Ieſu i'r byd i gadw pechaduriaid.*

A'r gorchwyl mawr yma ſydd iw orphennu a'i gwpplau trwy y ffyrdd a'r moddion ag ſydd wedi eu goſod i lawr yn ei efengyl. Yno i cawn ganfod y dyledſwyddau a ofynnir ar ein rhan ni, a'r addewidion a addewir, o ran Duw. Y dyledſwyddau a gynnwyſir dan y ddau beth hyn, ſef ffydd ag edifeirwch; ac nid oes modd i gaffael iechydwriaeth yrawron ar neb rhyw ammodau eraill. A'r addewidion a gynnwyſir dan y ddau beth canlynol, ſef grâs i waſanaethu Duw yma, a gogoniant tragywyddol yn wobr yn y byd a ddaw. Dyma ſwm yr efengyl, y cennadwri graſlawn i daeth Mab Duw o'i blegid, i gynnyg ini faddeuant o'n pechodau, ac iechydwriaeth ein heneidiau,

heneidiau, ar y ddau ammod eſmwyth yma. Neges yr efengyl a'i gweinidogion ydoedd, *agoryd llygaid dynion, ac iw troi o dywyllwch i oleuni, ag o feddiant Satan at Dduw; fel i derbynniant faddeuant pechodau, a chyfran ym myſc y rhai a ſanteiddiwyd trwy ffydd yn Ghriſt.*

Dyma ddibennion mawr a graſlon goruwchwyliaeth yr efengyl; yn gyntaf ein ſanteiddio, yno ein gogoneddu, i beri ini fod yn lân ac yn bur yn ein buchedd a'n hymarweddiad yma, megis i gallom ni fod yn ddedwydd pan elom ni oddiyma. I mae gennym ym mhob un o'r ddau berwyl hyn, annogaethau nerthol yn yr efengyl i'n cymmell o ran ffydd a rheſwm. I mae gennym awdurdod Duw i'n gorchymmyn; i mae gennym gariad Iachawdwr i'n rhwymo; i mae gennym yr holl reſymmau cryfion, ag a ddichon Iechydwriaeth ein heneidiau a thragywyddol gyflwr o ogoniant eu cynnyg ini; a'r cwbl er mwyn y dibennion graſol, o beri ini fod yn dda ag yn ddedwydd; ag os na weithia y pethau yma arnom a'n cynnyrfu, ni ddichon dim ei wneuthur; ir ym ni yn wrthodedigion diobaith. Os nad ym ni yn rhoi heibio weithredoedd y tywyllwch,

tywyllwch, y rhai a ddaeth Criſt iw diniſtrio, ac am ba achos ir amlygwyd mab Duw yn y cnawd; os na oddetwn ni i Dduw ein troſglwyddo o allu y tywyllwch i deyrnas ei anwyl fab; ir ym ni yn pechu yn erbyn pob amcanion grâs a fwriadwyd i'n hachub, a'r unig fodd a ellir ei gynnyg i'n gwaredu, yn gymmaint a'n bod ni trwy yr ymddygiad yma yn blant digofaint fwy nag o'r blaen. Ef a ddichon Duw o'r achos yma, yn gyfiawn ein gadael a'n traddodi i fynu i drachwantau aflan, ag i'r bygythiad ofnadwy honno yn natguddiad *Ioan y Diſinydd*; *yr hwn ſydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn etto; a'r hwn ſydd frwnt, bydded frwnt etto.*

Yfywaeth nid oes ond ychydig yn yſtyried y pethau hyn fel i mae eu pwys yn gofyn. Canys er grâs Duw a'i ddaioni yn goruwchwyliaeth yr efengyl, ac yn danfon y goleuni iachuſol hwnnw i'r byd, i'n galw ni allan o dywyllwch i oleuni, a chyda gwahoddiadau ag annogiadau tirion a graſol, etto i mae dynion mor ddirâs echryſlon a phechu dan y trugareddau yma o eiddo 'r efengyl, ac yn derbyn grâs Duw yn ofer. Ir ym ni bawb yn awyddus yn croeſawu diben mawr a graſlon dyfodiad Criſt; i mae iechyd-

iechydwriaeth yn beth hoff gan bawb o honom. Ond nid yw dynion ddim yn hoffi mo 'r ammodau ar ba rai ir addewir. Cael ein gwared o ſafn uffern a gallu 'r diafol, a'n hachub heb ddim gofal na phryder o'n heiddo ein hunain, ſydd bethau cyſſurus a chymmeradwy gan bob dyn, a chynnygion eſmwyth a hyfryd. Ond duwioldeb a chariad, a byw yn ol rheolau 'r efengyl yn ein buchedd a'n hymarweddiad, dyma 'r pethau i mae dynion yn tramgwyddo wrthynt; dyma ſail eu hanufudd-dod a'u grwgnach yn erbyn iau eſmwyth Criſt. Nid yw dynion ag ſydd wedi ymgynnefino yn helynt buchedd ddrwg ag aflan, ddim yn caru cael eu haflonyddu yn eu trachwantau, na chwaith cael eu hattal na'u rhwyſtro yn eu ffyrdd. Dyma achos yr anghydfod ag ſydd rhwng y byd a'r efengyl. I mae hi yn gofod i lawr ammodau o iechydwriaeth, i mae yn gofyn gwaſanaeth a chyflawniad dyledſwydd, i mae yn gorchymmyn purdeb a ſanteiddrwydd. Y pethau yma ſydd ddiflâs ag anhyfryd gan y dyn cnawdol, o herwydd nad yw yn chwennych daroſtwng ei chwantau afreolus ag anghyfreithlon. Ir oedd *Herod* yn cymmeryd arno fod yn cael mawr

hyfrydwch wrth wrando pregethiad eglur a diduedd *Ioan Fedyddiwr*; ag ir oedd ef yn edrych megis ped fuaſai yn rhoddi mawr barch a bri iw bruddaidd ymddygiad a'i ymarweddiad fanwl yn ei fuchedd. Ond pan ddarfu iddo lym argyhoeddi ei odineb a'i drythyllwch anghyfreithlon, yna ir oedd hunan lygredig yn cyfodi; ir oedd rhaid torri ymmaith y pregethwr, ac ymwrthod a llyfu ei athrawiaeth. Ir oedd *Herod* a'i *Herodias* yn cael ei haflonyddu yn helynt ei drwg fuchedd, ag am hynny ir oedd yn rhaid iddynt ymadael ag athro ag athrawiaeth na chynnwyſynt y cyfryw anlywodraeth. I mae y fath wrthwyneb yn yr efengyl i drachwantau dynion ag afreolaeth y byd, ac os na ddichon hi eu gorchfygu a'u daroſtwng, i mae yn eu llenwi o gynddaredd a digofaint: ni all pechod oddef ei flino a'i fygwth a mellidithion marwolaeth a cholledigaeth. A dyna un achos pa ham i mae 'r pechadur a'r anghredadun yn caru 'r tywyllwch yn fwy na 'r goleuni, ac nad oes ganddynt ddim ſerch i'r gyfraith na'r efengyl o herwydd eu bod yn ceryddu pechodau. Cynneddf briodol yr efengyl yw dwyn dyn i wybodaeth o hono ei hunan,

bradychu

bradychu ei bechodau a'u dwyn i'r goleuni. Megis mai rheol gywir yw'r orau i ddangos gwyrni mewn pethau eraill, felly cyfraith Dduw os iawn arferir hi, a ddengys i bechaduriaid holl gyfeiliorni ac amryfusedd eu buchedd, ag a'u llym argyhoeddo am danynt, ag a ddysg iddynt pa fodd i ddiwygio a gwellhau yr hyn sydd feius. A dyma achos arall pa ham i mae dynion mor anhydyn yn derbyn ag yn cytsynnio ac ammodau yr efengyl, ac mor wrthwyneb i ordinhadau Duw. Pechod ag ofn aflonydd ucydwybod euog, sydd yn eu rhwystro i mae eu gweithredoedd yn ddrwg, ac nid ynt hwy yn chwennych eu gwellhau: dyna wir achos o'u hesceulusdra, megis i mae Crist ei hun yn eglurο 'r peth yn yr adnod nesaf ar ol y testun; *O herwydd pob un ag sydd yn gwneuthur drwg, sydd yn casau y goleuni, ac nid yw yn dyfod i'r goleuni, fel nad argyhoedder ei weithredoedd ef.*

Ym mha le i gallwn ddal sulw, mai pan so dynion yn naccau ufuddhau i'r hyn a ddarfu i Grist ei ddysgu a'i orchymmyn yn yr efengyl, ac ni wyddant ac ni wnânt mo'u dyledswydd; pan yw dynion yn esceulus moddion ag odfeydd iechydwriaeth, y

rhai a bennododd ag a oſododd Duw iw hiawn ddefnyddio i'r perwyl mawr hwnnw, i mae 'r eſceuluſtra ar nâg yma yn arwydd fod dynion yn ddrwg anaeleu ag yn bwriadu aros felly. O'r tu arall, I mae yr hwn ag ſydd yn byw bywyd cyfiawn, ag yn ymroi gwellhau yr hyn ſydd feius yn ei ymarweddiad, yn chwennych o ddifrif cael eu ddwyn i oleuni a chael barnu ei weithredoedd drwy y theol ſanylaf; ac i mae yn ceiſio gwybod mewn gwirionedd, pa un a ydyw ei fuchedd ef y cyfryw ac i dylai fod. Dyn o'r dymmer a'r anſawdd ddaionus yma, a ddaw i'r goleuni ag a fyn wybod pa beth a wnaeth a'r gam, y megis i gallo ei atgyweirio; pa gyfeiliorni ag amryfuſedd mewn egwyddorion neu weithredoedd a fu ef euog o honynt, O mae yn barod i lwyr ymwrthod a hwynt rhagllaw; ag i mae ef yn gwneuthur hyn oll yn fodlon ag ewyllyſgar, i dyſtiolaethu i'r byd, ei fod yn gwneuthur hynny mewn ofn Duw ac allan o gydwybod dda. I mae yn gwneuthur yn ol y gair i mae Criſt yn ei roddi am bob cywir ddiſcybl a dilynwr iddo ef; *yr hwn ſydd yn gwneuthur gwirionedd, ſydd yn dyfod i oleuni fel yr eglurhaer ei weithredoedd, mai yn Nuw i gwnaed hwynt.*

Ond

Ond o'r llaw arall; I mae yn arwydd ddrwg iawn pan fo dynion yn gwrthod hyfryd wahoddiadau a chynnygion yr efengyl, a hynny yn unig o herwydd fod yr efengyl yn dda ac yn dwyn iechydwriaeth i'r rhai cyfiawn ediferiol, a hwythau yn ddrwg ac mewn cariad a'r pethau a'u dwg i golledigaeth. Diyſtyrru a dirmygu crefydd a moddion grâs, o herwydd nad ynt yn cynnwys y pethau ag ſydd gyttunol a thrachwantau anifeiliaidd dynol ryw, o herwydd ei bod yn llyſu ac yn caeth-wahardd pechod a drygioni, ag yn annog ac yn gorchymmyn rhinwedd dda a duwioldeb: dal allan yn erbyn Criſt a'i efengyl ar yr achos yma, a charu tywyllwch yn hytrach na goleuni, o herwydd i mynnem ni gelu a chuddio ein pechodau a byw a pharhau ynddynt; dyma 'r cuogrwydd trymmaf a haerlluccaf, dyma 'r peth y ſydd yn peri fod y troſedd a'r goſpedigaeth yn ddirfawr tu hwnt i feſur ag yn dragywyddol: dyma 'r ddamnedigaeth a grybwyllir yn y teſtun, *ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na 'r goleuni; o herwydd fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg.*

Ir wyf yn dyfod weithion at yr yſtyriaeth *olaf*; ſef, Mawr bwys ag euogrwydd pechod tan yr efengyl.

Yn yr anffyddloniaid o bob cyſtwr ag ſydd yn y byd, pa un bynnag ai *Iuddewon* a *Chenhedloedd*, nid oes un mwy echryſlon ag anobeithiol nag eiddo 'r rhai hynny, ag ſydd yn gwrthod yr efengyl a'r iechydwriaeth a gynnygir iddynt yno, o herwydd ei bod yn ceryddu ag yn argyhoeddi pechodau, ag yn gofod i lawr reolau, ac yn pennodi gwaith iddynt iw wneuthur, er fod hynny yn wrthwyneb i drachwantau a thueddiadau allan y rhai annychweledig. I mae y pechod hwn yn fwy gorthrwm nag un arall, o ran yr euogrwydd a'r goſpedigaeth gyfattebol ſydd yn ei ganlyn. Canys os cymherir ef a phechodau *Sodoma* a *Gomorrah*, i mae ein Iachawdwr yn dywedyd ini, *i bydd eſmwythach yn nydd y farn iddynt hwy nag ini, os anufuddhaem efengyl Criſt. Corazin* a *Bethſaida* a alwyd oddiallan megis ninnau, gan leferydd Criſt yn gweinidogaeth yr efengyl; hwy a halwyd trwy y moddion mwyaf nerthol ag a allai un parth o'r byd ei gaffael: Criſt ei hunan a bregethodd iddynt, ag a gadarnhaodd ei athrawiaeth

aeth a gwyrthiau, ag am hynny i mae ef yn dannod yn dost i'r trefydd hynny lle i gwnaethpwyd ei weithredoedd mawrion ef, o herwydd nad edifarhasant; ag i mae yn mynegi yn eglur iddynt, *i bydd waeth iddynt nag i Dyrus a Sidon yn nydd yr ymweliad.* I mae eu pechodau hwynt o fwy euogrwydd, o herwydd eu bod hwy yn gamarfer o drugaredd ag yn ddimyg a diystyrwch o gyfreithiau Duw. Ac ef a ddywedir, *mai grym pechod yw 'r gyfraith*, ag os felly i mae, i mae 'r efengyl felly yn fwy o lawer os anufuddhawn ni iddi, o herwydd trosseddu 'r gyfraith yw pechu yn erbyn *awdurdod* Duw, ond pechu yn erbyn yr efengyl, yw pechu yn erbyn *trugaredd* ac *awdurdod* hefyd. Yn gymmaint a bod y pechodau a weithredir yrawron dan yr efengyl, gan y rhai ag sydd yn ei hesoeuluso, o lawer mwy euogrwydd na thorriad y gyfraith foesol; o herwydd os camarferir ag os camddefnyddiir yr efengyl, i mae hi yn trymhau pwys ein pechodau a'n damnedigaeth.

I mae yn rhaid ini wybod fod dau brif achos o ddyfodiad Crist i'r byd, ac yn

ddilynol

ddilynol o oruwchwyliaeth yr efengyl; un a fwriadwyd gan Grift yn bennaf, a'r llall yn ddamweiniol ac yn neillduol. Prif ddiben ac amcan yr efengyl yw cyhoeddi iechydwriaeth ag agoryd drws o ddiangfa rhag y llîd fydd i ddyfod. Ond pan fo dynion yn ſefyll yn gyndyn allan; pan na fynnont gymmodi a Duw, ar yr ammodau graſol a gynnygir iddynt, yna ar yr achos yma, i mae trugaredd gwedi ei dirmygu yn troi yn ddigter llidiog, ac i mae Criſt a'i efengyl yn dyfod i'r dynion annedwydd hyn *yn faen tramgwydd ag yn graig rwyſtr*, ag yn *ſawyr, marwolaeth i farwolaeth*, ag nid y peth ir amcanwyd hi gyntaf, ſef, *ſawyr bywyd.* — Megis ac i mae phyſygwriaeth a amcanwyd gan y meddyg er iechyd y clâf, o herwydd anhymmyr y corph, yn pryſuro marwolaeth; felly pan i mae trugareddau yr efengyl yn cyffwrdd a'r fath rwyſtrau a gwrthwyneb iw derbyn mewn dynion, nad allant o herwydd hynny eu hachub, ond hwy a drymhânt bwys eu pechodau a'u damnedigaeth. — Mor ofnadwy yw cyflwr ac anſawdd yſprydol y cyfryw rai, ac ni dderbynniant wahoddiadau

dau graſol yr efengyl, ac ni ddefnyddiant foddion grâs a'r odfeydd fydd yn eu dwylo'n ond yn hytrach a fucheddant fel cynnifer o rai cenedlig digrêd, er eu bod yn proffeſu pethau amgen a gwell. I mae'n fath ddynion anraſlon, annychweledig, wedi eu hamgylchu a damnedigaeth o bob tu: os cyrchu a wnânt at y gyfraith, ni ddichon honno eu hachub, o herwydd iddynt ei thorri; os at yr efengyl ir ânt, ni achub honno chwaith mo honynt, o herwydd iddynt ei heſgeuluſo a'i dirmygu. Toſt ac alaethus yw cyflwr y cyfryw rai, i macnt mewn angenrheidrwydd o fod yn golledig; nid oes dim lle arall i gyrchu, ac ni ellir gwneuthur un appeliad arall. Eſ a wnaed dau gyfammod a ni, un o weithredoedd a'r llall o râs; ac ni ddichon bod mwy. Ag os methwn ni yn y ddau i mae yn rhaid ini fod yn golledig dros dragywyddoldeb. Yſtyried y pechaduriaid truenus hynny ac fydd yn gwrthod ag yn eſceuluſo y gyfraith a'r efengyl, i mha gyflwr enbydus ac ofnadwy i maent ynddo; a gadewch ini bawb oddiyma, ddyſcu harddu yr ogoneddus efengyl ir ym ni yn ei phroffeſu, mewn

ymar-

ymarweddiad pur a ſantaidd. Dyma y defnydd i mae'r Apoſtol yn ei wneuthur ym mhob man o efengyl Griſt; *ar rodio o honom megis i gweddai i'r efengyl, ac i dylem ni harddu athrawiaeth Duw ein Iachawdwr ym mhob peth; I. dylem ni rodio yn addas i'r hun a'n galwodd ni iw deyrnas og iw ogoniant.* Mewn byrr eiriau, yſtyriwch eich galwedigaeth a bucheddwch yn ol yr hyn ir ydych yn ei broffeſu. Ni a ddylem ni, y rhai i mae efengyl Griſt gennym yn rheol, yn ol yr hon i darfu ini addaw ac addwned mewn modd arbennig, fyw yn addas iddi. Dyma ddiben pregethiad yr efengyl a'i hordinhadau. Cofiwch y rhwymedigaeth i mae St. *Paul* yn eich rhybuddio o'i phlegyd; *Megis gan hynny, i dyſcaſoch Griſt Ieſu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo, wedi eich gwreiddio a'ch adeiladu ynddo ef, a'ch cadarnhau yn y ffydd, megis i'ch dyſgwyd, gan gynnyddu ynddi mewn diolchgarwch.* Megis i gallom trwy iawn ddefnyddio y moddion grâs a'r odfeydd ſydd gennym, gael gobaith diammau o ogoniant pan ddelo ein barnwr i'n dyfyn ger ei fron. Yr hyn Duw Mawr o'i anfeidrol druga-

redd

redd a ganiatto ini oll er mwyn ein prynwr bendigedig Ieſu Grift; i'r hwn, gydac ef a'r Glân Yſpryd, i bo fel i mae yn ddyledus, pob mawl, anrhydedd, gogoniant a gallu yr awrhon ac yn oes oeſoedd, *Amen.*

PREG-

PREGETH XVI.

Diharebion i. 10.

Fy Mab, os pechaduriaid a'th ddenant, na chytuna.

MAE profiad neu ymarfer beunyddiol, yn eglur ddangos ini fod pawb o honom yn ddaroſtyngedig i amryw brofedigaethau; a gwirionedd diammau yw, fod ein calonnau a'n tueddiadau ein hunain yn achos ini ymoſtwng tan y cyfryw brofedigaethau, ac yn peri i'n gwendid a'n breuolder gael eu gorchfygu yn aml ganthynt. Ond o'r holl demptaſiynau ſydd yn ein hamgylchu, pobl ddrwg y byd ſydd amlaf yn ein hudo i bechu, ac felly yn brif achos o'n troſeddiad; o herwydd fod yn rhy anhawdd gennym ni wrthſefyll eu geiriau twyllodrus, a'u ſiamplau cyhoeddedig. A dyma yr achos i'n cymhellir cyn amled gan y ſawl ſydd yn ein caru, i ochel cyfeilliach pobl ddrwg. Ond gan nad allwn

yſywaeth

yſywaeth wneuthur felly, heb ochelyd pob math o gymdeithas; ein dyledſwydd yw bod yn wiliadwrus pan ddigwyddom fod ymmhlith y fath hudolwyr: a dyma fel i mae yr Apoſtol yn ein cynghori, *na byddo ini gydgyfeilliach a gweithredoedd anffrwythlon y tywyllwch.* A hyn i mae efe yn ei ddywedyd yn eglurach, pan yw yn erchi ini dynnu ymmaith oddiwrth bob brawd ac fydd yn rhodio yn afreolus: ac er nad allwn ymwrthod a chymdeithas pob drygddyn tra bom yn ymdrafferthu yn y byd hwn; etto nyni a allwn ddilyn cyngor caredigol *Solomon* yn y teſtun, yr hwn ſydd yn erchi ini na chyttunom a phechaduriaid er iddynt ein denu yn daer iawn. — Yn y geiriau yma ni a yſtyriwn y tri pheth hyn;

Yn *gyntaf*, Mor ddiwyd i bydd pechaduriaid yn denu eraill i bechu.

Yn *ail*, Hawſed gennym ni gyttuno a phechaduriaid a dilyn eu hudoliaethau. Ac

Yn *drydydd*, Mi a ddangoſaf pa fodd i mae ini orchfygu eu profedigaethau.

Anodd a fyddai ini ddeall a dirnad pa fodd i mae pechod yn cynnyddu cymmaint

yn y byd, oni bai ein bod yn gweled y poen a'r llafur i mae pechaduriaid yn eu gymmeryd arnynt, i yrru ymlaen waith eu meiſtr y cythraul; ac er bod ein tueddiadau ein hunain yn ddigon beius a thueddol i weithredu amryw bechodau, eto ni chynnyddai pob math o ddrygioni ac annuwioldeb, oni bai fod y gwaethaf o ddynion yn gallu twyllo a llygru tueddiadau da y ſawl ſydd heb eu rhoddi eu hunain i ddrygioni. Ac fal yr oedd yn amſer *Noah*, felly i mae yn y dyddiau hyn; i mae pechaduriaid yn gwneuthur eu gorau er taenu drygioni ac anghrefydd ar wyneb yr holl ddaear. Nid digon ganddynt fod yn ddrwg eu hunain, ond i maent yn ymboeni i wneuthur eraill felly hefyd. I maent megis wedi ymrwymo i waſanaethu Satan, ac felly yn ewyllyſio chwanegu ei ddeiliaid ef. I mae llwybr pechod mor anhyfryd na fedrant ymdeithio arno heb gyfeillion: dyma y rhai ſydd iw didanu ar y ffordd, a dyma y rhai ſydd iw cadw oddiwrth feddwl am ddiwedd pruddaidd eu taith. I maent yn meddwl wrth geiſio ymdroi y rhan fwyaf o'r byd mewn pechod, na bydd ond ychydig o rai daionus wedi eu gadael iw cywilyddio hwy; ond

ond er lleied yw eu rhifedi, i mae eu hargyhoeddiad yn eu dwys bigo hwynt. — I mae achos ettto pa ham i mae pechaduriaid yn chwennych llawer o gyfeillion, oblegid eu bod yn ofer feddwl ir ysgafnha eu cymdeithas hwy lawer ar eu penyd uffernol hwynt. Ychydig eiriau a wasanaethu i ddangos ynfydrwydd y tyb yma; canys ni wna llawer o danwydd ond chwanegu angerdd y tân; ac ni wna golwg ar drueniaid a chytgymdeithas-pechaduriaid yn uffern, ond eu gwneuthur yn anesmwythach, a'u penyd yn ddwysach, pan feddylionc mae hwy a'u denodd hwy i drueni. Hyn a wyddai y gwr goludog yn dda iawn, pan chwennychai rybuddio ei frodyr i ochelyd dyfod i'r lle poenus ir oedd ef ei hun ynddo. Ir oedd ofn arno i byddai iw dioddefiadau hwynt chwanegu at ei benyd ei hun; canys ir oedd achos iddo feddwl fod yr esampl ddrwg a adawsai ef iddynt, yn ddigon iw dwyn i'r un eyflwr truenus ac ir oedd ef ei hunan ynddo. — Dracheſn, i mae llid a chynfigen yn aml yn peri i bechadur hudo eraill i ddrwg; a dyma fal i mae ef yn chwennych drygu eraill, yn hytrach na gwneuthur dim daioni na lles

yn y byd iddo ei hun. I mae pechaduriaid yn ymfriwo oddimewn pan welont eraill yn myned rhagddynt mewn ffyrdd tangnefedd a duwioldeb, a hwythau yn dilyn llwybrau deſtryw a thrueni. Hyn ſydd yn peri i Satan a'i weiſion geiſio y ſawl a allant eu traflyngcu; canys fal ac i maent yn ymwrthod a daioni, felly i maent yn caſhau y cyſiawn a'r daionus, a chan hynny yn ceiſio eu gwneuthur mor druenus a hwy eu hunain. A dyma fal i gwelwn fod pechaduriaid yn dyfal ddenu eraill i bechu, a'r achoſion ſydd yn peri iddynt wneuthur hynny.

Mi a ddangoſaf weithian, y moddion i maent yn eu harferu i hudo eraill. — Un modd trwy ba un i mae pechaduriaid yn denu eraill i bechu, yw cyhoeddi ynmhob mann a llê, eu bod hwy yn mwynhau pob math o ddedwyddwch, diddanwch a bodlonrwydd; eu bod hwy yn gwneuthur y defnydd gorau o bethau 'r byd hwn, ſef, yn eu treulio ar eu trachwantau eu hunain; yn cael y byd wrth eu bodd; yn porthi pob deiſyfiad afreolus, heb ofni Duw eu creawdr: nid ydynt yn meddwl am ddim a aeth heibio, nac yn ymflino eu hunain ynghylch

ynghylch dim ac ſydd i ddyfod. — Bwriwch fod y cyfryw rai yn aml yn gyfoethoccach na'u cymmydogion, ac o herwydd hynny yn gallu cymmeryd mwy rhwyſc a rhydd-did nac eraill; etto ni allant fod yn ddedwyddach na hwynt, oni chyfrifwn ni fwyniant yr anifail yn fwy dedwyddwch na'r diddanwch i mae'r gwr daionus yn ei gael oddiwrth fyfyrdodau crefyddol. Ond er cymmaint i maent yn ymffroſtio oddiwrth eu rhydd-did a'u diddanwch, nid oes ond ychydig o honynt wedi eu caledu cymmhelled yn eu pechodau; nad ydynt yn clywed eu cydwybodau weithiau yn eu dwys-bigo am dánynt; a'u meddyliau hefyd yn eu blino a'u haflonyddu ymmhlith eu holl wagedd a'u hoferedd. Ond gadewch ini addef, yr hyn nid oes achos ini wneuthur, fod y drygionus yn fwy dedwydd yn y byd hwn na'r gwr crefyddol; etto nid yw ond cyfnewid gwael i un fwynhau ychydig ddiddanwch darfodedig, a chollí gwynfyd perffeithrwydd tragywyddol.

Ond yn *ail*, I mae modd arall drwy ba un i mae pechaduriaid yn twyllo trueniaid o'u heneidiau, a honno yw trwy addo iddynt fudd ac ynnill. Dyma'r peth i mae *Saloman*

yn ei ddatcan yn yr adnodau ar ol y teſtun, gan ddywedyd, *tyred gyda ni, cynllwynwn am waed, ymguddiwn yn erbyn y gwirion yn ddiachos, nyni a gawn bob cyfoeth gwerthfawr, nyni a lenwn ein tai ac yſpail, bydded un pwrs ini gyd.* Y fath gyd-gyfeilliach a hyn yn wir a eill gryfhau dwylo yr annuwiol i wneuthur drwg, fel i byddo iddynt orthrechu y gwirion a'u cyfoethogi eu hunain: ond megis nad oes na charedigrwyd cywir na chydwybod dda yn perthyn i'r fath gyfeilliach ddrygionus, felly nid oes dim bendith ar y budd a'r llês ac ſydd yn perthyn i'r fath gymdeithas. Y peth a ennillir trwy gam a thrawſder a werir yn afradlon: ac medd y prophwyd *Dafydd, Gwelais yr annuwiol yn gadarn ac yn frigog fel y lawryf gwyrdd, myſi a'i ceiſiais ac nid oedd iw gael; wele, nid oedd mwy o hono.* Fo eill Duw adael i'r annuwiol fwynhau eu dedwyddwch daearol holl ddyddiau eu heinioes, ond ni fyddant yn ddigoſp yn y byd neſaf; ni wna hir-ymaros yr Arglwydd ond chwanegu at eu coſpedigaeth, os hwy a eſceuluſant edifarhau mewn pryd.—Ond,

Yn *drydydd*, I mae pechaduriaid yn medru rhwyſtro y ſawl i maent yn eu denu i ddrwg,

ddrwg, rhag meddwl am ddiwedd ofnadwy gweithredoedd anwiredd, ac yn peri iddynt goelio nad yw 'r pechodau i maent yn eu chwennych iddynt ymarferu a hwynt ond yſcafn a bychain yn eu naturiaeth, ac i cair maddeuant am danynt yn hawdd oddi ar law Dduw. Dyma dwyll rhyfeddol a ſiommedigaeth greulon, ſef rhoddi mwgwd yn gyntaf ar eneidiau truain, ac wedi eu taflu bendramwnwgl i'r pwll diwaelod. Canys pa fodd i gall pechod fod yn fychan a droſeddir yn erbyn gwybodaeth o'n dyledſwydd, yn erbyn erchiadau 'n cydwybob, ac yn erbyn goleuni natur? Nid wyfi yn meddwl fod pob pechod yn gydradd a'i gilydd; etto ir wyf yn meddwl fod y troſeddiad lleiaf yn erbyn cyfraith Dduw (yr hon ſydd o anfeidrol ddaioni a phurdeb) yn haeddu cyflog pechod, ſef marwolaeth. —Ond heblaw y moddion hyn, fe fydd y drwg hudolwyr yn cymmeryd llawer o boen arnynt i annog pobl i fod yn hoff ganddynt eu deſtryw eu hunain; gan wneuthur iddynt, trwy wâg reſymmau, garu y profedigaeth a roddir o'u blaen: hwy a ganmolant gymmaint ar eu drwg arferion, fel i byddo iddynt wneuthur i bechod ymddangos

ddangos mewn rhith rhinwedd. A dyma fel i maent yn rhy aml yn ennill calonnau dynion diniwaid, ac yn eu hannog i fod yn euog o'r gweithredoedd gwaethaf.—A hyn ſydd yn ſy arwain i,

Yn *ail*, I ddangos hawſed gan ddynion gyttuno a phechaduriaid a dilyn eu hudoliaethau.

I mae 'r abwyd yn ddanteithiol, a'r profedigaeth yn gyfaddas i'n tueddiadau, ac felly yn cael eu croeſawu ar eu hymddangoſiad cyntaf. Ac hefyd i mae ein gwyniau a'n chwantau llygredig yn chwennych eu llettya ac ymddadleu troſtynt. I mae profedigaethau yn ymwthio i'n calonnau yn ddiarwybod ini, yn meddiannu ein monwes, ac yn ein hir feiſtroli a'n nerth a'n harfau ein hunain. Hawdd iawn ydyw annog dynion i hoffi y peth i byddo eu trachwantau yn eu chwennych. Dyma fel i mae 'r annuwiolion yn llunio eu profedigaethau, gan eu gwneuthur yn addas i'n chwantau afreolus, a dyma fel i mae cyn hawſed gennym ni ddilyn eu drwg ſamplau hwynt.

Ond ymmhellach; I mae budd ac ennill yn brofedigaeth anhawdd ei gwrthſefyll; i

mae

mae y rhann fwyaf yn addoli cymmaint bethau y byd hwn, a'u bod yn cyfrif y dyn hwnnw yn unig yn ddedwydd ac ſydd yn mwynhau cyfran ragorol o bethau daearol; i mae ariangarwch gan hynny yn brofedigaeth tra enbydus, a gobaith o ennill yn rhy debyg i hudo dynion i ddilyn y gweithredoedd mwyaf drygionus. Ac megis i mae budd, pleſer a digrifwch, yn hudo llaweroedd, felly i mae eraill yn ymddaroſtwng i brofedigaethau yr hudolwyr, rhag ofn i'r rhan fwyaf o'r byd eu barnu yn bobl neillduol ag allan o'r ffordd gyffredin: gwell gan y fath yma o bobl ymadael a phob math o ddaioni a rhinwedd dda, na chael eu cyfrif yn bobl ar eu pennau eu hunain; gwell ganddynt ymadael ac ymarfer o dduwioldeb, na throi oddiwrth arferion drwg eu gwlâd, er gwaethed i bont. I maent yn ofni cael eu galw yn anfoeſol ac yn anweddol os ni chyttunant a phob drwg arfer eu cymmydogion, a gwell ganddynt gael eu cyfrif yn annuwiol ac yn afradlon, na meddwl o neb eu bod hwy yn llai na chydymdeithion. Yrawron pe i gwybyddem fod lliaws o bobl yn cydgyfeilliachu er drygu ein gair

da

da ni mewn da bydol, nyni a fedrem yn ſuan iawn ochel cymdeithas y cyfryw ddrwg ſwriadwyr: oni ddylem ninnau yntau yn fwy o lawer ochel cymdeithas y ſawl ſydd beunydd yn ceiſio drygu ein heneidiau, a'n hamdwyo dros fyth. Diau ni a wiliem gyttuno a'r fath ddynion ped faem yn gwir yſtyried naturiaeth yr enaid, a gwerthfawrogrwydd ein iechydwriaeth.

Hyd yn hyn chwi a glywſoch mor ddyfal i bydd pechaduriaid yn ceiſio denu eraill i bechu, mor gywreingall yw 'r moddion a arferant i ddwyn eu drwg amcanion i benn, ac mor baratted i mae dynol ryw i gyttuno a'u profedigaethau; hyn i gyd a ddylai beri ini fod yn gwbl wiliadwrus, hyn a ddylai ein cynhyrfu i gymmeryd gofal na fyrthiom iw maglau enbydus yn ddirybudd; ac fel i byddo i chwi wneuthur hyn yn well, mi a oſodaf gar eich bron.

Yn *drydydd* ac yn *ddiweddaf*, Y moddion gorau i ochel ac i orchfygu profedigaethau y cyfryw hudolwyr.

Yn *gyntaf*, Nyni a ddylem ochelyd cyn belled ac i rhydd ein galwedigaethau a'n negeſau anghenrheidiol gennad ini, gyfeilliach a chymdeithas y ſawl ac ſydd wedi eu

rhoddi

rhoddi eu hunain i fyny i ddilyn gweithredoedd y tywyllwch; ſef y ſawl ac ſydd yn ymarfer ac anghrefydd a buchedd ddrwg: o herwydd fod ymddiddanion drwg, ac ymarferu i wrando ar wagedd a choeg ddigrifwch cymdeithion anwireddus, yn ddigon er llygru y moeſau gorau. I mae cyn hawſed i ddyn redeg trwy 'r tân heb ddeifio ei ddillad, ac iw i ddyn ddilyn drwg gyfeillion heb rai o'u harferion. Ac yn wir nid yw ond ynfydrwydd mawr i un gymmeryd ei arwain i brofedigaeth a ddichon ef yn hawdd ei gochel. O ran, os awn i blith dynion drwg, bydd hawdd gan y rhai gorau o honom gael ein ſiommi a'n gorchfygu gan weniaith rodreſgar a rhith diddanwch. —— Ond

Yn *ail*, Gan fod y drwg a'r da felly wedi eu cymmyſcu yn y byd hwn, fel nad oes gyfeilliach iw chael, ac nad allwn ddilyn ein negeſau bydol fel i dylem heb gael rhyw faint o gymdeithas yr annuwiol, ein dyledfwydd yw cymmeryd gofal i'n harfogi ein hunain yn erbyn eu bwriadau dichellgar hwynt, fel na bo iddynt dwyllo ein heneidiau gwerthfawr ni. A hyn a allwn ni wneuthur drwy ddal yn ein côf y peth a ddy-

a ddywedpwyd o'r blaen am y moddion a arferant i ddenu eraill i bechu; ſef, nad yw eu bwriadau ond drwg a darfodedig, a'r rheſymmau a arferant i hudo trueniaid ond gwâg ac heb ſylfaen; eu haddewidion ſydd ſiomgar, a'u gobaith a ddiflanna, ac nid yw 'r budd a'r diddanwch i maent yn ymffroſtio o honynt ond gwagedd a maſwedd. Ac os bydd ein meddyliau gwedi eu cadarnhau a'r fath fyfyrdodau a'r rhain, ni lygra eu cymdeithas mo 'n calonnau, ac ni wna eu drwg eſamplau niwaid ini. — Nyni a ddylem oſod eſampl ein Iachawdwr bendigedig o flaen ein llygaid, yr hwn a demptiwyd fal ninnau, ond ni orchfygwyd, o herwydd nad oedd rhith pechod nag anghyfiawnder ynddo. Fe wnaeth Satan faleiſddrwg ei orau er temptio ein Iachawdwr; ir oedd ei genfigen yn rhoddi ei holl ddichellion cyfrwyſddrwg ar waith i hudo Mab Duw, gan wybod os cyflawnai ef hynny, i rhwyſtrai ef waith ein prynedigaeth, ac ir amdwyai ef holl ddynol ryw dros fyth. Ond er bod y cythraul gwedi cymmeryd ein Iachawdwr mewn llaw pan oedd ef yn unig yn y diffaethwch a newyn arno; er iddo ei

demptio

demptio ac amryw brofedigaethau, a gwneuthur iddo addewidion twyllodrus; etto Criſt a'i atteboddd allan o'r yſcrythur lân, eſe a'i diſtawodd ac a'i trodd ymmaith yn ebrwydd. Felly ninnau a allwn trwy râs yr an Criſt a'i air bendigedig, os arfogwn ni ein hunain a'r cleddyf yſprydol hwnnw, wrthſefyll pob arglwyddiaethau ac awdurdodau y tywyllwch, a gorchfygu profedigaethau gweithredwyr anwiredd. A thuac at wneuthur hynny yn fwy effeithiol, i mae yn anghenrheidiol ini fyfyrio yn fynych, ac o wir ddifrif, ar lawenydd a diddanwch y nêf, a chofio am y gwobrau a ddarperir i'r ſawl a wiliant, ac a ymwrolant, ac a ſafant yn y ffydd. Rhaid i bob gwir griſtion ddiſgwyl cyfarfod a llawer o drallodau a rhwyſtrau ar ei ffordd i'r nef; yn gymmaint a bod yn rhaid iddo wrth gyſſur a chymmorth rhagorol tra bo ef yn ymdeithio ar y ddaear ac yn dilyn ei ddyledſwyddau crefyddol; a diau yw fod Duw wedi ein cynnyſgaeddu a chyſſur rhagorol, ſef gobaith am goron ddiddarfodedig, a diſgwyliad cyſſurlawn am fywyd tragywyddol. A'r gobaith yma ſydd i'n cadw

rhag diffygio tan y beichiau trymmaf: ac i mae hefyd yn ddigon i'n cadarnhau yn erbyn halogiad gwenwynllyd a drwg ſiamplau y byd. I mae 'r gobaith yma yn ddigonol i'n cefnogi yn erbyn dichellion Satan, ſarhaad dynion, a choegni ein gelynion. Dyma 'r gobaith a'n harwain ni yn ddiogel heibio i brofedigaethau ein gelynion yſprydol, ac a'n dwg ni drwy gyfnewidiau a thrafferthau 'r byd hwn i'n gorphwyſfa dragywyddol. —— Ond heblaw yr yſtyriaethau yma i mae,

Yn *ddiweddaf*, yn angenrheidiol ini weddio yn wreſog ac yn ddibaid ar y goruchaf Dduw, ar fod yn wiw ganddo ein cynnorthwyo a rhâd ei lân yſpryd, i wrthſefyll profedigaethau niweidiol gelynion ein iechydwriaeth; i ddiddymmu ac i ddatcuddio eu bwriadau, fel na bo iddynt ein harwain ni i brofedigaeth, ond ein gwared ni yn ol purdeb ein calonnau oddiwrth bob drwg; ac na bo ini gael ein temptio uwchlaw ein gallu: ond gan gael ein hamddiffyn rhag ofn ein gelynion, i gallom dreulio y rhan arall o'n bywyd, yn bur ac yn ſancteiddiol, fel i caffom o'r diwedd ein gwo-

gwobrwyo a dedwyddwch anherfynedig yn y nêf dros dragywyddoldeb.

Yrawron i Dduw 'r Tad, y Mab a'r Yſpryd Glân i byddo pob mawl, anrhydedd, gogoniant a gallu, yr awrhon ac yn oes oeſoedd. *Amen.*

Diwedd y Llyfr I.

1 - 16
2 - 11
3 - 16½
4 - 17
5 - 15¼
6 - 9
7 - 24½
8 - [illegible]
9 - 24½
10 - 18
11 - 16
12 - 17
13 - 19
14 - 15½
15 - 17
16 - 15